
www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 491
Mehefin 2021




## Yr Wyddfa – Mynydd Di-blastig?


Mae llawer o drafod wedi bod am yr Wyddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – ei enw, problemau parcio a chiwio – ond ydych chi wedi ystyried yr Wyddfa yn ddi-blastig? Gyda dros 600,000 o ymwelwyr yn flynyddol, mae'r broblem sbwriel yn barhaus gyda gwirfoddolwyr a wardeniaid yn gweithio'n galed i lanhau ein bro odidog. Diolch i gydweithio gwych gan sefydliadau Partneriaeth Yr Wyddfa mae



cynlluniau a phrosiectau uchelgeisiol yn cael eu hystyried er mwyn i ni drigolion yr ardal, ac ymwelwyr, fwynhau'r fro.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi comisiynu Share Impact & Travel Without Plastic i greu adroddiad sy'n ystyried y posibilrwydd o gael statws newydd i'r Wyddfa a'r Parc, sef Statws Mynydd Di-blastig. Yn ôl y sefydliad, hwn fyddai'r mynydd cyntaf yn Ewrop i gyflawni hyn!





Elin Enfys

### Chwilio am Elin Enfys

Cofiwch chwilio am Elin Enfys! Mae'r arth fach yn cuddio 8 gwaith yma'n rhywle. Allwch chi ei ffeindio?

## Yn y rhifyn hwn:


- Dathlu Gwirfoddolwyr **tud. 3**
- Jac Jones - blog byw o'r cyfrif **tud. 4**
- Busnesa ar Salons **tud. 8**
- Camino Cymru **tud. 10**
- Murlun T Rowland Hughes **tud. 14**
- Garddio **tud. 28**








**a mwy!**

CYMRAEG

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com
**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk
**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com
**Ffotograffwr**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com
**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com
**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.
**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.
**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.
**Dylunydd**
Elgan Griffiths post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk
**Brynrefail a Cwm-y-Glo:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com
**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk
**Ceunant:**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant.
01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com
**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com
**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.
**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis. 01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com
**Llanrug:**
Eryl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.
**Nant Peris:**
Kate Pritchard
01286 675384.
econantperis@hotmail.com
**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk
**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

## LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,

**Newid Enwau**
Diddorol oedd yr erthygl am yr enw Braich Effri gan Glenda Carr ddau rifyn yn ôl ac ymateb Sarah Kelly yn y rhifyn diwethaf. Dymunaf innau gadarnhau beth a ddywed Sarah mai Bach 'Riffri oedd yr enw a ddefnyddiwyd gennym fel trigolion 'y filltir sgwâr'. Ymddengys felly fod yr enw wedi newid o fewn un genhedlaeth!

Er hynny, nid hwn yw'r unig enw a newidiodd. Pa bryd y dechreuwyd defnyddio 'Ffordd yr Orsaf' yn Llanrug? O beth a gofiaf nid oedd sôn am 'Station Road' hyd yn oed pan oedd yna orsaf ym Mhontrhythallt! O gychwyn o'r sgwâr, Stryd y Capel, Rhos Rug a Disgwylfa oedd yn bodoli cyn cyrraedd Pontrhythallt. A dyna enw arall – Pontrhythallt – sydd yn brysur ddiflannu – Llanrug yw pob man erbyn hyn, hyd yn oed ochr Penisarwaun o'r pontydd. Efail Newydd oedd yr enw gwreiddiol ar y dreflan yma tan y newidwyd ef gan fympwy y Post Brenhinol. Ganwyd fi yn Llys Iolen ar yr allt ond gwae i neb ddweud mai plentyn o Lanrug ydwyf! (Brysiaf i ddweud nad oes dim o'i le ar Lanrug.) Sut mae'n bosib mai rhan o Lanrug yw hwn gan mai ym mhlwyf Llanddeiniolen ac yn Ward Penisarwaun y saif.

Ac o sôn am Benisarwaun, mae'r enw Y Waun Winau wedi hen ddiflannu wrth gyfeirio at y gymdogaeth yng ngwaelod yr ardal. Syndod i mi oedd sgwrsio beth amser yn ôl gyda phâr priod oedd yn byw yn Nhai Arthur ers rhai blynyddoedd ac nad oeddent yn gwybod mai yn y Waun Uchaf yr oeddent yn trigo. Gyda llaw, i fyny i droad y ganrif ddiwethaf Y Waun Fawr a geir yn y Cyfrifiad am y darn yma o'r pentref.

Yr eiddoch yn gywir
Ieuan Williams.

## Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.
£30.00 Er cof am Mrs Dilys Williams, Bron Eilian, Dinorwig gan Shirley a Delwen.

Gyda gwyliau'r haf ar y gorwel, mae wedi bod yn bleser gweld ein busnesau lletygarwch yn ailagor yn raddol dros yr wythnosau diwethaf. Wrth i ni wynebu haf prysur arall o ymwelwyr yn dod i fwynhau ein hardal hardd ni, hoffai'r panel golygyddol ddymuno pob hwyl i bob busnes sydd wedi gorfod goresgyn cyfnod heriol wrth iddynt ailagor eto. Os ydych chi'n bwriadu mynd allan i gael blas o'r rhyddid yma, rydym yn eich atgoffa i wneud hynny'n gyfrifol gan gadw pellter i sicrhau bod ein busnesau bach lleol yn medru aros ar agor.

Cyn i'r pandemig gymryd drosodd pob agwedd o'n bywydau, roedd y byd yn wynebu her fawr arall, sef cynhesu byd eang. Bu'r Cyfnodau Clo yn flas o'r hyn allai fod, gyda'r gwaharddiadau teithio yn gadael ein lonydd yn wag a'r llwybrau beics yn llenwi, y rheol pum milltir yn dangos nad oedd angen hedfan i bellafion byd i ddarganfod paradwys a bod modd mwynhau ar ein stepan drws ni'n hunain. Felly, wrth i ni agor am yr eildro, ydy hi'n amser i ni ystyried newidiadau bychain gallwn ni ei gwneud i'n bywydau bob dydd a fyddai'n cyfrannu at arafu cynhesu byd eang?

Gobeithio y gwnewch fwynhau pori trwy'r rhifyn yma o *Eco'r Wyddfa*. Diolch eto i'n cyfranwyr selog am eitemau difyr tu hwnt. Cofiwch gysylltu os oes gennych syniadau am eitemau drwy ebostio ecorwyddfa@gmail.com

Criw Golygyddol Eco'r Wyddfa

**Datganiad gan y Pwyllgor Gwaith Dosbarthu Eco'r Wyddfa**
O fis Gorffennaf ymlaen, bydd dosbarthu'r Eco o ddrws i ddrws yn ail-ddechrau. Mae hyn yn digwydd eisoes mewn rhai pentrefi wrth gwrs. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn dymuno pwysleisio bod hyn yn amodol ar barodrwydd dosbarthwyr unigol a'r pwysigrwydd iddynt deimlo'n ddiogel ac yn fodlon i ddosbarthu. Yn ogystal â hyn bydd yr Eco yn parhau i fod ar werth yn yr holl siopau arferol ar hyd a lled y fro.

Cyhoeddir 11 rhifyn o'r Eco yn flynyddol. Cyhoeddir y dyddiadau cau derbyn cynnwys a'r dyddiadau cyhoeddi yn yr Eco yn fisol.

## Panel Golygyddol

Mae yna dîm o olygyddion yn cefnogi'r gwaith o gyhoeddi'r Eco, sef Beca Brown, Gwenllian Carr, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Mared Roberts a Marged Rhys.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Gorffennaf | 11 Mehefin | 25 Mehefin |
| Awst/Medi | 9 Gorffennaf | 23 Gorffennaf |
| Hydref | 10 Medi | 24 Medi |



# Dathlu Gwirfoddolwyr



Mae Wythnos Gwirfoddolwyr yn cael ei chynnal pob blwyddyn rhwng 1af a'r 7fed o Fehefin i ddathlu ymdrechion gwirfoddolwyr. Yn ystod yr wythnos arbennig hon, caiff mudiadau a gwasanaethau eu hannog i ddiolch i unigolion sydd wrth galon cymunedau. Gwirfoddolwyr sydd tu ôl i lawer o'r gwasanaethau rydym i gyd yn dibynnu arnynt.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cannoedd o unigolion yn camu i ymateb i'r argyfwng trwy gefnogi'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau mewn rolau ymarferol megis casglu meddyginiaethau, cadw mewn cyswllt a siopa bwyd. Sefydlodd Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn Mantell Gwynedd 'Banc Gwirfoddoli Gwynedd' ym mis Mawrth 2020.

"Roedd yr ymateb yn anhygoel ar y pryd, ac o fewn ychydig o wythnosau, cofrestrodd dros 600 o unigolion i roi eu henwau ymlaen i fedru helpu", dywed Carwyn Humphreys, Cydlynydd Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd. "Yn ogystal, rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 roedd bron i 550 o unigolion o Wynedd wedi cofrestru ar Gwirfoddoli Cymru sef gwefan gwirfoddoli cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn gynnydd o tua 50%. Mae nifer o wirfoddolwyr bellach yn gwirfoddoli yn ddigidol ac o adref gan fod mudiadau wedi gorfod addasu eu ffordd o ddarparu gwasanaethau. Rydym yn ymestyn ein diolchiadau enfawr i bob gwirfoddolwr a chymunedau sydd wedi gweithio'n andros o galed dros y flwyddyn heriol ddiweddar."

Yn ogystal ag ymateb i heriau Covid-19 mae gwirfoddolwyr brwd yn ein hardal yn ymateb i heriau eraill megis effeithiau niferoedd uchel o ymwelwyr i'r ardal. Un mudiad sy'n mynd i'r afael â hyn yw Cymdeithas Eryri, sydd wedi eu lleoli yng nghanolfan Caban ym Mrynrefail. Ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y Bartneriaeth Awyr Agored a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, mae'r gymdeithas yn galw am wirfoddolwyr newydd i sicrhau bod ein hardal yn cael ei warchod wrth i'r heidiau ailymweld â'n hardal dros yr haf. Mae 'Caru Eryri' yn ymgyrch i ddenu gwirfoddolwyr newydd wrth i ni wynebu haf arall o *staycations*. Prif rolau'r gwirfoddolwyr yw cyfeirio ymwelwyr, casglu sbwriel a chefnogi'r wardeniaid – swyddi pwysig tu hwnt er mwyn cadw'r ardal yn brydferth a'r ymwelwyr yn saff.

"Rydyn ni'n gyffrous ein bod ni'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i helpu i gefnogi'r gwasanaethau Wardeiniaid prysur yn Eryri tymor yr haf hwn", dywed Claire Holmes, Swyddog Ymgysylltu, Cymdeithas Eryri "Mae ein cynllun 2021, Caru Eryri, yn cefnogi llu o wirfoddolwyr ar lawr gwlad i wneud gwaith ymarferol yn ystod diwrnodau gwaith arferol yn ogystal â chyfathrebu gyda'r cyhoedd i'w hannog i ymddwyn yn gyfrifol wrth ymweld ag Eryri. Rydyn ni wedi sylwi bod pobl wir eisiau cymryd rhan eleni a rhoi help llaw i'r Parc Cenedlaethol. Mae'n ysbrydoledig gweld cymaint o wahanol bobl yn dod ynghyd â'r nod cyffredin o amddiffyn Eryri, y tir maen nhw'n ei garu."

Mae un grŵp o wirfoddolwyr wedi bod yn brysur tu hwnt yn tacluso pentref Llanberis. Mae grŵp Pentref Taclus Llanberis yn gweithio'n galed i greu ardaloedd gwyrdd a glân ble gall drigolion ag ymwelwyr fwynhau. Drwy gael gwared â sbwriel plastig a allai lygru ein llynnoedd ac afonydd, plannu coed i leihau'r lefelau carbon deuocsid a phlannu blodau i roi bwyd i bryfaid sy'n peillio mae'r gwirfoddolwyr hyn yn helpu i arafu cynhesu byd eang. Dyma ambell lun o'r gwaith maent wedi gwneud yng ngerddi cymunedol y pentref yn ystod y gwanwyn, gan gynnwys paentio giât arbennig Dylan Cadwalader Parry a gosod bwrdd ffeirio planhigion oedd yn rhodd gan Menter Fachwen.

Ydych chi'n awyddus i wirfoddoli neu eisiau dysgu mwy am waith y canolfanau gwirfoddol? Mae Mantell Gwynedd yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau fel rhan o Wythnos Gwirfoddoli. Ewch i wefan www.mantellgwynedd.com i ddarganfod mwy.

## Yn ystod y misoedd aeth heibio...

- Ci defaid byddar. Achubwyd y ci gan yr RSPCA a'i gyflwyno i fugail yn Norfolk fel ci anwes. Penderfynodd y bugail ei ddysgu i adnabod arwyddion dwylo, a bellach mae'r ci byddar yn gweithio'n rheolaidd gyda'i feistr.
- Dinas hynafol. Mae olion dinas a fu dan haenen o dywod ers 3,400 o flynyddoedd wedi ei darganfod ger Luxor yn yr Aifft. Mae'n dyddio o gyfnod Amenhotep III, y Pharo mwyaf pwerus yn hanes y wlad yn ôl arbenigwyr.
- Loofah. Mae'r diddordeb mewn tyfu'r planhigyn hwn o deulu'r ciwcymbyr wedi cynyddu, a hynny'n bennaf oherwydd y gellir ei ddefnyddio yn lle sbwng golchi, sy'n cynnwys plastig. Mae hefyd yn fwytadwy – ond nid ar ôl i chi ei ddefnyddio i olchi.
- Newydd a hen. Mae gwyddonwyr o Brifysgol Bangor yn cynghori ffermwyr i blannu ffa yn eu cylchdro cnydau oherwydd eu bod yn rhoi nitrogen yn ôl i'r pridd. Mewn profion yn yr Alban dangoswyd fod tyfu ffa yn haneru'r angen am wrtaith. Wrth gwrs, mae ffermwyr a garddwyr organig yn gwybod hynny'n barod, ac ambell un o'r genhedlaeth hŷn wedi dysgu amdano mewn gwersi hanes am 'Turnip Townsend'.
- Addurniadau Nadolig. Ddiwedd Ebrill y daeth coeden Nadolig tref Aberteifi i lawr. Yr Ail Glo a ataliodd y gwaith ddechrau Ionawr eleni, ac yna darganfuwyd fod colomennod yn nythu ynddi, a dyna ohirio'r gwaith unwaith yn rhagor.
- Prinder Corachod. Gyda mwy o bobl yn troi at arddio yn ystod cyfyngiadau y flwyddyn ddiwethaf, cynyddodd y galw am gorachod gardd. Ychwanegwyd at y prinder yn y canolfannau garddio oherwydd i'r llong aeth yn gaeth yng Nghamlas Suez atal symudiad masnachol y corachod.
- Gwahardd awyrennau. Mae Ffrainc yn bwriadu gwahardd teithiau awyren o fewn y wlad os yw'n bosib gwneud y daith mewn llai nag awr a hanner mewn trên. Mae'r cynllun yn rhan o ymdrech y wlad i ymdopi â newid hinsawdd a gwarchod yr amgylchedd.
- Rhino Ungorn. Mae niferoedd yr anifail hynod brin hwn wedi cynyddu dros 100 yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf o ganlyniad i raglen gwarchodaeth gwlad Nepal.
- Scrabble. Mae ffrae wedi codi rhwng gwahanol gymdeithasau rhyngwladol sy'n cynnal cystadleuthau'r gêm fwrdd boblogaidd, a hynny oherwydd y bwriad i ddiddymu dros 400 o eiriau sy'n cael eu hystyried yn 'niweidiol'; yn enwedig i bobl o dras Affricanaidd neu bobloedd o ddwyrain Asia.
- Sychder. Mecsico yn dioddef y sychder gwaethaf ers dros ddeng mlynedd ar hugain. Dim ond un rhan o dair o gronfa ddŵr Villa Victoria sydd â dwr ynddi – a dyma'r gronfa fwyaf yn y wlad, yn cyflenwi poblogaeth o naw miliwn yn y brifddinas.
- MI5. Adroddwyd fod y sefydliad cyfrinachol hwn yn lansio cyfrif Instagram swyddogol a fydd yn cynnwys mynediad i'w harchifau. Datgelu cyfrinachau? Sgersli bilif!
- Sherpa. Mae tywysydd o Nepal o'r enw Kami Rita wedi cyrraedd copa uchaf y byd am y pumed tro ar hugain. Fe'i dringodd gyntaf ym 1994 ac mae wedi bod i'r copa bron iawn yn flynyddol ers hynny.
- Carreg derfyn. Symudwyd carreg drom gan ffermwr o Wlad Belg am ei bod yn creu rhwystr i'w dractor tra'n aredig ei dir. Roedd y garreg, a symudwyd rhyw dair medr, yn marcio'r terfyn rhwng Gwlad Belg a Ffrainc. Dywedir fod y cysylltiad rhwng y ddwy wlad yn parhau'n gyfeillgar.

**Dafydd Whiteside Thomas**

# Pigion Bro Wyddfa 360

Bro Wyddfa 360

**Jac Jones: Yn fyw o'r Cyfrif**

***Mae Jac Jones, o Waunfawr, ar hyn o bryd yn astudio Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor. Mae ei ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth yn deillio o'i ddiddordeb yn y modd y mae llywodraethau'n gweithio, a'r berthynas rhyngddynt a'r gymdeithas. Felly, roedd yn brofiad gwych iddo gael mynychu'r Cyfrif ar gyfer Etholiad y Senedd yng Nghanolfan Hamdden Arfon ym mis Mai, gan redeg blog byw o'i brofiadau i wefan BroWyddfa360. Dyma Jac yn sôn am ei brofiad:***

Efo diolch mawr i Bro360, mi gefais gyfle ardderchog i ddogfennu Cyfrif Etholaeth Arfon ar gyfer Etholiad Senedd 2021. Mewn blog byw ar gyfer y digwyddiad ysgrifennais 'foment wrth foment' am y Cyfrif a'r diweddariadau nodedig.

Yn y blog byw, siaradais am hanes yr etholaeth; y canlyniadau blaenorol; goblygiadau swing sydyn yn y bleidlais Lafur, fel a ddigwyddodd yn 2017; Etholiad 2019; a sut y gallai'r canlyniadau newid y flwyddyn yma.

Cefais y cyfle i ymweld â'r Cyfrif trwy'r sesiynau Fotio am Fory y mae Bro360 wedi bod yn eu cynnal efo pobol ifanc yn siroedd Gwynedd a Cheredigion. Yn y rhain, mi fu pobol ifanc yr ardaloedd yma yn casglu eu syniadau er mwyn annog y bleidlais ieuenctid.

Felly, roeddwn i wedi cael fy nghyflwyno efo'r cyfle gwych i fod yn 'ohebwr gwleidyddol' (i raddau) am y diwrnod. I fod yn onest, roeddwn yn reit newydd i'r profiad yma; ddim i'r broses wleidyddol ei hun, achos rwyf yn reit wybodus yn hynny. Ond roedd y broses ohebu yn brofiad reit newydd i mi, ond un diddorol a llawn hwyl.

I fod yn deg, roedd y broses cyfri y flwyddyn yma'n wahanol i'r rai'r gorffennol, gyda chlod i'r pandemig am hynny! Fel y byddech yn disgwyl, roedd y rheoliadau Covid-19 yn cael effaith llym ar y cyfri, ac roedd hyn yn ei gwneud yn eithaf anodd cael yr union ddehongliad o beth oedd yn digwydd ar y pryd, achos roeddwn mewn *skybox* ac nid ar y llawr. Ond i ddweud y gwir, roeddwn dal yn gallu cynnal y blog byw, i raddau effeithiol beth bynnag.

Roedd rheolau Covid-19 wedi cael effaith aruthrol ar yr amser a gymerwyd i'r cyfrif gael ei gwblhau, roedd hyn oherwydd fod y nifer o bobl oedd yn cael bod yn yr adeilad yn gyfyngedig. O ganlyniad i hyn, os ydych yn cymharu fy mlog byw efo rhai o'r gorffennol, mae 'na ychydig mwy o fylchau yn fy niweddariadau i gymharu efo'r rhai o'r blogs etholiadau 'pre-Covid'. Ond o leiaf doedd y sefyllfa ddim rhy ddrwg.

Yn ystod y sesiwn, mi gefais gyfle i siarad efo ymgeiswyr Arfon. Ond yn anffodus, nid oedd gan unrhyw ymgeisydd heblaw Siân Gwenllian ddiddordeb mewn siarad efo'r gohebwyr. Felly, mae rhaid i mi ddweud chwarae teg i Siân Gwenllian am fod yr unig ymgeisydd oedd yn fodlon siarad efo'r gohebwyr ac ateb ein cwestiynau. Ar ôl cael sgwrs fach efo Siân Gwenllian, roedd hi'n llawn optimistiaeth am yr etholiad yn Arfon a'r canlyniad terfynol.

Erbyn diwedd y dydd ac ar ôl i'r cyfri orffen, cyhoeddwyd y canlyniadau ar gyfer etholaeth Arfon, efo Plaid Cymru a Siân Gwenllian yn ennill o fwyafrif llethol. Mi es i ar y blog yn syth i wneud y cyhoeddiad fod Plaid Cymru wedi dal gafael ar Arfon.

I ddweud y gwir, roedd y profiad yma'n un gwych er mwyn rhoi mewnwelediad uniongyrchol o sut mae'r broses wleidyddol a'r cyfri yn gweithio. I mi, mae hyn wedi bod yn ddiddorol iawn, yn enwedig mewn perthynas â digwyddiadau diweddar fel y dadlau am y cyfrif yn yr UDA.

**Jac Jones**






# Cyngor Gwynedd yn penodi Prif Weithredwr newydd

Mae Cyngor Gwynedd wedi dechrau cyfnod newydd yn ei hanes drwy benodi Dafydd Gibbard yn Brif Weithredwr newydd. Mae'n olynu Dilwyn Williams, sydd wedi ymddeol ym mis Mai.

Wrth gael ei benodi, dywedodd: "Fel rhywun sydd wedi byw yma ar hyd fy oes, mae'n fraint aruthrol cael fy newis yn Brif Weithredwr newydd Cyngor Gwynedd.

"Heb os, mae'r Cyngor ar seiliau cadarn iawn ac mae llawer o hynny yn dyst i ymdrechion Dilwyn Williams fel Prif Weithredwr. Fy mwriad ydi ceisio adeiladu ar y gwaith yma, gan sicrhau fod y diwylliant o roi pobl Gwynedd yn ganolog i holl waith y Cyngor, yn parhau ac yn dwysau.

"Mi wn i fod gan y Cyngor weithlu hynod o ymroddedig ac mae hynny wedi ei amlygu fwy nag erioed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae ymdrechion rhyfeddol staff y Cyngor wedi sicrhau fod ein gwasanaethau allweddol yn parhau i fod ar gael i drigolion y sir pan maent wedi bod eu hangen fwyaf.

"Erbyn hyn, mae arwyddion cadarnhaol fod y pandemig Covid-19 yn sefydlogi a'n bod gobeithio yn gallu symud i gyfnod o adfer lle gallwn edrych ymlaen at rywfaint mwy o normalrwydd.

"Bydd y blynyddoedd nesaf yn cyflwyno sawl her i ni fel Cyngor. Ond rydw i'n gwybod fod y gwaith arloesol sydd wedi ei gyflawni i gynnal gwasanaethau drwy'r amseroedd anodd, yn golygu fod Gwynedd mewn lle da i gamu ymlaen yn hyderus i'r cyfnod nesaf yn ein hanes."

Wrth groesawu penderfyniad y Cyngor llawn, dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn:

"Rydw i'n hynod falch fod Dafydd Gibbard wedi ei benodi yn Brif Weithredwr newydd Cyngor Gwynedd.

"Mae Dafydd eisoes wedi gwneud cryn argraff yn ei amser gyda Chyngor Gwynedd. Bu'n arwain ystod o brosiectau corfforaethol allweddol yn cynnwys prosiectau gwerth miliynau lawer i adeiladu ysgolion newydd ar draws y sir. Yn fwy diweddar mae wedi chwarae rôl bwysig wrth sefydlu Cynllun Tai fydd yn ein galluogi i daclo'r argyfwng tai a darparu mwy o gartrefi i bobl Gwynedd.

"Fel cynghorwyr, rydym wedi ein hargyhoeddi fod gan Dafydd y sgiliau a'r weledigaeth i gymryd yr awenau fel Prif Weithredwr ac adeiladu ar waith Dilwyn Williams sy'n ymddeol wedi saith mlynedd yn y rôl ac oes o wasanaeth i lywodraeth leol yma yng Ngwynedd."


Wedi ei fagu ym Mhwllheli gan fynychu ysgolion Cymerau a Glan y Môr, astudiodd Dafydd Gibbard Gynllunio a Rheoli'r Amgylchedd yng Ngholeg Normal, Bangor ac yna cymhwyso yn Syrfëwr Siartredig. Mae bellach yn byw gyda'i deulu yn Llanrug ac wedi bod yn weithgar yn hyfforddi timau ieuenctid i fechgyn a genethod y pentref am flynyddoedd lawer.

Llongyfarchiadau mawr i chi Dafydd ar eich penodiad, gan ddymuno pob llwyddiant i chi wrth arwain gwaith y Cyngor i'r dyfodol.

# Rhywle fel Hyn: Atgofion drwy Ganeuon

Rydyn ni wedi clywed rhai o ganeuon Dafydd Iwan ers dros hanner canrif. Mae'r geiriau a'r alawon mor gyfarwydd. Maent yn rhan o fywyd pob Cymro gwerth ei halen. Eto, mae rhywbeth newydd i'w ddysgu am bob cân. Yn y gyfrol hon mae Dafydd yn rhoi casgliad o straeon sy'n dangos o ble a pham y cyfansoddodd ei ganeuon.

"Mae darllen llyfrau'r gyfres 'Atgofion Drwy Ganeuon' wedi bod yn brofiad hynod o ddifyr i rywun fel fi, sydd wedi bod yn cyfansoddi a chanu caneuon gydol fy mywyd," meddai Dafydd Iwan. "Wrth ddarllen am brofiad cyfansoddwyr eraill, mae rhywun yn cael golwg newydd rywsut ar y berthynas ryfedd sy'n bodoli rhwng cyfansoddwr a'i ganeuon. Ar lefel hollol arwynebol, mater o roi geiriau ac alaw at ei gilydd i greu difyrrwch dros dro yw cyfansoddi cân, a dim byd mwy na hynny. Ond o ddarllen y gyfres hon, mae'n amlwg bod caneuon yn datgelu storfa o wybodaeth am y cyfansoddwyr – eu plentyndod a'u magwraeth, y dylanwadau fu arnyn nhw, eu profiadau dwys a digri, a chant a mil o bethau eraill sy'n gallu troi'r caneuon yn ddogfennau cymdeithasol a diwylliannol o bwys."




Trodd rhai o ganeuon yn anthemau dros yr hanner canrif y bu'n eu canu. Clywir 'Yma o Hyd' yn rheolaidd ar Barc y Strade. Fe'u clywyd hefyd mewn man mor annisgwyl ag uffern maes y gad yn Kosovo. Yn ei ganeuon gwleidyddol, mae'n parhau swyddogaeth yr hen faledwyr stryd a ffair. Mae rhai o'i ganeuon serch bellach yn ganeuon gwerin ein hoes. Yn ei ganeuon dychan, mae'n pontio Jac Glan y Gors a Harri Webb. Mae'n oesol ac yn gyfoes yr un pryd.

Yn y gyfrol hon mae'n datgelu'r hanesion y tu ôl i gyfansoddi nifer o'i ganeuon, rhai'n adnabyddus, eraill yn llai cyfarwydd, Dioddefodd o'i unplygrwydd fel Cymro ac nid yw'n hepgor ambell awr ddu yn ei fywyd. Mae'i onestrwydd yn disgleirio drwy'r cyfan. O bori drwy'r penodau dadlennol hyn cewch ail-fyw'r caneuon yn ogystal â darllen rhwng y llinellau. Meddai Dafydd Iwan eto,

"Rwyf fi wedi cael cyfle mewn ambell i gyfrol arall i sôn am gefndir rhai o 'nghaneuon, ond fy mwriad yn y gyfrol fach hon yw ceisio gosod rhai o fy nghaneuon (gan gynnwys rhai llai adnabyddus) yn eu cyd-destun, a cheisio tynnu ohonyn nhw gymaint ag y medraf o wybodaeth am brofiadau fy mywyd, ac am Gymru a'r byd a'u pobol, gan obeithio y bydd yr atgofion a'r sylwadau o ddiddordeb i rywun yn rhywle."



# 10 DEG Y DYSGWYR

*Cyfle i ddod i adnabod siaradwyr Cymraeg newydd yr ardal drwy gyfrwng deg cwestiwn yr Eco.*

**Enw:** Tiffany Arnold
**Byw yn:** Bro'r Wyddfa
**Fy ngwaith a diddordebau:** Therapydd Celf Cofrestredig HCPC yn gweithio i'r GIG mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Creadigrwydd, bod yn yr awyr agored, cerdded, nofio, beicio.

Cyd-gynhyrchu ar gyfer systemau gofal iechyd ac atebion amgylcheddol – datrys problemau trwy weithio mewn partneriaeth a gwrando ar bobl. Mae'n rhesymegol gofyn beth mae pobl eisiau neu' angen, ac wedyn mynd ati i'w wneud! Trwy hynny, gall gwasanaethau a systemau fod yn seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio mewn gwirionedd.

1. **Roeddwn i eisiau dysgu Cymraeg oherwydd:**
   Pan oeddwn i'n byw yn Sheffield, roeddwn i'n breuddwydio am symud i Gymru, ac ysgrifennais i at ychydig o bobl i weld a oedd unrhyw gyfleoedd. Yn wyrthiol, cefais gynnig swydd dda iawn yma, lle roeddwn i eisiau bod. Fe wnes i ffrindiau, a rhyfeddu fy mod i mewn gwirionedd yn byw yn y lle anhygoel hwn. Roedd yn teimlo'i fod yn bwysig dangos parch a gwerthfawrogiad o'r pethau da y mae'r tir hwn wedi'u rhoi imi trwy ddysgu Cymraeg. Hefyd roeddwn i'n meddwl gallwn i wneud mwy o ffrindiau os oeddwn i'n siarad yr iaith.
   Rydw i wedi teimlo'n bryderus iawn am faterion amgylcheddol, yn fyd-eang ac yn lleol, yn enwedig ers dod yn rhiant. Mae cymaint na allwn ei reoli, ond roeddwn i'n teimlo'n llawer gwell pan benderfynais ganolbwyntio ar bethau y gallwn eu gwneud, ac ar newidiadau cadarnhaol y gallwn eu gwneud yn lleol. Rwyf wedi mwynhau cysylltu â phobl yn y gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg i feddwl am yr hyn sy'n bosibl, a darganfyddais fod yna lawer o ewyllys da i newid pethau er gwell. Gwnaed rhai newidiadau cadarnhaol eisoes ac rwy'n gyffrous am y pethau arall y gellir eu cyflawni.
2. **Rydw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers...**
   2002
3. **Y peth gorau am ddysgu Cymraeg yw...**
   Sgwrsio â phobl, rhannu jôcs, a gallu ymuno â sgyrsiau. Mae pobl wir yn gwerthfawrogi eich bod wedi gwneud yr ymdrech i ddysgu.
4. **Y peth gwaethaf am ddysgu Cymraeg yw...**
   Weithiau, dw i'n teimlo fy mod i'n siarad trwy gwmwl a gall pethau deimlo'n ddatgysylltiedig. Mae'n rhwystredig pan dwi methu mynegi fy hun.
5. **Fy hoff air neu ddywediad Cymraeg yw...**
   Does gen i ddim un rili, ond dw i'n mwynhau 'ychafi' gan fod y synau mor rhyfeddol o fynegiadol o'r teimlad sy'n cael ei ddisgrifio, yn enwedig os yw'n cael ei ynganu â phwyslais mawr.
6. **Gall siaradwyr mamiaith helpu dysgwyr drwy...**
   Mae pobl Cymraeg mor gwrtais a chymwynasgar, ac yn aml yn dechrau siarad Saesneg ar unwaith os ydyn nhw'n meddwl mai dyna'ch iaith gyntaf. Mewn gwirionedd mae'n ei gwneud hi'n anodd iawn dysgu Cymraeg pan fydd pobl yn gwneud hynny! Rwy'n gwerthfawrogi amynedd a dealltwriaeth pobl yn fawr pan maen nhw'n parhau i siarad Cymraeg gyda mi, hyd yn oed ar ôl i mi ofyn iddyn nhw i ailadrodd rhywbeth neu os dwi'n yn mynd yn sownd.
7. **Fy moment fwyaf balch wrth ddysgu...**
   Y tro cyntaf imi fynd i'r dafarn gyda ffrindiau sy'n siarad Cymraeg a llwyddo i siarad Cymraeg trwy'r nos.
8. **Fy nhro trwstan mwyaf wrth ddysgu...**
   Pan ges i wahoddiad i siarad yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyda chydweithwyr. Roeddwn i'n gallu gwneud yn o lew yn Gymraeg a deall tua dwy ran o dair o'r hyn a ddywedwyd mewn sgyrsiau. Ond pan ddechreuodd y cyflwyniadau sylweddolais ei bod yn iaith hollol wahanol i'r un a siaredir yn gymdeithasol ac ni allwn ddeall gair! Pan ddaeth fy nhro i siarad, gofynnodd rhywun yn y gynulleidfa gwestiwn, ac atebais yn eithaf hir, dim ond i gael gwybod wedi hynny fy mod wedi camddeall y cwestiwn! Roedd gen i gymaint o gywilydd!
9. **Rydw i'n sbarduno fy hun drwy...**
   Feddwl, os byddaf yn parhau i weithio arno, yna un diwrnod fyddai'n gallu mynegi fy nheimladau yn fwy rhugl a siarad heb orfod cyfieithu yn fy mhen.
10. **Mae'r iaith Gymraeg yn....**
    Rhan o fy mywyd rŵan.

# Un funud fach ...

## Hawl i Obeithio

'A phwy a ŵyr beth a ddaw o'n tîm pêl droed erbyn dechrau Gorffennaf?' Mi ddywedais i hynny yn y golofn hon union bum mlynedd yn ôl. Roedd yna gyffro mawr yng Nghymru ar drothwy twrnamaint pêl droed yr Ewros. Doedd gan yr un ohonom syniad beth a ddeuai o'r tîm, a go brin fod neb, yng Nghymru nac yn unman arall, wedi rhagweld y byddem yn cyrraedd y rownd gynderfynol ac y byddai'r haf hwnnw mor gofiadwy. 'A phwy a ŵyr' yw hi eleni eto. Y cwbl a wyddom yw bod Cymru i fod i chwarae tair gêm, ar 12fed, 16eg a 20fed Mehefin. Mae fy mhen yn dweud ei bod yn bosibl i'r cyfan fod drosodd wedi hynny, ond mae'r galon yn breuddwydio am gyfran o hwyl a llwyddiant Mehefin a Gorffennaf 2016.

Un peth a wyddom yw nad yw llwyddiant blaenorol yn rhoi unrhyw warant ar gyfer yr hyn a ddaw. Ni all brwdfrydedd na gobaith y mwyaf optimistaidd o gefnogwyr ein tîm cenedlaethol warantu llwyddiant yr haf hwn. Ac mae'r hyn sy'n wir am fyd chwaraeon yn wir hefyd am yr Eglwys ac am ein bywydau ninnau. Gwelsom ers blynyddoedd nad oedd ffyniant Eglwys Iesu Grist yn ein gwlad yn y gorffennol yn warant y byddai ei llewyrch yn parhau. Ac nid yw'r mwynhad o fendithion Duw a brofodd neb ohonom dros gyfnod maith yn rhoi i ni hawl i ddisgwyl i'r bendithion hynny barhau. Nid yw'r ffydd ddyfnaf yn Iesu Grist yn rhoi hawl i ni ddisgwyl i bopeth fynd o'n plaid, ac nid yw'r gobaith mwyaf yn Nuw'n rhoi hawl i ni gredu na ddaw dim ond hawddfyd i'n rhan.

Nid oes i'r Cristion, mwy na neb arall, sail dros gredu y bydd popeth yn dda bob amser. Nid yw Duw wedi addo na fyddwn yn profi cur a chaledi a cholledion. Ni chafodd hyd yn oed yr Arglwydd Iesu Grist addewid o'r fath. Ond y mae wedi addo cymorth a chysur a chynhaliaeth yn wyneb popeth a ddaw. Nid gobaith o fywyd esmwyth, rhydd o bob siom a phoen a loes a roed i bobl Crist ond gobaith sicr o ras a nerth Duw yng nghanol y cyfan a ddigwydd, ac yn aml er gwaethaf y cyfan.

Ac ni addawodd Duw lwyddiant diamod i waith ei Eglwys yn ein gwlad ni na'r un wlad arall. Gwelodd Cymru gyfnodau o fendith mawr a diwygiadau nerthol, ond ni fu'r un ohonynt yn warant o lwyddiant Eglwys Dduw mewn cyfnodau diweddarach. Erbyn hyn, prin fod yr hynaf yn ein plith yn cofio bri mawr ar waith yr Efengyl. Ond os nad yw llwyddiant ddoe'n warant ar gyfer yfory, mor bwysig yw cofio nad yw llesgedd na thlodi ddoe chwaith yn warant o fethiant yfory. Mae gennym hawl i obeithio ac i weddïo, nid ar sail ein doe ond ar sail daioni Duw, y bydd Ef ei hun yn llwyddo'i waith ac yn gogoneddu ei enw o'r newydd.

**John Pritchard**

# Ysgol Brynrefail

**Dweud eu barn am bleidleisio ar newyddion S4C**

Ymddangosodd criw o fl 12 ar newyddion gyda'r nos y BBC ac S4C ar 29ain Ebrill yn trafod pleidleisio yn etholiadau'r senedd am y tro cyntaf. Holwyd Cadi Thomas, Medi Edwards, Mared Vaughan, Nel Jones a Tomi Llywelyn am eu teimladau ynglŷn â chael pleidleisio a hwythau yn 16 mlwydd oed. Etholiad y Senedd ar y 6ed Mai oedd y tro cyntaf wrth gwrs i bobl ifanc dros un ar bymtheg mlwydd oed gael yr hawl i bleidleisio. Siaradodd y pump yn arbennig o dda gan bwysleisio eu bod yn ei theimlo'n fraint i gael pleidleisio, ac yn hawl y dylai pob un ei chymryd o ddifrif a'i defnyddio.

**Prosiect Ffilm Seiont**

Mae Prosiect Ffilm Seiont yn gynllun cyffrous ar gyfer disgyblion hŷn Ysgol Brynrefail er mwyn meithrin sgiliau a diddordeb ym myd y ffilm. Mae'n pontio'r bwlch o'r gwyliwr beirniadol sy'n adolygu gwahanol genres ym myd y ffilm, i gynhyrchu rhaglenni mewn gwahanol gyfryngau. Y nod yw sbarduno unigolion i ystyried gyrfa ym myd y ffilm ac ym maes y cyfryngau yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn cael ei lywio gan Robin Williams a Dafydd Roberts, a chaiff ei noddi gan Ffilm Cymru. Bydd y disgyblion yn mwynhau gweithio ar ffilmiau digidol, animeiddio, rhaglenni dogfen a rhyngweithiol fel rhan o'r gwaith, a bydd ffrwyth eu llafur yn rhan o ŵyl Ffilmiau Caeredin fis Tachwedd. Yn y sesiwn agoriadol mwynhaodd y criw sesiwn hyfforddiant gan Dr Geraint Elis a Dr Simon Thomas o Brifysgol Cymru Bangor (llun o rai oedd yn y cyfarfod (eraill ar Zoom), a bydd y sesiwn nesaf dan ofal yr awdures Fflur Dafydd.



**Ffarwelio â disgyblion blwyddyn 11!**

Mae'r dyddiau'n prysur ddiflannu, a chyn pen dim fe fyddwn yn ffarwelio gyda blwyddyn 11. Bydd nifer ohonynt yn naturiol yn dychwelyd atom i'r chweched dosbarth, ond i eraill, bydd hwn yn ddiwedd cyfnod go iawn. Cawsom gyfle i holi ambell un am eu hatgofion am Ysgol Brynrefail:

**Sion, Aiden, Jonathan, Dion**

"Rydym wedi mwynhau ein hamser yn yr ysgol, yn arbennig felly'r cyfeillgarwch a'r hwyl efo ffrindiau.

Cawsom y cyfle i fod yn rhan o weithgareddau chwaraeon fel pêl-droed oedd yn lot o hwyl. Roedd hyn yn gyfle i gael gwella sgiliau ond yn arbennig fe gawsom hwyl ac amseroedd hapus iawn.

Fe wnaethom hefyd fwynhau'r tripiau i Glanllyn a cherdded yr Wyddfa hefyd."



**Megan**



Megan Erin a Hollie

"Fy hoff atgofion yw'r amser y cynhalion ni Ffair BAC ar gyfer y disgyblion iau. Hefyd, mi wnes i fwynhau'r eisteddfod a'r mabolgampau bob blwyddyn. Ond efallai mai'r peth pwysicaf oedd treulio amser efo fy ffrindiau yn fy hoff wersi – Celf, Cymraeg a Bwyd a Maeth."

**Jade ac Emma**



Jade a Chloe

"Mi wnawn ni fethu'r holl ffrindiau rydan ni wedi'u gwneud dros y pum mlynedd diwethaf, a'r athrawon sydd wedi bod yn gwneud eu gorau drostan ni."

**Aled a Gwion**

"Mae na lot o atgofion, yn enwedig yr holl dynnu coes ac amseroedd chwarae ar gaeau'r ysgol. Mae pawb yn mwynhau herian Aled! Nawn ni i gyd fethu'r hwyl efo'n gilydd."

# TUDALEN YR IFANC

## Beth yw newid hinsawdd a sut allai chwarae fy rhan?


*gan Ifan Aled Evans, Blwyddyn 8, Ysgol Brynrefail*

"*Humanity is now acting like a super volcano. We are releasing carbon dioxide at an even greater rate than the prehistoric mega eruptions that it extinguish life in the past.*" Dyma eiriau cryf Syr David Attenborough sy'n disgrifio pa mor erchyll yw'r sefyllfa rydym yn byw ynddo a gwnaeth argraff arnai wrth edrych ar y rhaglen 'Perfect Planet' gan y BBC. Mae bron pob rhan o'r byd modern yn dibynnu ar yr egni a gynhyrchir drwy losgi tanwyddau ffosil a bellach mae hyn yn cynhyrchu carbon deuocsid can gwaith mwy yn fyd-eang na holl losgfynyddoedd wedi eu cyfuno. Yn ôl Dr Niall McCann, Biolegwr Cadwriaethol "*We are about to have climate refugees forced out of inhabitable areas of the World pushed up to Europe*". Y mae Jeremy Rifkin, Economegydd ac Amgylcheddwr yn dweud "*Unfortunately hundreds and millions of people are migrating from areas that are no longer liveable in the next twenty, thirty, forty, fifty and sixty years.*" Yn fy marn i mae hyn yn frawychus ac felly yn hytrach na chanfod rhagor o atebion gwyddonol yr ydym eisoes yn eu gwybod, rwyf am ganolbwyntio ar yr ochr wleidyddol. Fy nghwestiwn i yw a yw ein llywodraeth ddigon cyflym yn atal y broblem?

Mae'n anodd i mi gredu fod holl wleidyddion y Byd yn deall fod bywyd y blaned yn ffynnu i ganlyniad grymoedd naturiol pwerus. Mae'r tywydd yn rhoi patrymau rhagweladwy o lawiad i ni; mae goleunni'r haul yn cael ei roi i holl arwynebedd y Byd; mae ceryntau cefnfor yn cario maeth ar draws y glôb ac mae llosgfynyddoedd yn creu ac yn ffrwythloni'r tir. Mae'r rhain i gyd wedi llwyddo i helpu bywyd dynol i fyw ar y blaned. Ac eto o ganlyniad diffyg dealltwriaeth gwleidyddion y Byd mae'r haen oson wedi ei ddinistrio. Mae'r cyn arlywydd America yn enghraifft o hyn pan dynnodd allan o Gytundeb Hinsawdd Paris.

Yn 2008 cytunodd Llywodraeth Prydain i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% erbyn 2050. Erbyn 2030 maen nhw'n meddwl y bydd allyriadau wedi cael eu torri 59%. Ond mae arbenigwyr yn dweud y bydd angen eu torri 70% erbyn hynny neu bydd hi'n rhy hwyr newid yn ôl! Wrth i mi ymchwilio i waith Dr Huw Williams athronydd ym Mhrifysgol Caerdydd mae'n gofyn i ni gamu'n ôl, edrych ar syniadau a gwerthoedd eraill, rhai oddi wrth y gwerthoedd craidd sydd gennym ni'n barod gan newid ein hagwedd. Mae gwerthoedd gwahanol yn ein cymdeithas ni ar y funud yng ngorllewin Ewrop sy'n cynnwys gwerthoedd rhyddfrydiaeth, cyfalafiaeth a democratiaeth. Mae rhain yn blaenoriaethu pobl yn unigol os edrychwn ni'n fanwl ac ar draul y gymuned. Hefyd ar draul gwerthoedd i gadw'r byd yn gynaliadwy. Mae gwerthoedd rhyddfrydol yn golygu ein bod yn rhydd i wneud beth bynnag rydym eisiau ei wneud. Mae prynu a gwerthu erioed wedi bod yn rhan o'n system economaidd a'n gwerthoedd cyfalafol. Ar hyn o bryd mae'n bwysig i'r gymdeithas fod yn gyfoethog a chynilo ac wrth wneud hyn rydym yn cynhyrchu mwy a mwy o adnoddau sydd ar draul gwerthoedd newid hinsawdd. Mae democratiaeth yn gwneud i'r person feddwl pa blaid sydd yn mynd i gyrraedd anghenion yr unigolyn ac felly mae anghysondeb ar gyfer annog newidiadau er gwell. Mae Calvin Jones yn nodi ei fod yn amhosib cynnal y math yma o gymdeithas sydd ganddom ni nawr a bod yn gynaliadwy. Felly beth yw'r atebion a sut galla i chwarae fy rhan? Beth am gael cymdeithas ddi-dwf lle rydym yn rhannu adnoddau a gweld gwerthoedd cymdeithas? Beth am syniad Robyn Eckersley o roi Y Wladwriaeth Werdd yn flaenoriaeth o flaen unrhyw beth arall ac yn sicr yr unigolyn? A beth am roi llais i'r bobl dlawd a natur ac ymateb i'n cymunedau lleol drwy gael democratiaeth radical? Yn sicr rydw i'n chwarae fy rhan a meddwl a yw'r pethau yma wir o werth i mi! A oes angen i mi gael dillad gan cynllunydd sydd wedi trio teithio'r Byd ac yn dangos ôl carbon? Yn sicr mae angen newid ymddygiad unigol a neges bwysig sydd ganddom ni yng Nghymru erioed yw "Gwnewch y pethau bychain!" ac mae hynny yn wir ag erioed!

**Daeth yr erthygl yma i'r brig yng nghystadleuaeth ysgrifennu erthygl am newid hinsawdd Cynllun Seren trwy holl ysgolion Gwynedd a Môn. Llongyfarchiadau Ifan!**



## CROESAIR

**Ar draws**

1 Bwyd meddal sy'n crynu (4)
3 Trafnidiaeth dwy olwyn (7)
8 Math o ddesg (5)
9 Y gorau hyd yma [mewn cystadleuaeth] (6)
10 Atsain (3)
11 Tymer (5)
12 Yn ymyl (6)
13 Ffawd (3)
15 Ceffyl bach (4)
17 Priodi (3)
19 Pennill byr (5)
20 Llamu (6)
22 Grym (3)
23 Merch sy'n etifedd (8)

**I lawr**

1 Math o aderyn (2, 4)
2 Darn bach o borfa mewn gardd neu barc (5)
4 + 16 i lawr - Dinas yn yr Unol Daleithiau (5, 5)
5 Sylwedd cemegol melys (7)
6 Clymblaid (6)
7 Yr hylif naturiol yn y geg (5)
14 Curo (7)
15 Gwneud smonach (6)
16 Gweler 4 i lawr
17 Cyflwr o fod mewn cytundeb (5)
18 Cylch y gellir weindio arno (5)
21 Israeliad (4)

**Atebion Croesair Rhifyn Mai**

**Ar draws:** 1. Sbageti 5. Braw 7. Aerwy 8. Gair da 9. Egni 10. Argoeli 12. Calon 14. Addo 18. Croenddu 19. Achub 21. Enaid 22. Odiaeth

**I lawr:** 1. Siaced 2. Aeron 3. Emyn 4. Iogwrt 5. Beison 6. Ardalydd 11. Cofnodi 13. Agosáu 15. Octef 16. Buchod 17. Rasio 20. Uchel

# Busnesa

*Ganol mis Ebrill cafwyd y newyddion gwych bod salonau gwallt a rhai gwasanaethau harddwch wyneb yn wyneb yn cael ail agor unwaith eto. Mawr iawn oedd y llawenhau a'r rhyddhad ymysg perchnogion y busnesau a'r cleientiaid eidgar!*

*Aeth yr Eco i holi dau salon leol am y profiad o gynnal busnes drwy'r flwyddyn a fu, a sut mai'n mynd ers ail agor.*

**Sglein Llanberis**
Gwasanaeth harddwch teithiol.
Sioned Cumberton
Facebook - @sionedatsglein
Instagram - @sionedatsglein
07453 303550

**Rho 'chydig o gefndir Sglein i ni**
Mi o'n i'n gweithio mewn salon yn barod, ond mae'r flwyddyn ddwytha wedi rhoi amser i mi feddwl am be yn union faswn i'n licio ei wneud. Ar ôl pwyso a mesur nes i feddwl, wel pam ddim gwneud be o'n i'n ei wneud ar fy liwt fy hun? Mis Hydref 2020, cyn y Cyfnod Clo Tân, mi wnes i gychwyn fy musnes fy hun – Sglein.

Hyd yma dwi wedi bod yn cynnig gwasanaeth ewinedd gels, lliwio neu wacsio eiliau, amrannau smalio, a channwyll clust (hopy ear candling).

**Pa gyfleoedd a heriau wyt ti wedi wynebu ers cychwyn y busnes?**
Y peth pwysicaf un i'w ddweud ydi diolch yn fawr i'r holl bobl leol sydd wedi fy nghefnogi ers i mi gychwyn Sglein. Mae'r holl gwsmeriaid lleol wedi bod yn briliant; maen nhw wedi aros efo fi drwy'r drafferth o gau ac ail agor, a dwi wedi cael sawl cleient newydd ac wedi bod yn andros o brysur ers ail agor ar y 12fed Ebrill.

Mi oedd hi'n andros o anodd i mi orfod siomi pobl pan gawsom ni ddim ond ychydig oriau o rybudd bod yn rhaid cau'r busnes ar y dydd Sadwrn cyn y 'Dolig. Roedd gen i lawer o gleientiaid yn edrych ymlaen at gael gwinedd newydd fel treat bach cyn y 'Dolig, ac roedd eu siomi yn beth creulon.

Yn amlwg, mi ydw i wedi bod yn dilyn y rheolau Covid-19 wrth wneud fy ngwaith, ac mae hynny'n holl bwysig. Mae'r canllawiau wedi caniatáu i mi fynd i gartref cleient gyn belled â'u bod nhw a finna yn dilyn y rheolau. Dwi'n ll'nau yr holl offer yn drylwyr cyn ac ar ôl pob ymweliad, ac mae'n rhaid i mi ganiatáu mwy o amser er mwyn gwneud hynny pan dwi'n trefnu apwyntiadau.

**A'r dyfodol?**
Mae gen i lawer iawn iawn o gynlluniau cyffrous ar gyfer dyfodol Sglein! Y newid mwyaf un fydd dod yn berchen ar salon brics a mortar yn Llanberis, yn hytrach na bod yn fusnes teithiol. Gwyliwch allan felly am salon yn agor yn Stryd Goodman dros yr haf!

Bydd cael salon yn golygu y galla'i gynnig mwy o wasanaethau fel facials yn ogystal â phopeth dwi'n ei gynnig yn barod.

Dwi hefyd yn awyddus iawn i weld os fedra'i gynnig gwaith i brentis lleol. Mi ges i gyfleoedd gwych i ddysgu fy ngwaith drwy gael fy nghyflogi mewn salon a dwi'n gwerthfawrogi hynny'n fawr. Faswn i wrth fy modd yn gallu cynnig cyfle tebyg i rywun ifanc, felly dwi'n ymchwilio i mewn i'r peth ar hyn o bryd. Rhwng popeth mae hi'n gyfnod hynod gyffrous i fod yn fusnes lleol.








**Elaine's**
Salon gwallt a harddwch yn Llanrug
Facebook - @elaineshairandbeautysalon
Instagram - @elaines_hair_and_beauty_salon
01286 672023


Cyn cael trin gwallt...

**Sgwrs gyda Gemma Louise Jones**

**Rho 'chydig o gefndir Elaine's i ni**
Mi rydan ni'n fusnes teuluol gafodd ei sefydlu yn wreiddiol yn nhŷ fy nhaid drws nesaf i'r salon yn Llanrug 76 mlynedd yn ôl, ond bellach rydan ni mewn salon ar Ffordd yr Orsaf. Mae'r busnes wedi ei enwi ar ôl fy mam, sy'n gweithio yma ers 43 o flynyddoedd, a finnau ydi'r drydedd genhedlaeth o'r teulu i fod yn rhedeg y busnes.

Ar ôl bod yn salon gwallt (dynion a merched) yn unig, mi ddechreuon ni'r ochr harddwch 15 mlynedd yn ôl, felly bellach mi rydan ni'n gallu cynnig popeth o dan yr un to.

**Mae hi wedi bod yn flwyddyn anodd i fusnesau wrth gwrs, felly pa heriau a fu?**
Mae yna dda a drwg ym mhopeth yn does? Yndi, mae hi wedi bod yn flwyddyn anodd iawn mewn sawl ffordd ond 'dan ni wedi chwilio am y daioni hefyd.

Pan oedd yn rhaid i'r salon gau fis Mawrth 2020 ro'n i'n feichiog ers 32 wythnos, a mwya' sydyn ro'n i'n wynebu sefyllfa ble doeddwn i ddim yn gwybod pryd fyddai Elaine's yn ail agor, sut oedden ni am dalu cyflogau a biliau, a ro'n i ar fin dod a babi bach i mewn i'r fath fyd! Stress!

Roedd hi'n anodd iawn i siomi pobl 'nôl yn y Cyfnod Clo cynta, ac eto pan oedd rhaid i ni gau heb fawr ddim rhybudd cyn y 'Dolig. Wnaeth y ffaith nad oedd ein llinell ffôn yn gweithio ar wahanol adegau o'r flwyddyn helpu dim chwaith. Mi gollon ni allan ar yr holl hwyl rydan ni'n ei gael yn y salon fel arfer cyn y 'Dolig, a doedd dim cyfle i'r tîm ddod at ei gilydd chwaith i gael 'chydig bach o barti!

Mae hi wedi bod yn anodd iawn i ddal i fyny efo'r canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan y Llywodraeth o ran be 'dan ni'n cael neu ddim yn cael ei wneud. Ers ail agor fis Ebrill, er enghraifft, mae'r rheolau yn Lloegr yn dweud y cawn nhw gynnig paned a chylchgronau i gleientiaid, ond does dim posib cael arweiniad clir ar hyn yng Nghymru. Mae'n rhaid i ni felly ymddiheuro wrth bob cleient, ac esbonio mai nad yn anghwrtais ydan ni wrth beidio cynnig paned! Wedi dweud hynny, mae'r rheolau yn holl bwysig ac mi ydan ni'n credu'n gryf bod rhaid eu dilyn er mwyn cadw'n cleientiaid a'n staff yn saff. Dwi'n falch iawn bod pawb yn dweud eu bod yn teimlo'n saff iawn pan fyddant yn dod yma.

Mae'n anodd i'n staff i wisgo mwgwd a visor drwy'r dydd, ond y peth anoddaf amdanynt ydi eu bod yn creu ffin rhwng pobl. Fedrwch chi ddim cael sgwrs cweit yr un peth, fedrwch chi ddim darllen wyneb rhywun i weld sut maen nhw'n teimlo. A dweud y gwir, dyna ydi'r peth anodda un am y flwyddyn sef ein bod ni wedi colli gweld ein gilydd go iawn, colli'r sgyrsiau, colli rhannu profiadau a cholli'r chwerthin.

Ers i ni ail agor ym mis Ebrill mi rydan ni wedi bod yn chwilio am aelodau newydd o staff – rhywun i drin gwallt a rhywun i gynnig triniaeth harddwch. Gan fod yna rai aelodau o staff wedi gadael yn ystod y flwyddyn ac ar gyfnodau


Wedi cael trin gwallt

mamolaeth mae angen i ni gael aelodau newydd i lenwi eu sgidiau yn fuan. Wrth gwrs, mae'r colegau wedi colli blwyddyn felly mae yna brinder o fyfyrwyr newydd sydd wedi eu hyfforddi. Cysylltwch os oes gennych chi ddiddordeb!

**Pa gyfleoedd neu bethau positif sydd wedi codi dros y flwyddyn ddwytha?**

Y peth cyntaf ydi ein bod ni dal yma! Fel dwi'n dweud, mi oedd yn rhaid chwilio am y pethau da, ac mi wnaethon ni ddefnyddio'r amser i'r tîm gael mwy o hyfforddiant ac i ganolbwyntio arnyn nhw eu hunain.

Mae Elaine's yn fwy na busnes, mi ydan ni'n un teulu mawr ac mae gynnon ni rai cleientiaid sydd wedi bod efo ni am hanner canrif a mwy. Mi ydan ni'n nabod nifer fawr o'n cleientiaid yn bersonol, ac felly yn ystod y flwyddyn 'da ni wedi bod yn ffonio er mwyn cadw cyswllt efo'r rhai 'dan ni'n gwybod sy'n byw ar eu pennau eu hunain ac efallai heb deulu'n agos.

Mae'r flwyddyn wir wedi dangos be sy'n bwysig mewn bywyd, a dydi pres ddim yn uchel iawn ar y rhestr. Amser gyda theulu ac edrych ar ôl y bobl 'dan ni'n eu caru sy'n bwysig.

Ar lefel bersonol mi ges i flwyddyn na wna'i fyth ei anghofio. Cafodd Lidia ei geni fis Mai'r llynedd, fy mhlentyn cyntaf, felly mi oedd fy nghyfnod mamolaeth i a'i blwyddyn gyntaf hi yn hollol wahanol i bopeth yr oeddwn wedi ei ddychmygu. Oedd, mi oedd hi'n anodd peidio gallu mynd am baned efo mamau eraill a gweld Lidia yn chwarae efo babis eraill. Wedi dweud hynny mi oeddwn i'n gweld fy rhieni, a fasa mam byth wedi gallu treulio gymaint o amser efo Lidia fel arfer oherwydd mi fasa hi wedi bod yn gweithio. Rydan ni wedi gallu treulio gymaint o amser efo'n gilydd fel teulu ac mi wna'i gofio hynny am byth, achos un cyfle gewch chi ynde.

**A'r dyfodol?**

Dwi isio i Elaine's fod yma am o leiaf 76 mlynedd arall! Mae'r byd gwallt a harddwch yn newid gymaint, ac yn newid mor gyflym, ac mae'n rhaid addasu er mwyn dal i fynd. Faswn i'n licio meddwl bod posib i ni ehangu a rhoi cyfle i fwy o bobl ddod yn rhan o deulu Elaine's ac agor salon arall rhywbryd, pwy â ŵyr?!

# Chwilio am gantorion Cymru sy'n breuddwydio am ganu gyda'u harwyr

Mae'r rhaglen sy'n codi'r galon, **Canu Gyda Fy Arwr**, yn ôl am ail gyfres ac yn rhoi cyfle arall i unigolion neu, am y tro cyntaf eleni, grwpiau, gymryd rhan mewn profiad hollol unigryw o ganu gyda'i arwr cerddorol.

Roedd y gyfres gyntaf, a ddarlledwyd ar S4C ym mis Ionawr 2021, yn cynnwys Elin Fflur, Shân Cothi a Dafydd Iwan yn canu gyda phobl o wahanol gefndiroedd gyda rhai yn enwebu eu hunain ac eraill yn cael eu henwebu gan ffrindiau neu deulu, fel sypreis llwyr!

Roedd rhai o'r unigolion lwcus a gymerodd ran y tro diwethaf yn cynnwys gweithiwr y Gwasanaeth Iechyd, gofalwr Parc y Scarlets, disgybl chwech oed sydd wrth ei bodd yn canu, cymeriad lleol yn dathlu ei phen-blwydd yn 95 oed, cyn-ganwr oedd wedi colli ei hyder a llawer iawn mwy.

Mae'r tenor adnabyddus Rhys Meirion, sy'n cyflwyno'r rhaglen, nawr yn chwilio am freuddwydwyr newydd sydd wrth eu boddau â cherddoriaeth i gymryd rhan mewn deuawdau disglair ar gyfer y gyfres nesaf.

Ac eleni, nid dim ond unigolion sy'n gallu cael y cyfle unigryw yma. Mae modd i deulu, grŵp o ffrindiau, aelodau o'r un côr neu gymdeithas gymryd rhan!

Mae Rhys wedi gweld y potensial sydd gan y gyfres hon i newid bywydau.

"Dwi wedi bod yn ffodus i gael y cyfle i ganu gyda rhai o'm harwyr ar hyd fy ngyrfa – nid yn unig ar lwyfan ond ar y sgrin hefyd yn y gyfres Deuawdau Rhys Meirion. Mae profiadau fel hyn wir yn newid eich bywyd er gwell.

"Mae Cymru'n cael ei hadnabod fel gwlad y gân ac rydyn ni am ddod â mwy o'i chantorion cudd i'r awyr agored, arddangos eu talentau a'u cael i ganu gyda'u harwyr a'u harwresau cerddorol.

"Rydyn ni eisiau clywed gan gymaint o bobl â phosib i ddweud wrthym am eu gobeithion a'u breuddwydion cerddorol. Ac unwaith eto, does dim terfyn ar bwy all wneud cais. Rydyn ni'n chwilio am bobl o 10 i 110, a gall y rhaglen ymdrin ag unrhyw genre cerddoriaeth – o'r pop i'r clasurol, roc i reggae, jazz, gwerin, unrhyw beth!"

"Cymerwch y cyfle a gwnewch gais - mae gennych bopeth i ennill a dim i'w golli. Rydych chi wedi gweld y profiadau anhygoel a bythgofiadwy gafodd pobl yn y gyfres gyntaf – felly ewch amdani!"

Un o'r rhain oedd Catrin, Ffisiotherapydd yn Ysbyty Glan Clwyd a aeth i weithio yn yr Uned Gofal Dwys yn ystod cyfnod Covid-19. Mae Catrin o hyd wedi mwynhau perfformio ac roedd y profiad o ganu gyda'i harwres gerddorol, Elin Fflur, yn hwb mawr iddi:

"Roedd canu gydag Elin yn fythgofiadwy – ac roedd o'n arbennig i gael canu'r gân Enfys gan ei fod o'n berthnasol iawn ac yn dod o'r galon. Ac roedd gwneud hyn tu allan i'r ysbyty o flaen fy nheulu a ffrindiau yn anhygoel.

"Dwi'n sicr wedi cael mwy o hyder i ganu ar ôl gwneud y rhaglen. A hyd yn oed tu ôl i'r camera, roedd Elin yn hynod o gefnogol. Mae cael rhywun o'r safon yna sy'n hapus i ganu efo fi ac wedi mwynhau canu efo fi yn help mawr i'n hyder i."

A beth fyddai cyngor Catrin petai rhywun rhwng dau feddwl i wneud cais i fod ar y rhaglen?

"Yn sicr, gwnewch o! Mae'r profiad ti'n cael allan o'r rhaglen yn rhywbeth fase ti byth yn cael yn unman arall."

Un lwcus arall gafodd ei ddewis i gymryd rhan oedd Brynle Griffiths, Adeiladwr o Abergele, a ganodd gyda'i arwres o, Shân Cothi:

"I mi, roedd o'n rhywbeth reit bersonol. Oni isio magu bach o hyder yn ôl i ganu unawdau ac mi oedd o jyst y peth i roi cic yn fy mhen ôl i ac i gael codi ar fy nhraed a'i wneud o eto.

"Fyswn i'n cynghori unrhyw un i wneud yr un peth, i ganu efo'i arwr neu arwres. Mae'n rhywbeth i drysori am weddill dy oes. Dwi wedi cael y fraint a'r pleser o ganu efo un o sopranos gorau'r byd! Ges i amser wrth fy modd."

Roedd canu gyda Shân gyda'i deulu yn ei annog ymlaen yn brofiad arbennig iawn i Brynle:

"Roedd hi mor agos at rhywun ac mor annwyl. A chanu efo hi... da ni gyd wedi gweld hi ar y teledu a'i chlywed hi ar y radio, ond roedd sefyll ryw ddwy lath ohoni a'i chlywed hi'n canu efo'r llais mwya' bendigedig 'na... bois bach, roedd hwnnw'n arbennig iawn."

Felly os ydych chi'n breuddwydio am ganu gydag arwr neu arwres arbennig, neu eisiau enwebu ffrind, aelod o'r teulu neu grŵp sy'n haeddu'r profiad bythgofiadwy yma, mae angen cysylltu â chwmni cynhyrchu teledu Cwmni Da yng Nghaernarfon, erbyn dydd Llun, 7fed Mehefin, 2021.

I wneud cais, llenwch y ffurflen gais ac anfonwch glip fideo byr i www.cwmnida.cymru/canu/. Ac am ragor o wybodaeth, cysylltwch â canu@cwmnida.tv neu 07483 904452


ADVANCED AVW VEHICLE WORKSHOP
Which? Trusted trader
BOSCH Service
Car Service
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol
www.AVWBosch.co.uk – 01286 673559
Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD




# Ymgyrch #500 Calon Hosbis Dewi Sant

Mae elusen leol yn chwilio am 500 o gefnogwyr i wneud gwahaniaeth i'w cymuned leol.

Eleni, ni fydd Hosbis Dewi Sant yn gallu cynnal nifer o'n digwyddiadau codi arian graddfa fawr. Hyd yn oed ar ôl cymorth y Llywodraeth, bydd yr elusen yn dal i fod yn fyr o'r hyn sydd ei angen i gadw eu drysau ar agor, a dyna pam y mae ar Hosbis Dewi Sant eich angen chi.

Mae'r hosbis leol i oedolion yn chwilio am 500 o gefnogwyr i fod yn rhan o'u Hymgyrch #500 Calon gyntaf erioed ac i godi o leiaf £100 yr un.

Mae Andrew Everley, Pennaeth Codi Arian, yn egluro:

"Mae Hosbis Dewi Sant yn lle arbennig iawn ac mae'n agos at galonnau llawer o bobl yn y gymuned leol. Yn anffodus, am yr ail flwyddyn yn olynol, ni fydd y rhan fwyaf o'n digwyddiadau codi arian cymunedol yn gallu mynd yn eu blaen, yn cynnwys y Ffair Haf flynyddol, yr Her Cychod Draig a'n Rasys Lliwiau. Bydd hyn yn golygu colled incwm enfawr i'r Hosbis.

"Gellwch ddewis sut y byddech yn hoffi codi arian, o gymryd rhan mewn her gorfforol i roi'r arian y byddech yn ei wario fel arfer ar eich coffi bore a chacen.

"Rydym yn gobeithio y bydd y gymuned yn defnyddio'u dychymyg a'u creadigrwydd i ddod o hyd i ffyrdd o godi o leiaf £100.




Os bydd 500 o bobl yn cymryd rhan yn yr ymgyrch 500 Calon, bydd yn codi o leiaf £50,000 ar gyfer gofal diwedd oes ar draws Gogledd-Orllewin Cymru."

I ddangos eich cefnogaeth i Hosbis Dewi Sant, cofrestrwch heddiw ar stdavidshospice.enthuse.com/cf/500hearts a derbyn pecyn codi arian AM DDIM. Fel gwobr, bydd pob codwr arian yn derbyn tegan gafr gwneuthuriad cyfyngedig, ar gyfer yr ymgyrch #500Calon yn unig a bathodyn enamel #500Calon unigryw.

I gael mwy o wybodaeth gellwch gysylltu â'r Swyddfa Codi Arian ar 01492 873674 (Conwy) neu 01248 858830 (Gwynedd ac Ynys Môn).

# Camino Cymru: Llwybr y Pererinion

Nôl ym mis Chwefror wrth droedio Cwm Brwynog cefais syniad a fyddai'n plethu fy niddordeb mewn anturiaethau a gofal diwedd oes, sef cerdded Llwybr y Pererinion o Lanberis i Aberdaron yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Cymru Garedig (Dying Matters in Wales) 10fed – 16eg Mai, er mwyn codi arian at Hosbis Dewi Sant. Diolch i'r drefn, 'roedd yr antur hefyd yn apelio at fy ffrind a chydymaith droeon, Gareth Roberts, a dyma fynd ati i droi'r cysyniad yn realiti.

Penderfynwyd rhannu'r siwrnai'n bedwar cymal, fel a ganlyn:

Dydd 1: 10fed Mai, Llanberis i Benygroes
Dydd 2: 11eg Mai, Penygroes i Drefor
Dydd 3: 13eg Mai, Trefor i Dudweiliog
Dydd 4: 14eg Mai, Tudweiliog i Aberdaron

… gyda charedigrwydd Martin Davies yn ein cludo adre'n saff bob noson.

Wrth ddychmygu'r bererindod nôl yng nghanol y gaeaf, 'ron i wedi rhagweld dyddiau hirfelyn tesog, shorts, fest ac eli haul?!... felly, munud ola' pnawn Sul piciais i siop Grib Goch yn y pentref i nôl esgidiau cerdded gwrth-ddŵr… a chap… a chôt wrth-ddŵr ysgafn. 'Dwi mor falch nes i hynny neu ni fuasai'n brofiad mor gyfforddus!!

Dyma gychwyn fore Llun heibio Capel Coch ac i fyny drosodd am Waunfawr gan ddilyn llwybr drwy'r hen bentref tuag at yr afon.






Wedi croesi'r bont, troi i fyny am Rosgadfan ond gwyro i'r chwith oddi ar y lôn a chanfod ein hunain mewn coedwig fwsog cyn esgyn eto tuag at gyrion Moel Tryfan. Gyda mignaint a dim ond Mynydd Mawr o'n blaenau, 'roedd 'na wir ymdeimlad o "Pererin wyf mewn anial dir" tan i ni gyrraedd Fron ac ymuno â Llwybr y Chwareli drwy Dorothea. Yna cyd-gerdded â'r Llyfni heibio Talysarn i ganol Penygroes. Mae cymaint o gladdu a chloddio wedi digwydd i'n tirwedd, a chymaint o hanesion a lywiodd bywydau ein hynafiaid, ac felly ninnau, o'r herwydd.

Gadael Penygroes fore Mawrth a dilyn llwybrau blodau gwylltion a phorthmyn heibio ffermydd a dolydd i Gapel Uchaf. Galw gyda theulu am banad yng Nghlynnog Fawr cyn ymweld ag eglwys a ffynnon Beuno Sant, a chromlech Bachwen. Yna dilyn llwybr hudolus, llawn garlleg gwyllt cyn ymuno â'r lôn i Drefor.... a gweld





lle 'roeddan ni'n mynd drennydd: sef Bwlch yr Eifl.

'Roedd Bwlch yr Eifl fore Iau yn dipyn o her ond 'roedd y golygfeydd o'r top yn werth pob ymdrech, a throsodd â ni wedyn am eglwys Pistyll, sydd bellach wedi'i llyncu gan unedau gwyliau. Mae'r defnydd o'r gair "datblygiad" yn y cyd-destun yma yn un sy'n fy nharo'n od a deud y lleia'?!? Yna ar hyd llwybrau gwartheg a defaid i Nefyn a Phorthdinllaen gan ddilyn yr arfordir a'i gildraethau smyglwyr i Dudweiliog.


## PENISARWAUN

Sylwch nad oes newyddion o Benisarwaun yn y rhifyn yma. Rydym yn parhau i chwilio am Ohebydd i dderbyn newyddion am ddigwyddiadau yn y pentref. Mae'n bentref bywiog gyda nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal ac mae pawb yn falch o gael gwybod pa weithgareddau sy'n digwydd.

Oes gennych chi ddiddordeb? Cofiwch fod posib i fwy nag un holi am y newyddion ar y cyd – fel bu Ann a Liz yn ei wneud yn y gorffennol. Os ydych chi'n awyddus i ddysgu mwy am y cyfrifoldebau, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Ond yn y cyfamser, gallwch yrru'ch newyddion yn uniongyrchol i ecorwyddfa@gmail.com









Gadawsom y glaw yn Nhudweiliog fore Gwener a cherdded traethau a llwybrau llawn malwod am Langwnnadl gyda'r heulwen yn ein hannog. Cawsom ginio hyfryd ar lan y môr ar draeth Penllech cyn mynd 'mlaen heibio Porthor a chartref y brain: dwi'm yn meddwl i mi ddod ar draws cymaint ohonynt: cannoedd!!... a'r sŵn, er yn fyddarol, eto'n swynol. Yna, dilyn yr afon i Aberdaron dirion deg, a dathlu pen ein taith efo hufen ia hyfryd Glasu.

Bu'n brofiad arbennig a gwerthfawr tu hwnt… gwir bererindod nôl ata' i fy hun ar ôl blwyddyn mor boncyrs! 'Roedd bywyd yn llythrennol mor ddistaw am bedwar diwrnod: dim ceir, dim sŵn heblaw cân yr adar, yr afon a thonnau, a'r ymdeimlad o hamddena… yn fy atgoffa o'm mhlentyndod. 'Roedd bod ynghanol natur yn ei gogoniant gwyllt a throedio hanes: hen adfeilion aelwydydd a gwaith hefyd yn fy atgoffa o'm gwreiddiau. Difyr oedd yr ymdeimlad a gefais i a Gareth wrth ddod ar draws y niferus fythynnod gwyliau ar ein taith: er yn hyfryd, 'roedd calon y cartref wedi diflannu, a'u gadael yn "oer".

Cyfanswm o 47.8 milltir a chyfanswm o £1,250 i'r Hosbis hyd yn hyn. Diolch yn fawr unwaith eto i Gareth am ei gwmni arbennig, ei wybodaeth a'i allu i ddarllen maps, i Martin am ei gymwynasgarwch yn ein cludo'n ddyddiol, ac i bawb am eu cefnogaeth a chyfraniadau hael.

Os 'dach chi'n dymuno cyfrannu at yr Hosbis dyma'r ddolen unwaith eto:

stdavidshospice.enthuse.com/pf/bet-huws-gareth-roberts-732fa-dbad7-c2d71-9235b-7fe53

Diolch

**Bet Huws**

# Bywyd heb blastig

Dyma ambell ffaith ddiddorol allan o ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar Leihau'r Defnydd o Blastig Untro a gafodd ei gyhoeddi'r llynedd:

**Gweini plastig:** Amcangyfrifir bod 159 miliwn o bacedi cyllyll a ffyrc plastig, 5.7 miliwn o ffyn troelli diod plastig, 26 miliwn o gwpanau tafladwy a 173 miliwn o wellt plastig yn cael eu gwerthu yng Nghymru bob blwyddyn.

**Parti plastig:** Amcangyfrifir bod 29 miliwn o blatiau parti plastig a 1 miliwn o ffyn balwnau plastig yn cael eu gwerthu bob blwyddyn yng Nghymru.

**Clustiau plastig:** Amcangyfrif bod 100 miliwn o ffyn cotwm (*ear buds*) yn cael eu gwerthu yma yng Nghymru, a bod tua 30 miliwn o'r rheiny wedi'u gwneud o blastig untro.

**Sut allwch chi leihau'r defnydd o blastig pob dydd?**

Defnyddio potel ddŵr eich hunan, a'i ail-lenwi



Mynd a chwpan goffi ailddefnyddadwy wrth nôl eich paned tec-awê

Mynd a'ch bag siopa eich hun i'r siop

Pacio'ch cinio mewn blwch ailddefnyddadwy fel tin bwyd, yn lle *cling film*

Os yn defnyddio plastig, cofiwch ei ailgylchu!

Eisiau dysgu mwy am effaith plastig ar y byd a *tips* i leihau'ch defnydd gartref? Mae gan flog Gwyrddach (gwyrddach.wordpress.com) sawl awgrym ar fyw yn fwy gwyrdd.

**Gwanwyn Glân**

Un ymgyrch sydd yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem sbwriel yw Gwanwyn Glân Cymru gan Cadw Cymru'n Daclus. Mae'r elusen, yn ogystal â Keep Britain Tidy a Keep Scotland Beautiful yn galw ar unigolion i gymryd rhan yn gofalu am yr ardal lle maent yn byw trwy drefnu eu digwyddiadau glanhau eu hunain rhwng 28ain Mai a 13eg Mehefin 2021.

Yn ôl yr elusen "Rydym yn galw ar bawb i fynd allan i'r awyr agored, codi sbwriel a'n helpu ni i gerdded miliwn o filltiroedd gyda'n gilydd wrth ddangos cariad tuag at ein hamgylchedd – a'n hunain."

Beth amdani?! Os ydych chi eisiau cymryd rhan, ewch i wefan www.keepwalestidy.cymru i gofrestru.







FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com
Dewis eang o luniau yn yr oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

# Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## 6ed Ebrill 2021

**Croeso a Gweddi**
Rhoddwyd gair o groeso i bawb gan y Cadeirydd a gair o weddi gan Richard Ll. Jones.

**Cofnodion Cyfarfod 3ydd o Dachwedd 2020**
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**Materion o'r cofnodion**
**Mynydd Gwefru** - Bu i'r Cynghorydd Elfed Wyn Williams gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod a gynhaliwyd gyda Siân Gwenllïan ynglŷn â dyfodol Mynydd Gwefru. Y bwriad yw gweld a chyfarfod First Hydro cyn symud ymlaen. Cafodd cynrychiolwyr pob Cyngor Cymuned y Dyffryn eu cyfle i leisio eu barn yn y cyfarfod. Bydd mwy o wybodaeth wrth i drafodaethau fynd rhagddynt ar ddyfodol y safle.

**Cyfarfod Llwybrau** - Yn dilyn gwahodd cynrychiolwyr o adran Llwybrau a Hawliau Tramwy o Gyngor Gwynedd i drafod y ffordd ymlaen i wella llwybrau plwyf Llanddeiniolen, derbyniwyd ymateb yn nodi fod sawl un naill ai ar wyliau neu i ffwrdd o'r gwaith. Penderfynwyd gyrru llythyr i bennaeth yr adran yn gofyn am gyfarfod pan yn gyfleus un ai ym mis Mehefin neu Orffennaf, er mwyn symud ymlaen gyda'r gwaith.

**Llythyr Diolch** - Darllenwyd llythyr o ddiolch gan Seindorf Arian Deiniolen yn dilyn derbyn rhodd ariannol ddiwedd y flwyddyn.

**Gohebiaethau a Materion Eraill**
**Llwybr Beicio o Fethel i Lanrug**
Derbyniwyd adborth o'r cyfarfod gan Richard Ll Jones. Cyfarfod a drefnwyd ym Methel. Bwriad yw dilyn i gael llwybr gan fod y lôn yn beryg, troellog a does dim modd culhau'r lôn o gwbl. Penderfynwyd y buasai cael llwybr ar wahân i'r ffordd. Bu trafodaeth hir am y darn o'r lôn sydd yn mynd drwy'r coed. Roedd y mwyafrif yn teimlo mai rŵan ydi'r amser i wneud cais. Prif atyniad i hyn wrth gwrs ydi gallai plant Bethel gerdded neu feicio i'r ysgol uwchradd, ond mae'n bosib y buasai hyn yn arwain at golli darpariaeth bws i'r ysgol. Soniwyd am y llwybr rheilffordd, ond mae rhan helaeth o hwn wedi ei lenwi bellach. Nodwyd hefyd na fuasai tirfeddianwyr yn fodlon gwerthu tir. Sefydlwyd pwyllgor a bydd y cyfarfod nesaf ar yr 22ain o Ebrill.

**Pileri Llechi** - Yn ddiweddar, mae sylw wedi ei roi i sawl un o'r waliau hanesyddol yma sydd yn diflannu o'r ardal, ardal chwareli llechi. Mae ymgyrch yn Gerlan yn dilyn tynnu'r ffens pileri llechi oddi ar lwybr cyhoeddus ac ail godi ffens pum troedfedd gyda weiren bigog. Yn sicr os ydi hyn wedi cael ei ganiatáu mewn un pentref, ond mater o amser cyn y byddwn innau yn yr ardal yma yn ymladd dros yr un peth. Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio ac yn arwain cais Safle Treftadaeth y Byd i ardaloedd y Llechi, ac eto mae contractwyr wedi cael caniatâd o rywle i wneud hyn. Penderfynwyd yn unfrydol i gefnogi y cais yma ym Methesda, ac i sefyll ochr yn ochr i beidio caniatáu newid nodweddion unigryw hanesyddol yr ardal.

**Ceisiadau Cynllunio**
**C21/0273/18/DT - 9 Tan y Buarth, Bethel**
Cais ar gyfer trosi ac ymestyn modurdy i ffurfio anecs i Nain.
**C21/0226/18/DT - Gwêl yr Wyddfa, Dinorwig**
Cais ar gyfer codi estyniad ystafell haul i gefn yr eiddo.
**C21/0275/18/DT - Llechwedd, Deiniolen**
Cais ar gyfer codi estyniad deulawr, estyniad un llawr ac addasiadau i'r eiddo.
**C21/0201/18/DT - Gwêl yr Wyddfa, Bethel**
Estyniad un llawr ar dalcen tŷ fforddiadwy.
**C21/0138/18/DT - 4 Dinorwig House Dinorwig**
Cais i gadw caban ar dir ar gyfer defnydd atodol i dŷ annedd
**C21/0239/18/DT - 38 Bro Eglwys, Bethel**
Estyniad un llawr ar y talcen.

**Ffurflen Flynyddol awdit 2020**
Cyflwynwyd y ffurflen flynyddol a'r adroddiad. Roedd adroddiad yr archwilwyr yn nodi fod yr wybodaeth a gyflwynwyd ar ran y Cyngor yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nad oes unrhyw faterion wedi dod i'w sylw oedd yn codi pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi eu bodloni. Er bod un argymhelliad, doedd hyn ond yn rhywbeth lle roedd dyddiad heb ei gofnodi. Felly, cymeradwywyd a diolchwyd i'r clerc am ei gwaith a derbyniwyd y Ffurflen Flynyddol yn unfrydol. Diolch i'r archwilwyr allanol unwaith eto am eu gwaith eleni. Bydd y Ffurflen a'r adroddiad yn cael eu harddangos ar ein gwefan yn unol â'r rheolau.

**Cyllid Diwedd Blwyddyn 2021**
Cyflwynodd y clerc restr gyflawn o daliadau a derbyniadau'r Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben - 31 Mawrth 2021. Derbyniwyd bod y gwariant, y taliadau a'r derbyniadau yn gywir. Derbyniwyd mantolen ariannol am y flwyddyn hefyd, oedd yn dangos fod y llyfrau yn gytbwys. Mae gan y Cyngor gyllid yn barod mewn lle ar gyfer y flwyddyn ariannol yma. Penderfynodd y Cyngor dderbyn y dogfennau a'r fantolen ariannol yn hollol gywir. Bydd y clerc dros yr wythnosau nesaf yn paratoi ar gyfer awdit mewnol.

**Seddi Gwag**
Trafodwyd bod pedair sedd wag o fewn y Cyngor Cymuned. Byddwn yn trafod hyn ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Os oes unrhyw un gyda diddordeb mewn ymuno yng ngwaith y Cyngor Cymuned, mae mwy o wybodaeth ar gael gan y clerc.

**O gwmpas y Bwrdd**
**Penisarwaun** - Llwybr cefn yr Eglwys - Giât Mochyn, nid oes arwydd yno yn dweud llwybr cyhoeddus. Credu mai rhif 92 ydi'r llwybr.
**Cwmni Till Hill** - Byth wedi clirio'r coed sydd wedi eu torri ar lwybr tuag at Gegin Arthur na chwaith yn y cae ger Ynys Iago.

Siop Cynnyrch Cartref
Cegin Sant Padarn



Home Produce Shop
SADWRN – SATURDAY
29/05/2021 11 y.b./a.m

| | | |
|---|---|---|
| Sgons | 50c 6 x £2.50 | Scones |
| Cacen Cwpan (bach) (1) | 50c | Small Cup Cake |
| Cacen Cwpan (mawr) (1) | £1 | Large Cup Cake (1) |
| Rhôl Selsig (1) | £1 | Sausage Roll (1) |
| Bara Brith (Torth) | £4.50/£6.00 | Bara Brith (Loaf) |
| Spynj Fictoria Plaen | £5 | Plain Victoria Sponge |
| Spynj Siocled | £6 | Chocolate Sponge |
| Marmalêd | £2.50 | Marmalade |
| Lemon Cyrd | £2.50 | Lemon Curd |
| Siytni Betys | £4 | Beetroot Chutney |
| Treiffyl (1) | £2.5 | Trifle (1) |
| Teisen Gaws Lemon (1) | £3 | Lemon Cheesecake (1) |
| Cacen Gri | 40c 6 x £2 | Welsh Cakes |
| Fflapjacs | 40c 6 x £2 | Flapjack |
| Te | £1 | Tea |
| Coffi | £1 | Coffee |

*Archebwch i osgoi Siom – Pre-order to avoid disappointment.*
Heather Jones 07867 982518 Dilys Roberts 01286 871423
Elw at Gronfa Cyffredinol yr Eglwys – Proceeds towards the General Church Fund

ECO'r Wyddfa

# Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug

## 16eg Chwefror 2021

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug 16eg Mawrth 2021

**Y gornel ger Cwt y Band, Llanrug**
Nodwyd fod traffig yn teithio o gyfeiriad Pwll Moelyn hyd at y Sgwâr yn gyrru ar gyflymder. Oherwydd bod ceir yn parcio gyferbyn â chyffordd Ffordd Glan Ffynnon roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i weld i gyfeiriad y Sgwâr a Phwll Moelyn.

Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd a fyddai'n bosib gosod drych gyferbyn a chyffordd Glan Ffynnon i'w gwneud yn haws i weld y ddwy ffordd.

**Y Fynwent**
Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, Cadeirydd Pwyllgor y fynwent fod yr eitemau yma wedi eu trafod:-

- Dim symudiad ar hyn o bryd gyda'r asesiad risg;
- Fod mainc a osodwyd er cof am Donald Owen wedi ei gosod
- Mae'r broses o ddigideiddio'r fynwent yn parhau;
- Fod y pwyllgor am ail-edrych ar drefniadau casglu sbwriel y fynwent.

**Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod i drafod trefniadau goleuadau Nadolig a bod strwythur yn ei le gyda socedi ar wyth lamp.

Adroddwyd hefyd fod ymgynghoriad wedi bod ar Facebook gydag aelodau o'r cyhoedd am leoliadau addas ar gyfer biniau sbwriel cyffredinol a baw cŵn. Mae 10 o safleoedd wedi eu hadnabod ac mae'r rhestr wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd i holi yn y lle cyntaf os ydi hi'n bosib rhoi biniau yn y lleoliadau a adnabuwyd.

Rhoddwyd cyfrifoldeb ychwanegol ar y Cyngor yn sgil Deddfwriaeth ddaeth i rym ar 1af o Mawrth yng Nghymru sydd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i unrhyw un ysmygu ar gaeau chwarae. Mae'r Ddeddfwriaeth yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor i roi arwyddion.

Penderfynwyd:

- Symud ymlaen â threfniadau ar gyfer addurniadau Nadolig;
- Cysylltu â Chyngor Gwynedd gyda rhestr o leoliadau biniau;
- Gosod yr arwyddion Cofid-19 yn y gampfa ac arwyddion "dim ysmygu" ger pob mynediad i'r meysydd chwarae.

**Cynllun dosbarthu bwyd**
Adroddwyd fod y cynllun dosbarthu bwyd yn mynd yn ei flaen yn dda iawn. Mae pwyllgor wedi ei sefydlu sydd yn cynnwys aelodau o'r Cyngor sydd yn gwirfoddoli gyda'r bwyd.

Adroddwyd fod 41 eiddo yn derbyn pecyn bwyd gyda 51 oedolyn a 10 plentyn yn elwa o hyn. Nodwyd fod offer iechyd a diogelwch wedi'i dderbyn ar gyfer y gwirfoddolwyr, sef cardiau adnabod a siacedi melyn (mae pob aelod i gael un o rhain) ynghyd â torts a fod grant wedi'i dderbyn i brynu oergell fydd yn ei gwneud yn bosib darparu mwy o fwyd lle bydd angen ei gadw'n oer.

Fe obeithir arwyddo les dros dro gyda Chyngor Gwynedd am ran o'r ysgol yng Nghwm-y-glo.

Penderfynwyd i sefydlu'r pwyllgor yn ffurfiol a byddai'n adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn.

**Adroddiad gan y Cyng. Berwyn Parry Jones (Cyngor Gwynedd)**

**Cyllideb Cyngor Gwynedd**
Mae'r Cyngor wedi penderfynu codi'r dreth 3.7%

Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.

Cytunwyd ar ôl dadl hir i godi'r dreth ychwanegol ar ail gartrefi a thai gwag i 100%. Bydd hyn yn golygu tua £3m ychwanegol i ariannu'r strategaeth Tai, £15m dros y 5 mlynedd o'r strategaeth.

**Panel Polisi Cynllunio**
Mae gwaith ymchwil manwl wedi ei wneud o'r sefyllfa bresennol ynglŷn â thai sydd yn cael eu defnyddio fel cartrefi gwyliau. Yng Ngwynedd mae'r canran o dai haf yn 11% ac yn Ynys Môn 10%, mae cyfartaledd Cymru yn 2.5%. Yn dilyn gwaith ymchwil yr uned polisi mae'r Cyngor wedi cynnig chwech o Argymhellion. Y ddau mwyaf ymarferol i'w defnyddio ar y funud yw ehangu yr ardaloedd lle does dim ond Tai Marchnad Lleol yn cael eu caniatáu ac yn rhoi amod ar dai newydd yn dweud bod rhaid iddynt fod yn dai preswyl ac na fyddai modd cael eu defnyddio fel tai gwyliau.

**Cynllun Datblygu Lleol**
Ar ôl pedair blynedd mae'n ofynnol i adolygu'r Cynllun a bydd yr adolygu yn cychwyn ym mis Gorffennaf eleni. Bydd yr adolygiad yn cynnwys edrych ar safleoedd lle mae dynodiadau tai yn y cynllun presennol i weld os ydynt yn dal i adlewyrchu anghenion eu hardaloedd. Bydd Cynghorau Cymuned ymysg eraill yn cael mewnbwn i'r adolygiad.

**Cyd Bwyllgorau Corfforaethol i'r rhanbarthau**
Mae ymgynghoriad wedi bod, ac mae'n debyg fod y Llywodraeth eisiau symud ymlaen efo creu'r cyd bwyllgorau uchod, pryd bydd chwe sir gogledd Cymru yn un rhanbarth.

**Strategaeth Cynllunio y gogledd**
Mae dogfen newydd wedi ei gyhoeddi, fydd yn gorfodi rhanbarthau i gynllunio yn strategol ar draws y rhanbarthau, e.e. ffyrdd, lleoliadau gwaith, ac hefyd lleoliadau i dai.

**Yn Lleol**
**Gor-yrru allt Ceunant**.
Mae swyddogion y Cyngor wedi cytuno i symud yr arwydd 30mya rhyw 50m i fyny'r ffordd. Er mwyn ei symud yn bellach i fyny'r allt bydd rhaid gwneud asesiad traffig. Maent wedi cytuno i wneud hyn hefyd, tra yn y cyfamser gosod arwydd modern hefo cefndir melyn.

**Cais am gymorth ariannol**
Penderfynwyd cyfrannu £800 tuag at Seindorf Arian Llanrug.

**Ceisiadau Cynllunio:**
Penderfynwyd cefnogi'r ceisiadau canlynol:
(a) Codi sied amaethyddol ar gyfer porthiant a lloches da byw yn ystod y gaeaf yn Tal y Sarn, Llanrug
(b) Gosod sied o fewn gardd yn 3, Plas Pant Afon, Ceunant




SAMARIAID
Llinell ffôn Gymraeg
116123
neu
0808 164 0123
Ar gael bob nos rhwng
7 pm ac 11 pm

# Murlun T. Rowland Hughes

Mae murlun hardd sy'n coffau'r nofelydd T. Rowland Hughes wedi ei osod ar wal y neuadd fach yn Y Ganolfan yn Llanberis.


Ganed y nofelydd a'r bardd cadeiriol Thomas Rowland Hughes yn Llanberis ar 17eg Ebrill 1903 a bu farw yn 46 mlwydd oed yng Nghaerdydd ar 24ain Hydref 1949.

Bu'n ddisgybl yn Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Brynrefail cyn graddio yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor ym 1926. Wedi hynny bu'n athro yn Aberdâr, yn ddarlithydd yng Ngholeg Harlech ac yn gweithio yn Llundain cyn ymuno â'r BBC yng Nghaerdydd fel Cynhyrchydd Rhaglenni Nodwedd. Enillodd y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth ym 1937 ac yn 'Eisteddfod y Radio' ym 1940. Cyhoeddodd gyfrol o farddoniaeth a phedair drama ond y mae'n fwyaf cyfarwydd wrth gwrs fel nofelydd. Cyhoeddodd bum nofel: *O Law i Law, William Jones, Yr Ogof, Chwalfa, Y Cychwyn,* a thair ohonynt yn darlunio bywyd ardal chwarelyddol ei febyd.

Yn Llanberis, mae yna blac ar fur y tŷ y ganwyd ef ynddo, 20 Stryd Goodman a phlac arall ar fur ei gartref yn Angorfa, Stryd y Ffynnon. Ym 1981 agorwyd amgueddfa yn Angorfa i ddathlu ei gyfraniad i fyd llên a diwylliant Cymru, ac er na lwyddwyd i gadw'r amgueddfa'n agored bu Angorfa'n ganolfan gymdeithasol a ddefnyddid gan wahanol fudiadau hyd at ryw ddeng mlynedd yn ôl.

Syniad Ken Jones, Ysgrifennydd gweithgar Y Ganolfan, oedd comisiynu'r murlun er mwyn rhoi mwy o amlygrwydd yn ei bentref genedigol i'r nofelydd a'i waith. Yn ogystal â llun a bywgraffiad byr gwelir ar y murlun hefyd eiriau ei emyn cyfarwydd 'Tydi a roddaist' ynghyd ag englyn R. Williams Parry i'r "dewra' o'i hawduron". Gosodwyd y cyfan dros ddarlun hardd Jane Carpanini o Stryd Fawr Llanberis gyda chapel Seion y Bedyddwyr, hen gapel y nofelydd, yn amlwg ynddo. Bydd y cyfarwydd yn gwybod mai'r tu ôl i'r capel hwnnw y mae Angorfa.

Diolch yn fawr i Ken am drefnu'r cyfan. Mae'r murlun yn ei le erbyn hyn, a phan fydd drysau'r Ganolfan yn agor unwaith eto wedi'r Cyfnod Clo bydd modd i'w defnyddwyr, yn blant bach a phobl o bob oed, ddysgu neu gael eu hatgoffa o'r newydd am ŵr a aned ac a fagwyd yn Llanberis a ddaeth yn un o brif nofelwyr ein cenedl.




w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k

**ECO'r** Wyddfa



**Royal Victoria Hotel** LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar ● Cinio Dydd Sul
● PRIODASAU ●

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

DODREFN A LLORIAU
**PERKINS**
●●● 01286 673535 ●●●
*www.perkinsfurniture.co.uk*
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

**Eglwys Sant Padarn**
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 11:00AM.

Yn anffodus, nid yw'r Eglwys ar agor yn ystod yr wythnos ar hyn o bryd.

Mae croeso i bawb ymuno â'r gwasanaethau Zoom a gynhelir bob nos Sul am 6:00PM a bore Mercher am 10:00AM. Cysylltwch â'r Parchg Allan Wilcox ar afcwilcox@gmail.com er mwyn derbyn y cyfrinair.

Enillwyr Clwb 100 mis Ebrill yw:
1 Mrs Nan Owen
2 Mrs Brenda Griffiths
3 Miss Gwyneth Jones
4 Mr John Gareth Jones
5 Mr Fred Owen

Os hoffai unrhyw un ymuno â'r Clwb 100, cysylltwch â Linda Williams ar 07775 501416 neu Ellen Hughes ar 671768

**Diolch**
Dymuna Glenys Owen, 9 Stryd Yr Wyddfa, ddiolch o galon am yr holl alwadau ffôn, blodau a dymuniadau gorau a dderbyniodd yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

**Capel Coch**
Nid yw'r oedfaon yn y Capel wedi ail ddechrau hyd yma, ond mae oedfaon ffôn a Zoom Gofalaeth Fro'r Llechen Las yn parhau: oedfa ffôn am 10:00AM ac oedfa Zoom am 5:00PM bob Sul. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni os nad oes gennych oedfa arall i fynd iddi. Mae plant yr Ysgol Sul yn ymuno â'r Ysgol Sul a drefnir gan Gynllun Efe ar gyfer plant yr ardal dan arweiniad Susan Williams. Mae'r oedfaon a welir ar sianel Youtube Capel Tanycoed, Llanrug ar gael hefyd a'r Gweinidog yn eu harwain bob pythefnos.

I gysylltu â'r Oedfa Ffôn, ffoniwch 0333 0164 757. Yna pan ofynnir am y 'Conference Room Number', deialwch 54265432 a phwyso'r botwm # ar ei ôl. Yna pan ofynnir am y 'PIN' deialwch 1210 a phwyso'r botwm # ar ei ôl.

I ymuno â'r Oedfa Zoom, anfonwch e-bost at y Gweinidog, John Pritchard i gael y cod neu'r ddolen ar john.cilfynydd@btinternet.com.

**Cymorth Cristnogol**
Cynhaliwyd Wythnos Cymorth Cristnogol rhwng 10fed a 16eg Mai, a llwyddwyd i ddosbarthu'r amlenni casglu wedi i ni fethu â gwneud hynny'r llynedd oherwydd Covid-19. Diolch i bawb a fu'n helpu i ddosbarthu'r amlenni a'u derbyn yn ôl. Gwnaed y gwaith yn wahanol eleni gan bostio'r amlenni trwy'r drysau a gwahodd pobl i'w dychwelyd yn hytrach na churo ar y drysau a chasglu wyneb yn wyneb. Diolch i bawb a gyfrannodd at y Casgliad. Cyhoeddir swm y Casgliad yn y rhifyn nesaf.

**Morwr o Lanberis**
Ychydig wythnosau'n ôl fe dderbyniais hanes llongwr o Lanberis oedd wedi dilyn gyrfa fel Radio Operator yn y Llynges Fasnachol (Merchant Navy) am flynyddoedd. Ei enw oedd Gwilym Williams, ac wedi iddo ymddeol, fe fu'n byw yn ei gartref teuluol, Bodwenallt, Ffordd Tŷ Du / Olgra Teras, Llanberis.


Ei nai, Keith Roberts, ddaeth â'r hanes i'm sylw. Roedd Keith yn cofio'r cyffro mawr, pan oedd yn blentyn yn ystod y 50au cynnar, pan ddeuai ei ewythr Gwilym adref o'r môr mewn tacsi, Rolls Royce Nedw. Byddai hwyl fawr wrth ddadbacio'r bagiau a darganfod yr anrhegion a'r danteithion prin, megis chewing gum, nad oedd ar gael yn siopau Llanberis ar y pryd.

Byddai Keith a'i frawd Llew wrth eu bodd yn gwrando ar helyntion eu hoff ewythr wrth iddo forio o amgylch y byd. Ymysg yr ymweliadau y mae Keith yn eu cofio oedd nifer o wledydd yn Ne'r America, megis Colombia, Periw, Bolifia, Chile, Yr Ariannin, Brasil a'u hewythr yn eu cynghori i ymweld â'r Carnifal arbennig yno ryw ddydd. Fe soniodd hefyd am ei daith trwy Gamlas Panama.

Yn ystod ei yrfa ar y môr, bu mewn dau longddrylliad, un ohonynt yn ei orfodi i fod mewn rafft am dri diwrnod cyn iddo gael ei achub! Digwyddiad arall a arhosodd yng nghof Keith oedd taith 300 milltir Gwilym, ar gefn camel, i ymweld â gwlad Canan ym 1937.


Bu farw Gwilym, yn 66 mlwydd oed, ar 5ed Awst, 1964.

Wrth i Keith adrodd ei hanes daeth nifer o atgofion cyffelyb i rai Keith yn ôl i mi. Wedi'r Ail Ryfel Byd roedd yn ofynnol i unrhyw fachgen dros 18 mlwydd oed, neu wedi iddynt orffen eu prentisiaeth neu goleg ymuno ag un o'r lluoedd arfog, Y Fyddin neu'r Awyrlu neu'r Llynges Frenhinol am ddwy flynedd. Roedd yna bedwerydd opsiwn, os oedd rhywun yn gymwys, sef ymuno â'r Llynges Fasnachol, ond bod rhaid ymuno â honno am wyth mlynedd!



Gwilym Williams ar un o'i longau

Mi wn am nifer o fechgyn o'r ardal yma, yn enwedig rhai oedd wedi gorffen eu prentisiaeth fel ffitar yn Chwarel Dinorwig, a ddewisodd y pedwerydd opsiwn ac ymuno â'r Llynges Fasnachol. Ymysg y bechgyn hyn roedd fy mrawd, George Henry, ac mae atgofion melys gennyf, fel rhai Keith, o aros i fyny'n hwyr y nos i ddisgwyl i dacsi fy mrawd ddod o Stesion Caernarfon neu Bangor. Mi gofiaf i George, ychydig cyn y Nadolig un flwyddyn, ddod â thwrci adref i mam. Pan ddarganfu fy mam fod y twrci, 20 pwys, lawer rhy fawr i fynd i mewn i'n popty ni, bu rhaid mynd ag ef i Fecws John Lloyd, i lawr y ffordd yn Stryd Newton, i'w goginio. Hefyd, mae cof gennyf o nwyddau anghyffredin eraill ddaeth acw o'r môr, megis carped o'r India, bwrdd gydag ifori ynddo o Kenya, pysgod pigog a chregyn o bob math, a llwyth o duniau ffrwythau, oedd yn anodd iawn i'w prynu yn y 50au cynnar! Atgofion melys iawn.



# Côr Meibion Dyffryn Peris




Sefydlwyd Côr Meibion Dyffryn Peris ym mis Mawrth 1989, gyda 22 aelod. Y diweddar John Huw Hughes, cyn-brifathro Ysgol Dolbadarn, Llanberis, wynebodd y dasg o'u harwain, gyda Hefina Jones yn cyfeilio. Pwrpas sefydlu'r côr oedd canu o ran pleser ym mhentref Llanberis a'r cylch. Fodd bynnag, gyda rhaglen amrywiol wedi'i llunio a'i dysgu, daeth galwadau am wasanaeth y côr o ardaloedd ehangach.

Cafwyd sawl arweinydd dros y blynyddoedd. Brian Williams (o ardal Pontllyfni) gymrodd yr awenau ar ôl John. Pan ymadawodd Brian ar ôl cyfnod, gofynnwyd i aelod arall o'r côr a fyddai'n fodlon arwain – Arwel Jones (Arwel Hogia'r Wyddfa) oedd hwnnw! Cytunodd i lenwi'r bwlch am gyfnod o chwe wythnos. Ond yn ôl Arwel, "Trodd y chwe wythnos yn chwe blynedd!" gan ychwanegu'n gellweirus, "nid am eu bod yn fy hoffi fel arweinydd am gymaint o amser, ond am eu bod yn methu â chael neb arall!" Choelia i fawr.

Dilynwyd Arwel gan ddwy arweinyddes, dwy gerddores o'r radd flaenaf, gan gychwyn gyda Mair Hughes o Lanrug ac yna Lowri Prys Roberts o Frynrefail. Yr arweinydd diweddaraf, sydd yn y barchus arswydus swydd ers dros 10 mlynedd bellach yw Dafydd Roberts o Lithfaen. Mae ganddo lais a hanner hefyd ac mae'n canu unawdau yng nghyngherddau'r côr. Bu ei ferch Elen Lloyd Roberts, soprano addawol sy'n astudio yn Llundain, hefyd yn ymuno efo'r côr mewn rhai cyngherddau. Y sialens fwyaf sydd gan yr arweinydd ydi gadael digon o ffrwyn i'r aelodau gael hwyl, a chael gafael ar y ffrwyn i fedru ymarfer yn gall – ac fel ffermwr, mae Dafydd yn llwyddo i wneud hynny.




Yn ogystal ag arweinydd mae'n rhaid cael cyfeilydd. Bu Hefina Jones yn y swydd am chwarter canrif, ac fe'i dilynwyd am gyfnod byr gan gerddor arall o Lanberis – Iwan Wyn Williams, athro cerdd a aeth ymlaen i arwain Hogia'r Ddwylan. Ymunodd cyfeilydd eithriadol o dalentog â'r côr wrth astudio cerdd yn y Brifysgol ym Mangor – Steven Evans oedd y myfyriwr, a phan ddaeth ei gyfnod yntau i ben fe berswadiodd fyfyrwraig o'r un adran gerdd i ymgymryd â'r swydd – Ellie Lighton. Bethan Holding o Lanberis yw'r cyfeilydd presennol, ac mae'n help mawr i Dafydd.

Dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain datblygodd y côr o fod yn griw bychan yn canu o ran pleser, i fod yn gôr cymwys i roi pleser i gynulleidfa ehangach. Yn dilyn eu hymddangosiad cyntaf ar y rhaglen boblogaidd *Noson Lawen*, dyblodd y galwadau am eu gwasanaeth o gymunedau ar hyd a lled gogledd Cymru. Bu raid cyfyngu'r cyngherddau i dri bob mis. Bu'r côr yn diddanu ymwelwyr, yn bennaf yng Ngwesty'r Victoria yn Llanberis, Eglwys Betws-y-coed, a'r ddwy eglwys fawr yn Llandudno. Estynnodd Dafydd Bullock, y cerddor a'r cyfansoddwr adnabyddus o Lwcsembwrg (oedd â'i wreiddiau'n ddwfn yn Nyffryn Peris) wahoddiad i'r côr gynnal cyngherddau yn Ffrainc, Gwlad Belg, Lwcsembwrg a'r Almaen ar ddau achlysur.

Trodd y gwahoddiad i ganu yn Llydaw yn hunllef. Ar ôl glanio ym mhorthladd Roscoff, syrthiodd John Williams, Rallt Goch, aelod o'r côr, rhwng y llong a wal yr harbwr ac yn anffodus bu farw o'i anafiadau. Bu galaru, ond dangoswyd dewrder anghyffredin ymhlith aelodau'r côr, a phob un yn ceisio cynnal ei gilydd yn ogystal â chynnal Catherine, gwraig John. Bu Catherine yn ddewr eithriadol hefyd. A hithau yng nghanol ei thrallod, bu'n golofn gadarn i bawb oedd ar y daith.

Teithiodd y côr i Malaga yn ne Sbaen ar wahoddiad Mair Martinez (yn wreiddiol o ardal Penrhyndeudraeth) a'i gŵr Carlos. Cafwyd taith hynod ddiddorol i Vlieland, sef un o ynysoedd y Fresian, oddi ar arfordir gorllewinol yr Iseldiroedd. Hynodrwydd yr ynys? Does dim trafnidiaeth arni – dim ceir na bysiau – dim byd ond cychod a beiciau! Dychwelodd yr aelodau adref efo cur pen ond hefyd â phoen yn eu penolau! Y daith olaf, cyn y pandemig, oedd i'r Iwerddon: cynhaliwyd tri chyngerdd gerbron cynulleidfaoedd niferus a gwerthfawrogol. Dyma werth teithiau o'r fath – bod yn aelod o gymdeithas glos, datblygu cyfeillgarwch, cyfeillgarwch fydd yn parhau am byth.

Mae gan Arwel sawl atgof melys o fod yn y côr. Pwy allai anghofio sefyll i ganu gerbron torf o dros 60,000 yn Stadiwm y Principality gydag aelodau o gorau eraill i

ddiddanu'r dorf cyn gêm Cymru a De Affrica? Neu'r wefr o ganu yn y pafiliwn llawn yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych i ddathlu hanner can mlynedd Hogia'r Wyddfa fel diddanwyr? Ychydig cyn y Clo, derbyniodd y côr wahoddiad gan dîm y *Noson Lawen* i ganu yn 'Noson Lawen Dyffryn Peris'.

Yn ôl Arwel, bu'n bleser ac anrhydedd i fod yn aelod o'r ffasiwn gymdeithas. Cafwyd adfywiad erbyn hyn, ac y mae i'r côr bellach dros 40 o aelodau. Ymaelododd rhagor o aelodau newydd – 'yr hogiau ifanc' fel mae rhai o'r 'hen sdejars' yn eu galw, er bod y rhan fwyaf ohonynt yn eu 40au. Gwnaeth wahaniaeth dybryd i ansawdd sain y côr ond hefyd i awyrgylch ymarferiadau'r gymdeithas. Yn bedair ar bymtheg oed, Cai Williams o Lanrug, ydy'r ieuengaf. Emrys Hughes, a fydd yn 95 mlwydd oed ym mis Mehefin yw'r hynaf! Wrth gwrs, cyd-ddigwyddiad llwyr oedd y twf mewn aelodaeth a'r ffaith bod y côr yn mynd i lawr i Gaerdydd i ganu cyn gêm Cymru a De Affrica yn y Principality! Doedd mwyafrif yr aelodau newydd 'rioed wedi canu mewn côr o'r blaen. Roedd sawl un yn nerfus yn yr ymarferion cyntaf – ond o gael eistedd drws nesa i rywun mwy profiadol, a phrofi cefnogaeth a hwyl, diflannodd yr ansicrwydd yn sydyn. Meddai Arwel, "Mae tynnu coes yr un mor bwysig â dysgu caneuon newydd, ac mae'n bleser mynd i'r ymarferiadau a dod allan ar ôl dwyawr efo gwên ar ein hwynebau. Hir y pery."

Yn ogystal â'r aelodau a fu yn y côr ers talwm, mae rhai newydd bellach yn rhan o'r broses o barhau'r traddodiad a ddechreuwyd yn 1998. Bryn Jones yw'r Ysgrifennydd ers dechrau



2020 ond yn ei eiriau o, "Dwi'n siŵr mai fi ydi'r ysgrifennydd sydd wedi gwneud lleia' o waith yn hanes y côr. Derbyniais y swydd ar ddechrau 2020, yn y Cyfarfod Cyffredinol, ond o fewn dim daeth y pandemig. Mae nifer o aelodau'r Pwyllgor yn dal i ffeindio'u traed, gan fod rhai o'r cyn-aelodau a fu'n gwneud y gwaith ers amser hir wedi pasio'r awenau ar ddechrau 2020."

Fel Ysgrifennydd, un o'r pethau mwyaf cynhyrchiol a wnaeth Bryn oedd cais am grant gan Gyngor Cymuned Llanberis gan fod incwm arferol y côr – sef y cyngherddau – wedi dod i stop. Roeddent yn hael iawn hefyd, a diolch yn fawr iddynt am eu cefnogaeth. Fel Ysgrifennydd hefyd, mae Bryn yn brysur yn ysgrifennu llythyrau ac e-byst ac yn cyfathrebu ynglŷn â chyngherddau, a chymryd nodiadau mewn cyfarfodydd ac ati. Mae hefyd yn ceisio helpu'r Cadeirydd, ond yn anffodus, o ran cyfathrebu effeithiol, Bryn ydi enw hwnnw hefyd – Bryn Roberts (neu Bryn Traed), sy'n gallu cymhlethu'r cyfathrebu. Dafydd Price oedd yr Ysgrifennydd blaenorol, a bu'n help garw i Bryn chwarae teg iddo, ond mae Bryn wedi gwrthod derbyn ei lyfr jôcs.

Mae nifer o gerddorion da iawn yn y côr hefyd – mae tri aelod o Fand Deiniolen (Dafydd Twins, Dylan a Gareth – oedd yn arfer canu'r Corn Gwlad yn yr Orsedd wrth gwrs). Mae un o'r aelodau newydd – Ross – wedi gweithio yn y byd opera mewn nifer o wahanol wledydd, ac wrth gwrs mae un aelod a fu yn y '*boy band*' Cymraeg cyntaf – Arwel Hogia'r Wyddfa, heb sôn am sawl un sydd efo blynyddoedd o brofiad mewn corau.

Pam ymuno? Hwyl a chwmnïaeth ydi un o'r prif resymau. Mae 'na griw da yn y côr, a thipyn o dynnu coes a chwerthin, ac i'r rhai sydd awydd hynny cyfle am beint a sgwrs ar ôl canu. Mae 'na hwyl i'w gael ar dripiau hefyd. Rheswm amlwg arall wrth gwrs ydi'r canu a'r gerddoriaeth – pwy sydd ddim yn hoffi canu, boed hynny mewn côr neu yn y car? Daw rhywun i adnabod caneuon sy'n perthyn i'n traddodiad fel Cymry – yr emynau a chaneuon traddodiadol. Ers i'r capeli wanhau, mae llai o bobl yn gallu canu mewn pedwar llais a llai o adnabyddiaeth o'r emynau, ac mae rhywbeth braf am allu parhau â'r traddodiad – gyda rhai ohonyn nhw, i ddefnyddio'r term cerddorol cyfoes, yn 'beltars' hefyd! Yn ôl Bryn, "Tydi rhywun heb fyw bywyd llawn os nad ydynt wedi cael y profiad o ganu 'Amen' mewn pedwar llais ar ddiwedd emyn fel 'Gwahoddiad'. Mae'r côr hefyd yn canu caneuon poblogaidd fel *American Trilogy*, sy'n cael croeso mawr mewn cyngherddau ac ymhlith aelodau'r côr. Mae angen cymysgedd da i apelio at ystod eang oedran yr aelodau.

Cafodd Covid-19 effaith fawr ar y côr. Mae hynny'n wir am bopeth wrth gwrs, ond oherwydd oedran nifer o'r aelodau a'r ffaith mai canu dan do a wna'r côr mae wedi bod yn amhosib gwneud hynny dan yr amgylchiadau presennol. Tydi ymarfer yn yr awyr agored, dau neu dri metr ar wahân i'w gilydd – fel mae Band Deiniolen wedi ei wneud er enghraifft – ddim yn opsiwn chwaith, gan nad ydi'r llais yn gwneud cymaint o sŵn â chorn ac y byddai felly'n amhosib clywed gweddill y côr. Bu'r aelodau'n cadw mewn cysylltiad trwy grŵp WhatsApp, a chafwyd ambell i sgwrs dros Zoom yn ystod y Cyfnod Clo cyntaf – ond mae pawb wedi cael llond bol ar sgrin erbyn hyn. Trafodwyd ymarfer dros Zoom, ond does dim posib cyd-ganu mewn unrhyw ffordd ystyrlon – dim ond creu perfformiad fel y gwnaeth rhai corau eraill trwy ofyn i bob unigolyn recordio ei lais a'i e-bostio i rywun a fyddai'n cymysgu'r holl leisiau efo'i gilydd. Nid pawb sydd â'r gallu technegol i wneud hynny. Neu fel dywedodd Dafydd Twins o Ddeiniolen, "Dwi'n dal i gael trafferth efo'r *switch* golau!"

Dal i gadw golwg ar sefyllfa'r pandemig a'r canllawiau y mae'r côr, gan groesi bysedd y bydd pethau'n gwella'n fuan. Mae hiraeth am nosweithiau ymarfer – ac mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu pa mor ganolog ydi cwmnïaeth a cherddoriaeth i gymaint o bobl. Mae'n fyd dipyn mwy llwm heb y ddau beth yna. Ond unwaith y bydd yr aflwydd wedi chwythu ei blwc ac y bydd cymdeithasau yn dod yn ôl at ei gilydd, estynnir gwahoddiad i fechgyn ifanc y fro i'r ymarferiadau. Wnewch chi ddim difaru. Ewch amdani – bydd pawb yn yr un cwch ar ôl cymaint o amser ar wahân.

*Diolch yn fawr i Arwel Jones a Bryn Jones am eu cymorth wrth ysgrifennu hanes Côr Meibion Dyffryn Peris.*

**Nesta Elliott**



# BETHEL A SEION

Diolchaf i'r dosbarthwyr yma ym Methel sydd wedi'ch galluogi i dderbyn yr *Eco* ar eich stepan drws. Hyd yn hyn, dim ond canmoliaeth wyf wedi ei glywed i'r *Eco* yn ei wisg liwgar, drwsiadus. Yn wir, mae cynnydd wedi bod yn y gwerthiant yma ym Methel. Os gwyddoch am rywun sydd eisiau archebu'r *Eco*'n fisol, gadewch i'ch dosbarthwr wybod. Yr un modd, cofiwch fod yr *Eco* yn ei ffurf 'bapur' ac ar y wefan yn adnodd hysbysebu ar gyfer busnes unigol neu ddigwyddiad.

**Llongyfarchiadau**

Ganol Ebrill, ganwyd mab – eu plentyn cyntaf – i Dafydd a Teleri Parry, 24, Y Ddôl. Mae Guto Dafydd yn ŵyr cyntaf i Nain Shirley yn Waunfawr ac i Taid a Nain Llansannan.

**Dymuniadau gorau**

Dymuniadau gorau i Pat Hughes, Stâd Eryri a gafodd anaf drwg i'w chlun. Wedi llawdriniaeth, mae hi gartref ac yn gwella. Y wialen bysgota i ffwrdd rwan Dr. Hughes, a digon o dendans i Pat!

**Cydymdeimlo**

Daeth yr 'hen alwad' â'i gysgod unwaith eto dros Fethel y mis hwn. Yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Alice Jones, Bro Rhos. Cydymdeimlwn â Raymond a Colin a'u teuluoedd yn eu colled. Yn enedigol o Landdaniel, Môn, roedd Alice yn un o gymeriadau'r pentref, yn barod ei sgwrs ac yn cymryd diddordeb ym mhobl a mudiadau'r pentref. Mae Raymond a'i deulu wedi ymfudo i Seland Newydd ers rhai blynyddoedd bellach, ac edrychai Alice ymlaen at ymweld â hwy bob rhyw ddwy flynedd. Doedd oed ddim yn rhwystr, a byddai'r trefniadau wedi eu gwneud ymhell o flaen llaw. "Mynd ar safari", chwedl Alice a di-stop fyddai'r adroddiad wedi dychwelyd.

Yr un yw ein cydymdeimlad dwysaf â Clive, Kevin ac Ian a'u teuluoedd o golli mam, nain a hen nain annwyl, Dianne Roberts, Bryn Siriol, Bro Rhos. Un dawel ei natur oedd Dianne, a dioddefodd sawl cyfnod o afiechyd y blynyddoedd diwethaf hyn. Bu'n weddw am sawl blwyddyn. Roedd hi ac Eifion yn selogion yn y Cysegr, a bu Dianne yn gymorthydd parod am gyfnod yn yr Ysgol Sul.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir i Shân, John a Huw Morgan a'u teuluoedd estynedig o gyff Llwyn Bedw, ar farwolaeth ddisymwth eu chwaer fawr Mair Eluned (Lynne) oedd yn byw yn Llanrug.

**Ffordd Llanrug**

Yn ystod y mis, bu gweithwyr y Cyngor Sir yn crafu'r wyneb a thocio rhywfaint ar y tyfiant ar ochr y ffordd. Bellach, gellir gweld mor gul yw'r gofod rhwng y 'ffordd' a'r 'gwrych'. Yn sicr nid yw'r gofod yn ddigon o le i rywun gerdded yn ddiogel.

Mae'r llwybr beicio at Gaernarfon yn dechrau cymryd siap gyda rhan ohono eisoes wedi cael ei wyneb parhaol.

**Atgoffa**

Mae oedfaon wedi ail gychwyn yng Nghapel y Cysegr ers Sul y Pentecost, 23ain Mai, gyda'r Gweinidog, y Parchg Marcus Robinson, yn arwain yr oedfa. Mae'n hysbys bellach y bydd y Gweinidog yn ymddeol ddiwedd mis Hydref. Rhwng 'rwan a hynny, dim ond ar y Suliau y bydd y Gweinidog yn gwasanaethu ynddynt y cynhelir oedfaon yn y Cysegr, sef yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Ni fydd oedfaon ym mis Awst.

Mae oedfaon y Sul yng Nghapel Saron wedi ail gychwyn ers Sul y Pasg, am 1:30PM gyda gwahoddiad i unrhyw un ymuno. Ym mis Mehefin, bydd y gwasanaethau yng ngofal Rhian Evans, Cyfarfod y Plant, Philip Barnett a Richard Gillion.

Nid yw oedfaon Capel Bethel wedi ail gychwyn hyd yma.

**Merched y Wawr**

Yng nghyfarfod 'Zoom' mis Ebrill estynnwyd croeso cynnes i nifer o'r aelodau gan Anita, y Llywydd. Da oedd clywed fod Gwyneth, Llain yr Ardd gartref erbyn hyn ac yn teimlo'n llawer gwell.

Ein gwraig wadd oedd Gwerfyl Eidda, yn wreiddiol o Ysbyty Ifan ond erbyn hyn yn byw yn Llanrwst. Mae hi'n swyddog datblygu Clybiau Gwawr MYW, yn gweithio i gwmni Tropic ac yn fam i ddau o blant. Testun ei sgwrs oedd cynnyrch gofal croen cwmni Tropic. Cawsom hanes sefydlu'r cwmni gan ferch ifanc o'r enw Susie Ma o Shanghai. Yn ystod plentyndod Susie ymfudodd y teulu i Awstralia cyn symud yn ddiweddarach i Lundain. Yn ei harddegau fe benderfynodd Susie ddechrau gwerthu ei hoff 'body scrub' er mwyn helpu ei mam gyda chostau byw. Yn 15 oed, aeth i farchnad Greenwich i werthu'r 'body scrub', ac arweiniodd hynny at sefydlu cwmni Tropic.

Dair blynedd yn ôl ymddangosodd Susie ar raglen 'The Apprentice' ac er na fu'n fuddugol fe greodd ddigon o argraff ar yr Arglwydd Sugar i'w berswadio i fuddsoddi yn ei chwmni. Erbyn hyn mae cwmni Tropic yn cynhyrchu ystod eang o gynnyrch croen, a'r cyfan wedi eu gwneud o gynhwysion naturiol megis planhigion, llysiau a ffrwythau.

Yn ystod ei chyflwyniad dangosodd Gwerfyl sawl enghraifft o'r cynnyrch. Eglurodd bod rhai ar gyfer mathau arbennig o groen ac anhwylderau ar y croen megis eczema, brychni haul, gofal gwallt, gofal haul a cholur. Ethos y cwmni yw creu cynnyrch naturiol sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, heb darfu ar fyd natur nac anifeiliaid. Erbyn hyn maent hefyd yn cefnogi achosion sy'n hyrwyddo byd gwyrdd ac yn ariannu addysg i blant sy'n byw yn rhai o wledydd tlotaf y byd.

Os ydych yn awyddus i brynu peth o gynnyrch 'Tropic' gallwch gysylltu â Gwerfyl ar y Wê, neu gallwch archebu drwy gynrychiolwyr lleol 'Tropic'.

Diolchwyd i Gwerfyl am ei chyflwyniad byrlymus a gwerthfawr gan Anne Elis. Yng nghyfarfod Mai cawn gwmni'r Llawfeddyg Esgyrn, Awen Iorwerth.

**Gwerthfawrogi**

Dymuna Gwyneth, Llain yr Ardd, a'r teulu ddiolch o galon am y gefnogaeth, y galwadau ffôn, blodau, cardiau, anrhegion ac ymweliadau (o fewn terfynau) di-rif a'r llu cymwynasau a dderbyniwyd tra yn yr ysbytai ac wedi dychwelyd adref. Gwerthfawrogir y cwbl. Braint yw cael byw mewn cymdeithas draddodiadol Gymreig. Diolch hefyd i feddygon Y Waunfawr a Llanrug a meddygon a staff y tri ysbyty; Gwynedd, Dolgellau ac Eryri. Y mae'r gefnogaeth a gaiff gan y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaeth Cymdeithasol ar ôl dychwelyd adref hefyd yn dderbyniol tu hwnt.

**Diolchiadau**

*Grace Wynne Jones*

Dymuna Sion, Sioned, Gwyn Antur a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch i'r Parchedigion Marcus Robinson ac Aneurin Owen am eu gwasanaeth cynnes a theimladwy ac i'r organyddes am ei gwasanaeth ddydd yr angladd. Mawr ein diolch hefyd i gartref Nyrsio Cerrig-yr-Afon am eu gofal tyner parhaol. Gwerthfawrogir y rhoddion a ddaeth i law tuag at Ymchwil Canser. Diolchwn hefyd i Meinir a'r teulu o gwmni Dylan Griffith Cyfarwyddwyr Angladdau am eu gwasanaeth urddasol a gofalus.

**Cyngor Cymuned**

Yn y Cyfarfod Blynyddol ddechrau'r mis diolchwyd i'r Cynghorydd Gareth Griffiths am ei arweiniad cadarn a phositif dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Bu'n gyfnod anodd mewn sawl agwedd, a llwyddodd Gareth i lywio'r cwch trwy ddyfroedd anodd ar brydiau. Y Cadeirydd newydd yw'r Cynghorydd Emma Chappell, o Ddeiniolen. Dair blynedd yn ôl, roedd yn ennill teitl Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. 'Rwan, bydd yn arwain y Cyngor yn hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg. Yr Is-gadeirydd yw'r Cynghorydd Jane Pierce, Tŷ Mawr (Ward Bethel/Seion).

Bydd gan Jane swydd bwysig arall. Yn y cyfarfod, sefydlwyd Is-banel Llwybrau. Jane fydd yn cadeirio'r Is-bwyllgor, a chynrychiolydd Bethel fydd Richard Lloyd Jones. Yr aelodau eraill fydd un cynrychiolydd o bob pentref yn y plwyf. Croeso felly i chwi gerddwyr selog y llwybrau i gysylltu â Jane neu Richard gydag unrhyw ymholiad am y llwybrau.

Cyhoeddwyd yn y Cyngor fod pentrefi Deiniolen, Brynrefail a Phenisarwaun bellach wedi llenwi'r seddi gwag ar y Cyngor. Pa ffordd arall allaf i ofyn am gynrychiolydd o Fethel?

**Adran yr Urdd**

Fel y gwyddoch, dydan ni ddim wedi medru cyfarfod ers misoedd bellach, ond bwriad y pwyllgor yw trefnu dau weithgaredd cyn yr haf er mwyn cael pawb at ei gilydd eto.

Y bwriad ydi cynnal taith gerdded a phicnic bach i orffen y daith. Cadwch lygad allan am fwy o fanylion cyn bo hir. Hefyd, cynnal noson o chwaraeon yn y Neuadd Goffa.

Mae angen trysorydd ar y gangen, felly os oes rhywun yn fodlon helpu cysylltwch â Menna (ysgrifennyddes) 07789 395028.



# Ysgol Gwaun Gynfi

**Traws Gwlad**

Llongyfarchiadau mawr i Jasmine ar ddod yn ail ac i Gethin, Ella, Efa, Iwan, Cynan, Leo a Violet.

Gwych blantos!



**Pwerau dysgu**

Ers blwyddyn bellach, mae'r ysgol wedi cael gwared ar wobrwyo drwy roi sticeri, ond bellach yn symud ymlaen i wobrwyo drwy roi deilen ar goeden i ganmol pa bwerau dysgu, e.e. dyfalbarhau, cydweithio, canolbwyntio a mwynhau dysgu mae'r disgyblion wedi eu defnyddio yn ystod gweithgareddau.

Dyma i chi'r disgyblion gafodd ddeilen i fynd adre, ardderchog wir!











**Ein thema, Y Byd Gwyrdd**

Fel rhan o thema'r ysgol, bu disgyblion Cyfnod Sylfaen yn casglu sbwriel o gwmpas y pentref.

Yn anffodus casglwyd llawer iawn o sbwriel. Mae'r disgyblion wrthi'n ysgrifennu at y Cynghorydd Elfed Williams i ofyn am fwy o finiau a syniadau sut i leihau'r broblem.



**Dathlu Diwrnod Mathemateg**

I ddathlu Diwrnod Mathemateg bu'r disgyblion yn brysur un ai yn gwneud gwahanol weithgareddau neu'n cystadlu yn erbyn disgyblion eraill ar draws y byd mewn adnodd o'r enw Mathletics.

Llongyfarchiadau mawr i Jac Taylor a ddaeth yn y cant uchaf ar draws y byd. Ac mi ddaeth yr ysgol yn y 150 uchaf hefyd ar draws y byd. Da iawn chi!
















**Datblygu llafaredd ag hyder disgyblion**

Ers dychwelyd yn llawn amser, mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi mwynhau gweithdai drama gyda'r actores a'r athrawes Siân Beca. Cyfle i'r disgyblion ddatblygu'r Gymraeg ac i fagu hyder i weithio'n annibynnol ac adnabod emosiynau.



# DINORWIG

**Y Tywydd**
Cawsom fis Ebrill braf a heulog er bod y gwynt yn oer yn y cysgod. Y ffermwyr yn galw am law, ac fe ddaeth, yn ddi-baid hyd ganol Mai, a gwyntoedd cryfion, eira, cenllysg a therfysg i'w ganlyn. Daeth ag oerni hefyd; anarferol am fis Mai, llawer dan annwyd a gwresogyddion ymlaen yn ein cartrefi. Er hynny, clywyd y gôg yn ein hysbysu fod y gwanwyn wedi cyrraedd.

**Marwolaeth**
Yn hynod o sydyn ar y 7fed o Ebrill bu farw Mrs Dilys Williams, Bron Eilian yn 85 oed. Dynes ei chynefin a'i milltir sgwâr, ac un oedd yn mwynhau bod gartref hefo'r cŵn a'r cathod yn hytrach na chrwydro. Gwraig hynod o glên a chroesawgar. Cynhaliwyd yr angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor gyda'r Parchg Marcus Robinson, Bethel yn gwasanaethu, a rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent newydd Bangor gyda'i diweddar ŵr, Derek. Ein cydymdeimlad â'r genod, Shirley a Delwen a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth.

**Teyrnged gan Shirley a Delwen**
Ganwyd Dilys Williams (Evans gynt) ar y 15fed Mai 1935 yn Glan Afon Cottage, Llanfairfechan yn nhŷ Nain Jones, yn ferch i Sarah a Thomas Evans. Hi oedd yr hynaf o dair chwaer, ac yr oedd ganddi feddwl mawr o'i dwy chwaer ieuengaf, Sybil ac Enfys.

Bu'n byw am gyfnod yn Glan y Don, Ffordd y Traeth, Bangor, cyn symud i Ffordd Tegid i'w magu gan ei nain, Margaret Evans, Anti Meiriona a'r teulu. Bu'n gweithio am rai blynyddoedd yn siop ffrwythau Waterworths ym Mangor.

Roedd yn dipyn o 'Bangor girl', ac yn hoff o fynd i'r pictiwrs i wylio sêr y sgrin gyda'i chwiorydd a'i ffrindiau. Gwyddai hanes pob seren enwog o gyfnod y 1950au a gallai eu cofio hyd heddiw.

Cyfarfu â Derek, ei phriod, yn y City Milk Bar, Bangor, a phriodwyd hwy yng Nghapel Ebenezer ar y 7fed Medi 1957 ac ymgartrefu yn Bigil, Dinorwig. Mae gan aelodau o'r teulu atgofion melys am recordiau Harry Belafonte yn cael eu chwarae dros y lle. Byddai'n hoff iawn o siopa, ac ai i Fangor yn rheolaidd bob Sadwrn gan gymryd balchder mawr yn ei hymddangosiad.

Yn 1960 ganwyd Shirley, a hi oedd cannwyll eu llygaid. Prynodd y ddau fferm Bron Eilian yn 1967, ac yno yn 1970 y ganwyd Delwen Haf, a'r ddau wedi mopio'n lân. Yno, ym Mron Eilian y buont fyw am weddill eu hoes.

Roedd Dil (fel y galwai Derek hi) yn wraig ddistaw, ddi-lol a di-ffws; yn hynod barchus o bawb – a wastad yn eu galw yn 'chi'.

Balchder mawr Derek a Dilys oedd gweld y genod yn tyfu ac yn priodi: Shirley efo Colin, a Delwen efo David. Yn ogystal â bod yn fam anhygoel i ni, cawsom fywyd braf a hapus. Roedd yn wraig fferm naturiol, a doedd neb gwell am fagu ŵyn llywaeth ger y Rayburn. Gweithiodd yn galed i helpu gyda'r defaid amser cneifio, a hi fyddai wastad yn lapio'r gwlân.

Byddai croeso mawr i'w gael bob amser ym Mron Eilian, a hithau wrth ei bodd yn bwydo pawb. Fyddai neb yn gadael heb bryd o fwyd neu baned. A doedd neb gwell am wneud grefi cartref!

Roedd ganddi hefyd ddiddordeb mewn garddio a gwelid hi'n aml yn 'potian' o gwmpas yr ardd.

Ganwyd wyres ac ŵyr – Mererid a Tomos. Nhw oedd eu holl fyd, ac roeddent mor falch ohonynt. Byddai'r ddau yn cael eu gwarchod yn aml ym Mron Eilian, ac roedd atgofion melys ganddynt o chwarae siop a chanu efo Nain a Taid. Mae'r ddau yn oedolion ifanc a pharchus heddiw, ac mae llawer o'r diolch i Nain a Taid am hynny. Roedd Nain yn prowd iawn o Mererid a Tomos a'r hyn maent wedi ei gyflawni hyd yma. Daliwch ati i'w gwneud hi mor falch ohonoch a phosib.

Bydd colled enfawr ar ei hôl yn Ninorwig, yn enwedig i'w theulu a'i ffrindiau. Paid a phoeni mam, mi edrychwn ni ar ôl ein gilydd. Fe ofalwn am y cathod, Jesi a'r anifeiliaid i gyd.

Fe fyddwn yn siŵr o gofio ei dywediad: 'pan fo'r nos yn ddu, chwiliwch am y sêr.' Cwsg yn dawel. Roeddet werth y byd.

**Diolch**
Manteisiaf ar y cyfle i ddymuno ymddeoliad hapus i'r Parch. Marcus Robinson o'i eglwysi ac o Henaduriaeth Arfon. Diolch iddo am ei waith ac am ei gymorth i lawer. Gobeithio y caiff iechyd i fwynhau ei ymddeoliad.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i'r Parch. Gwynfor Williams, a fethodd wasanaethu yn angladd Mrs Dilys Williams, ac yntau'n gefnder i'w diweddar ŵr, Derek. Coffa da am ei dad, un o blant yr ardal. Dymunwn adferiad llwyr i chi a Mrs Williams, sydd hefyd wedi bod yn wael yn ddiweddar.

















**Diolch**
Fe gafodd Amy Evans brofiad dychrynllyd yn ddiweddar pan gafodd ffit epileptig yn Dinorwig. Yn ffodus iawn, roedd pobl gerllaw a fu'n gymorth iddi anadlu a'i chynnal yn ystod y cyfnod nes daeth yr ambiwlans ati. Roedd yn brofiad brawychus i bawb ond i Amy yn bennaf wrth gwrs. Dymuna Amy ddiolch o waelod calon i'r rhai a fu'n barod i'w helpu, ac mae'n gofyn, os oes rhywun yn adnabod y rhai a fu yn ei helpu, neu os oedd unrhyw un ohonoch yno, a wnewch chi gysylltu â hi os gwelwch yn dda er mwyn iddi allu diolch yn bersonol iddynt. Fe ellir gwneud hynny trwy e-bost y gohebydd a fydd yn fwy na pharod i basio'r wybodaeth ymlaen.

Dymunir y gorau i Amy. Roedd yn brofiad brawychus i fynd trwyddo, ac edmygir ei dewrder am wneud yr hanes yn gyhoeddus fel yma er mwyn iddi allu diolch i'r sawl a'i helpodd.

**Ymddiriedolwyr i Gylch Meithrin Deiniolen**
Mae Cylch Meithrin Deiniolen yn chwilio am wirfoddolwyr i ymuno â'r Pwyllgor a gweithredu fel Ymddiriedolwyr i'r elusen.

Mae'r Cylch yn cael ei lywodraethu gan bwyllgor o wirfoddolwyr gyda staff gweithgar a brwdfrydig yn rhedeg y Cylch o ddydd i ddydd. Mae'r Cylch yn sefydliad pwysig yn y pentref sydd wedi rhoi sylfaen arbennig i addysg cannoedd o blant y pentref dros y blynyddoedd. Mae cyd-weithio agos rhwng y Cylch a'r Ysgol, gyda'r Cylch yn darparu gofal i nifer o blant y Dosbarth Meithrin yn y prynhawniau. Rydym fel Cylch yn galw am gefnogaeth i'n helpu i barhau i gadw'r Cylch i redeg yn llwyddianus a gallu darparu'r gwasanaeth yma i deuluoedd Deiniolen a'r cyffiniau. Pe bai gan unrhyw un ddiddordeb mewn gwirfoddoli neu eisiau mwy o wybodaeth, plis cysylltwch â:

Dilwen Williams (Arweinydd) cylchdeiniolen@outlook.com

Emma Price (Cadeirydd) pwyllgor.cylchmeithrindeiniolen.yahoo.com

Llio Tomos (Swyddog Cefnogi Mudiad Meithrin) llio.tomos@meithrin.cymru / 07792947018

**Sefyllfa Mynwent Macpelah – Cynghorydd Elfed Williams**
Rwyf wedi derbyn sawl ymholiad gan drigolion yr ardal yn pryderu am gapasiti Mynwent Macpelah. O ganlyniad, bues i mewn trafodaethau gyda swyddogion Cyngor Gwynedd ynghylch y sefyllfa, a chefais amcangyfrif ganddynt bod gwerth rhwng 10 a 15 mlynedd o le ar ôl yn y fynwent. Yn amlwg, mae'n amhosib rhoi ffigwr pendant ac rwyf yn deall bod cryn boeni yn lleol. Byddaf yn monitro sefyllfa'r capasiti yn agos iawn ar y cyd â'r Cyngor dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

**Diolch**
Dymuna Delyth Thomas, Adran Dementia Ysbyty Gwynedd, ddiolch o galon i Georgina Davies a Rhian Evans am eu gwaith caredig yn gweu a chrosio yn ddiweddar i wneud siol(au) ar gyfer cleifion yr Adran.

**Eglwys Crist Llandinorwig**
Mae dros flwyddyn wedi mynd heibio, heb yr un gwasanaeth ar y Sul yn yr Eglwys. Ond rhaid oedd dilyn y canllawiau, a chadw'n ddiogel rhag dal yr aflwydd sydd wedi effeithio'n ddifrifol ar deuluoedd ledled ein gwlad a thu hwnt.

Nid yw adeilad yn cadw ei hun. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu'n gyson er mwyn cynnal yr adeilad. Diolch yn arbennig i'r rhai yn ystod yr wythnosau diwethaf a fu'n glanhau y tu mewn i'r Eglwys. Nid gwaith hawdd oherwydd maint yr adeilad; ar ôl hyn, gobeithio y cawn agor yn fuan.

Y Fynwent: Diolch o galon am eich cyfraniadau, oherwydd eich arian chi sydd yn ein galluogi i dorri gwair a thacluso'r darn cysegredig yma yn Neiniolen. Diolch yn arbennig i Mr Berwyn Jones am ofalu bod y gwair yn cael ei dorri.


A gawn ni fel Eglwys wneud apêl i chi drigolion Deiniolen a charedigion y Fynwent, gyfrannu rhodd, er mwyn i ni allu parhau gyda'r gwaith o gynnal a chadw ein Mynwent i'r dyfodol? Byddai Mrs Gwen Griffith, Fron neu Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu neu unrhyw aelod o'r Eglwys yn falch o dderbyn eich rhodd yn ddiolchgar.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu'r diweddar Aled Foulk Jones a fu farw yn 91 mlwydd oed. Mi fu'n nyrs iechyd meddwl am flynyddoedd lawer yn Ysbyty Dinbych cyn dychwelyd i fyw i'r ardal wedi iddo ymddeol gyda'i wraig Enid. Dyn annwyl a pharchus iawn, a bydd colled ar ei ôl i'w deulu, cymdogion a ffrindiau.


**Cefnywaun ac Ebeneser**
Yn niffyg oedfaon yn Nhŷ Elidir ar hyn o bryd cofiwch am oedfaon ffôn a Zoom yr Ofalaeth: ffôn am 10:00AM a Zoom am 5:00PM bob Sul. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni os nad oes gennych oedfa arall i fynd iddi. I gysylltu â'r Oedfa Ffôn, ffoniwch 0333 0164 757. Yna pan ofynnir am y 'Conference Room Number', deialwch 54265432 a phwyso'r botwm # ar ei ôl. Yna pan ofynnir am y 'PIN' deialwch 1210 a phwyso'r botwm # ar ei ôl.

# Codi arian

**Codi arian**
Rhwng 17eg a 19eg Ebrill 2021 bu Steffan Jones o Glwt-y-bont yn rhedeg i gasglu arian at elusen sydd yn agos iawn at galon y teulu, a llawer o bobl eraill, sef Ymchwil Cancr / *Cancer Research*. Yn drist iawn, collodd y teulu lawer o aelodau dros y blynyddoedd diwethaf, a dyna a ysbrydolodd Steffan i godi arian at yr achos. Ond nid rhedeg mewn cyfnod o amser penodol, ond rhedeg 4 milltir bob 4 awr am 48 awr. Felly, rhedodd Steffan dros gyfnod o ddau ddiwrnod, gyda saib o 4 awr rhwng pob 4 milltir. Gobaith Steffan oedd casglu £500. Ond mi lwyddodd i gasglu £1,195.



Hoffai Steffan ddiolch i bawb oedd wedi ei noddi. A hoffai ei deulu ei longyfarch o ar y fath gamp! Da iawn ti, Steffan!



## CEUNANT

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Einir a Gwenno a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mam a Nain arbennig iawn sef Mrs Helen Parry, Morwel, Ceunant. Roedd 'Anti Helen' wedi ei magu yma yng Ngheunant ac fe fydd colled enfawr yma ar ei hôl.

Anfonwn ein cofion at nifer o drigolion yr ardal sydd hefyd wedi colli eu hanwyliaid yn ystod y misoedd diwethaf.

w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k

ECO'r Wyddfa

## LLANRUG

**Dathliadau**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Robin Whiteside Thomas ar ei benblwydd yn 21ain yn ddiweddar.

**Priodas Arian**
Llongyfarchiadau mawr i Gwyn a Meira Williams, Pant y Celyn, Ffordd Rhyddallt ar ddathlu Penblwydd Priodas Arian.

'Run modd, dathlwyd Priodas Ruddem gan Phil a Beryl Griffiths, Llecyn, Ffordd Llanberis a Brian ac Eirian, 20 Glanffynnon. Llongyfarchiadau mawr i chi.

**Profedigaethau**
Trist iawn ydi cofnodi sawl marwolaeth yn y pentre a'r ardal gyfagos.

Bu farw Mrs Marina Williams, Didfa, yn dilyn salwch pur hir. Cafodd ofal hynod gan y teulu, person annwyl iawn a chyfeillgar gyda phawb, gyda gwên bob amser. Bydd colled fawr iawn i'r teulu a'i ffrindiau ac fe gydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Dewi, Bryn ac Angela, ei brawd a'i chwaer a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Ar 23ain Ebrill bu farw Selwyn Morris, gynt o Gwenrhon, Ffordd Bethel. Cydymdeimlwn ag Anwen a Siwsan a'r teulu a gyda Rene a Gareth Rhos Rug, ei chwaer Margaret a'i frawd John a'r teulu oll. Meddwl amdanoch yn eich colled o ŵr, tad, taid a brawd annwyl. Atgofion melys am berson hwyliog a charedig.

Yn sydyn iawn, bu farw Mair Eluned Morgan, Rhes Hermon, yn 58 oed. Cydymdeimlwn yn arw â Shian, John a Hugh, ei chwaer a'i brodyr a'r teulu oll yn eu colled fawr ac annisgwyl.

Yn 81 oed, bu farw Gwyneth Wynne, Llety Llwyd, Tan y Coed ar 30ain Ebrill. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei gŵr Owen, Enid a Gareth, Garry a Carol a'r wyrion a'r wyresau.

Anfonwn ein cofion at Hefina Jones, Rhos Rug a'r teulu yn eu profedigaeth hwythau yn dilyn marwolaeth ei brawd hynaf, Aled. Meddwl amdanoch.

Cofiwn at Rhiannon Williams, Ioan ac Owain, Ela, Siôn a Noa, Pontrug, yn eu profedigaeth o golli tad, taid a hen daid, brodor o Ynys Môn.

Deallwn fod teulu Cooke, Glan Moelyn, mewn galar yn dilyn marwolaeth eu hwyres fach o Lanberis yn 4 oed. Cydymdeimlir yn llwyr â chwi ar amser mor anodd.

**Teithio Noddedig**
Llongyfarchiadau mawr Malcolm Pitts ar unwaith eto godi swm sylweddol tuag at Ward Alaw Ysbyty Gwynedd er cof am ei wraig Yvonne, wrth reidio ei feic am filltiroedd maith. Da iawn Malcolm - edmygu chi yn arw.

**Diolchiadau**
Grace Wynne Jones - Dymuna Sion, Sioned, Gwyn Antur a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch i'r Parchedigion Marcus Robinson ac Aneurin Owen am eu gwasanaeth cynnes a theimladwy ac i'r organyddes am ei gwasanaeth ddydd yr angladd. Mawr ein diolch hefyd i gartref Nyrsio Cerrig-yr-Afon am eu gofal tyner parhaol. Gwerthfawrogir y rhoddion a ddaeth i law tuag at Ymchwil Canser. Diolchwn hefyd i Meinir a'r teulu o gwmni Dylan Griffith Cyfarwyddwyr Angladdau am eu gwasanaeth urddasol a gofalus.

**Plaid Cymru**
Enillwyr Clwb Cant Mis Mai
Enid Williams, Llanrug
Pat Larsen, Penisarwaun.

## Ysgol Gynradd Llanrug

**Bwrlwm Beicio!**
Roedd holl ddisgyblion Ysgol Gynradd Llanrug yn hynod falch o fanteisio ar y cyfle i feicio neu sgwtera i'r ysgol yn ddiweddar, a hynny mewn ymdrech i gefnogi ymgyrch 'Big Pedal' gan Sustrans. Mae nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol yn dewis cerdded neu feicio i'r ysgol beth bynnag, ond rhoddwyd ffocws pellach ar hyn am wythnos gan annog mwy fwy o'r plant i deithio i'r ysgol mewn modd sy'n fanteisiol i'w hiechyd yn ogystal â'r amgylchedd. Mae gwobr wastad yn gymhelliant gwych, felly roedd Mrs Rhian Thomas wedi trefnu bod clo aur yn cael ei osod ar hap ar un o'r beics ar ddiwedd bob dydd. Cafwyd sawl unigolyn lwcus dros yr wythnos, ond gweler uchod Ethan o Flwyddyn 6 yn canfod mai ar ei feic o roedd clo aur Dosbarth Tryfan wedi ei osod! Da iawn Ethan, a llongyfarchiadau i bawb arall a lwyddodd i gymryd rhan hefyd!





Daeth Elin Taylor draw i'r ysgol i roi gweithdy cerdd i blant y Cyfnod Sylfaen! Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr.



Braf croesawu'r clwb pêl-droed yn ôl ar gyfer plant Ysgol Llanrug. Diolch i Nathan Craig am drefnu, mae pawb yn mwynhau.



# Golau Newydd ar Glegir

Mi fydda i'n mynd i grwydro i ben Clegir yn reit aml; tua hanner awr o waith cerdded o'r tŷ yn Llanrug ydi hi i'r copa ac felly Clegir ydi'r lle i fynd pan fydd rhywun angen dipyn o ymarfer a chlirio'i ben. Mae yna nifer ohonoch chi'n gwneud yr un peth dwi'n gwybod, ac mi rydan ni mor lwcus yn wir fod gennym y fath brydferthwch ar garreg y drws.

Fore Iau, 1af Ebrill mi ro'n i a'r ci, Cadi, unwaith eto yn ein hoff le – 'ben Clegir' – ac mi feddyliais pam ddim dod yma bob un diwrnod arall am weddill y mis? Fe fydda i'n arfer amrywio llwybrau cerdded y ci, rhag i mi syrffedu, ond siawns na faswn i'n syrffedu ar yr olygfa o ben Clegir fyth?! Dwi angen colli pwysau (dwi'n bwyta fy ffordd allan o bob cyfnod clo!) ac mae dringo'r allt yn gwneud byd o les, felly dyma osod her fechan iawn i mi fy hun i gofnodi'r olygfa a welwn bob diwrnod am fis. Mi wnes eu llwytho ar fy nghyfri Instagram bob dydd hefyd (@incpinccymru) er mwyn cofnodi'r daith.


1 Ebrill


6 Ebrill


13 Ebrill


16 Ebrill



22 Ebrill


Drwy amrywio'r amseroedd yn fwriadol roedd gobaith i ddal yr olygfa mewn gwahanol olau, felly gobeithio bod y lluniau yma'n rhoi 'chydig o flas i chi. Cawsom dywydd anarferol o oer a sych i fis Ebrill eleni, mor sych fel mai un diwrnod un unig y bûm yn cerdded mewn glaw! Yr eira wrth gwrs fydd yn aros yn y cof, a dwi'n hynod o falch bod gen i gofnod am byth o dywydd a golygfa anhygoel.

Be ddysgais i? Wel, gyda phawb yn ysu am ddringo allan o flwyddyn o glo, a'r awydd i fynd i grwydro a phrofi blas llefydd newydd sbon yn cronni, weithiau, y cwbl sydd ei angen go iawn ydi edrych o'r newydd ar yr hyn sydd o'n cwmpas. Mae natur yn ail greu ei hun bob dydd, ac mae'r tywydd neu'r amser o'r dydd yn gallu taflu goleuni newydd sbon ar rywbeth 'dan ni'n meddwl sy'n gyfarwydd. Gymaint felly nes y credwch eich bod yn edrych ar olygfa newydd sbon. Mae pob un wan jac o'r 30 llun yn hollol wahanol!

Diolch 'Clegir Ebrill 2021' am godi 'nghalon a dal drych ar brydferthwch ein hardal. Chollais i nemor ddim pwysau gyda llaw, ond dyna ni, fedrwn ni ddim cael bob dim!

**Bethan Richardson**



25 Ebrill


'gwawrio dros Ddeiniolen...'


'...a machlud dros Sir Fôn.'

Bu i bawb fwynhau ymchwilio i wahanol agweddau o fathemateg yn ystod 'Diwrnod Mathemateg y Byd'. Dyma rai lluniau #worldmathsday2021





Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion yma o Flwyddyn 5 a phawb arall o'r ysgol am gymryd rhan yn Ras Trawsgwlad Ynys Môn a Gwynedd 2021. Dan ni'n falch iawn o'ch llwyddiant blant! Da iawn chi!



# Chwilota

## Erthyglau hanes lleol, Bro Eco'r Wyddfa.

**Dau gefnder – ac enw da Llanbabo**

Roedd Evan Jones yn enedigol o Ros bach, rhwng Caeathro a'r Bontnewydd, a'i dad, John Jones, wedi treulio'i oes yn felinydd ym Melin Seiont, Caernarfon. Merch Glanrafon, Waunfawr oedd ei fam. Yn 1861 priododd Evan a Catherine Goodman, merch i grydd o Feddgelert a symud i fyw i Glwt y Bont. Gweithiai Evan yn Chwarel Dinorwig. Ond byr fu ei arhosiad yno, a mudodd i'r America i chwilio am well bywyd. Roedd cefnder iddo yno eisoes, a gwyddai Evan ei fod yn byw yng nghyffiniau Scotch Hill, Fairhaven, Vermont.

Y cefnder hwnnw oedd John Owen, a'i fam yn chwaer i fam Evan. Roedd yn byw ym Mhenffordd Bangor, Waunfawr yn 1841. Bu yntau hefyd yn byw yn Ebenezer, a chredir iddo fod yn glochydd Eglwys Llandinorwig ac yn arweinydd y canu yno. Roedd hefyd yn arweinydd côr y 'Snowdon Harmonic Society', a ddisgrifir weithiau fel 'Côr Deiniolen', a hynny ymhell cyn i Ebenezer newid ei enw. Galwai ei hun yn Glanmarchlyn.

Roedd Jennie, merch John Owen yn gantores ifanc addawol iawn, ac yn cael hyfforddiant gan Owain Alaw. Yn 1864, a hithau tua tair-ar-ddeg oed enillodd ar unawd yn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno. Mae'n amlwg fod llais arbennig ganddi, a chynhaliwyd nifer o gyngherddau er mwyn codi arian iddi dderbyn hyfforddiant proffesiynol. Cynhaliwyd un ohonynt yn Neuadd Penrhyn, Bangor, ac un arall yng Nghaernarfon. Roedd y côr, dan arweiniad ei thad, yn perfformio hefyd. Mae un cofnod yn honni fod 180 o aelodau iddo.

Mae'n ymddangos fod John Owen yn credu fod gwell gobaith gan ei ferch am yrfa broffesiynol ym myd cerddoriaeth pe symudai'r teulu i'r America, a dyna ddigwyddodd. Mudodd o Ebenezer i Vermont tua mis Awst 1866. Mae rhai adroddiadau yn son am John Owen a'i ferch yn mudo, ond mae'n amlwg fod y teulu cyfan wedi mynd. Bu llythyru yn y wasg yn ystod misoedd cyntaf 1866 yn galw am dysteb i John Owen i ddiolch iddo am ei wasanaeth yn yr eglwys. Ni wn a ddigwyddodd hynny.

Mae'n debyg fod Evan Jones wedi penderfynu dilyn ei gefnder i'r America yn weddol fuan wedyn, gan deithio i Scotch Hill i chwilio amdano. Wedi cyrraedd, aeth i mewn i fasnachdy oedd yn gwerthu nwyddau ond hefyd yn rhyw fath o le i gael diodydd. Holwyd Evan Jones gan berchennog y masnachdy, gan ofyn o ba ran o Gymru y deuai. *"O Glwt y Bont, Arfon,"* oedd ei ateb, ac ar hynny, clywodd rai o'r dynion oedd yn eistedd yn yfed mewn congl o'r masnachdy yn sibrwd *'O Lanbabo'*. A doedd y modd y cyfeiriwyd at y lle ddim yn swnio'n gyfeillgar iawn o gwbl. Troi ar ei sawdl a mynd allan wnaeth Evan.

Bore drannoeth aeth Evan i chwarel Scotch Hill i chwilio am waith. Goruchwyliwr y chwarel oedd Cymro o'r enw Benjamin Williams. Gofynnodd i Evan o ble deuai, a'r tro hwn penderfynodd ddweud mai un o Lanbabo oedd – er mwyn gweld beth fyddai'r ymateb. Synnodd y goruchwyliwr a galwodd nifer o weithwyr cyfagos ato gan ddweud *"Dyma'r dyn cyntaf erioed i mi ei weld o Lanbabo, ond gan dy fod yn ddigon gonest i gydnabod hynny, mi gei di waith a chroeso."* Ac felly bu, a chafodd Evan ei adnabod fel Evan Llanbabo o hynny ymlaen.

Does wybod bellach pam fod amheuaeth yn yr ardal ynglŷn â mewnfudwyr a ddaeth yno o Lanbabo. Ond o leiaf, bu Evan yn gyfrwng i adfer enw da yr ardal.

Roedd John Owen a'i deulu wedi setlo i fyw yn Granville, a daeth yn amlwg yno ym mywyd cerddorol y Cymry. Roedd Jennie, y ferch, hefyd yn perfformio mewn gwahanol gyngherddau a chymanfaoedd, a daeth mewn amser yn athrawes cerddoriaeth yn y Wisconsin Conservatory of Music ym Milwaukee. Roedd chwaer arall – Priscilla, hefyd wedi graddio mewn cerddoriaeth yn Efrog Newydd ac yn athrawes leisiol ac offerynnol. Ceir cofnod hefyd am drydedd chwaer o'r enw Winnie yn unawdydd mewn cyngherddau lleol yn ardal Granville. Methais a chael cofnod am ddoniau cerddorol y bedwaredd chwaer, Kate.

Jennie yn amlwg oedd yr enwocaf o'r chwiorydd, a chai ei hadnabod ymhlith Cymry America fel Jennie Owen Glanmarchlyn. Dychwelodd i Gymru ar daith gerddorol yn 1879. Yn 1886 daeth yn ôl unwaith eto, y tro hwn i'r Almaen, a threuliodd fis yno yn dysgu'r iaith. Bu wedyn yn teithio drwy Ewrop, ac yn canu yng ngwledydd gogledd Affrica, gan gynnwys Morocco a'r Aifft. Hyd y gwn, arhosodd yn ddi-briod.

Bu John Owen farw yn Granville ym mis Ionawr 1892, a'i wraig, Ann ym mis Chwefror 1900. Does gen i ddim gwybodaeth am hynt a helynt Evan Jones wedi iddo gael gwaith yn Chwarel Scotch Hill. Tybed oes rai o'r teulu yn parhau i fyw yng Nghlwt y Bont, Deiniolen neu'r Waunfawr?

## Milwyr o'r Fro

Galwad ffôn yn ystod y mis gan Glenda Jones, Llaniestyn, yn cael ei dilyn gan e-bost a'r llun uchod. Roedd wedi dod ar draws y llun mewn toriad papur newydd wrth glirio'n ystod y clo diwethaf, ac yn methu'n lân a deall pam ei fod



yn ei meddiant, a hithau na'i theulu (hyd y gwyddai) efo unrhyw gysylltiad â bro'r 'Eco'.

Does dim gwybodaeth am leoliad y llun ar wahan i fod "rhywle yn Lloegr". Mae'r enwau yn cael eu cofnodi fel J.M.Jones, Llanberis a G.O.Williams, Bethel. Dywedir eu bod yn gwasanaethu gyda'r RAMC. Rwy'n tybio mai'r Royal Army Medical Corps yw'r rhain.

Oes unrhyw un â gwybodaeth am y ddau? Ac os oes, a allwch ddatrys dirgelwch y cysylltiad â Llaniestyn.


## Hendra Chickod

Roedd hi'n fis Ebrill 1995 arnaf yn holi am yr enw hwn yng ngholofn Chwilota, a hynny wedi derbyn gwybodaeth gan Gwilym Roberts, Fron Oleu a Mair Jones, Bonc – y ddau bellach wedi ein gadael. A doedd yr un ohonom wedi gweld yr enw'n ysgrifenedig, felly swn y gair sydd wedi arwain at y sillafiad.

Ond yn ystod ail wythnos Mai, wrth wrando ar raglen foreol Aled Hughes, clywais y gair unwaith eto. Roedd trafodaeth ynglŷn â darganfyddiad gloyn byw mewn cyfrol yn dyddio'n ôl bedwar can mlynedd yn llyfrgell un o brifysgolion Lloegr. A chafwyd rhestr o wahanol enwau a ddefnyddir mewn gwahanol rannau o Gymru amdano. Ac yn eu plith roedd enw'n swnio'n debyg iawn i 'chickod' neu 'jigod', a phobl Pen Llŷn oedd yn ei ddefnyddio, a hynny, nid yn unig am y gloyn byw neu iar fach yr haf, ond hefyd am ieir. Tybed a ddefnyddiwyd yr un gair am y tyddyn sydd bellach yn adfeilion ar ochr y llwybr sy'n arwain o'r Fricsan i Ben y Bwlch, Clegir?

**Dafydd Whiteside Thomas**

**www.chwilota.wordpress.com**
**Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r Eco, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA (Ffon 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com**



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS

GERAINT OWEN
CARPEDI
Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475
CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

Cymdeithas Edward Llwyd
Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru
Elusen Gofrestredig rhif 1128027

# Cystadleuaeth: Erthygl i'r Naturiaethwr

Dysgwyr! Dyma'ch cyfle i ennill £150!

Oes gennych chi ddiddordeb mewn byd natur, neu mewn effeithiau dyn ar fyd natur?

Y Naturiaethwr yw cylchgrawn Cymdeithas Edward Llwyd, sef Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru. Enwyd y Gymdeithas ar ôl y naturiaethwr, yr ieithydd a'r hynafiaethydd Edward Llwyd (1660 - 1709).

Penderfynwyd cynnal cystadleuaeth i ddysgwyr i ysgrifennu erthygl ar unrhyw bwnc sy'n ymwneud â diddordebau Edward Llwyd. Sonnir am ei ddiddordebau yn yr englyn er cof amdano gan John Morgan, yn y ddeunawfed ganrif:

Meini nadd a mynyddoedd –
a gwaliau
Ac olion dinasoedd
A dail, dy fyfyrdod oedd,
A hanesion hen oesoedd.

Dylai'ch erthygl fod rhwng mil a dwy fil o eiriau a chroesewir lluniau addas i fynd gyda'r erthygl, a dylid anfon erthyglau yn ffurf MS Word neu raglen gyfrifiadurol gyffelyb, os yn bosib, drwy ebost at: naturiaethwr@triban.net

Bydd erthyglau addas yn cael eu cyhoeddi yn Y Naturiaethwr, a bydd gwobr o £150 i'r erthygl orau.

Anfonwch eich erthygl erbyn 5ed Gorffennaf 2021 os gwelwch yn dda.

Mae enghreifftiau o'r Naturiaethwr i'w gweld ar y we, yma: www.cymdeithasedwardllwyd.cymru/y-naturiaethwr/

**Nodyn:**
Mae ysgrifennu yn rhan bwysig iawn yn eich ymdrech i ddysgu Cymraeg. Mae'n rhoi amser i chi feddwl am y ffordd orau o fynegi eich hun. Pan 'dach chi'n sgwrsio efo rywun 'dach chi'n gorfod meddwl yn gyflym ac mae'r sgwrs yn eich blino. Mae pawb yn gallu ysgrifennu dim ond iddyn nhw wneud y camau cyntaf. Felly rhowch gynnig ar y gystadleuaeth yma, hyd yn oed os nad ydych yn ennill bydd y profiad yn werthfawr iawn.

Pob lwc
Rob Evans


HYWEL
WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON




01286 672076
8 Stryd y Castell, Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk


# Llên Natur

## Ail-feddiannu hen gwt hers

Dyna gyffro diniwed oedd o i ni blant cael sbecian drwy ddorau'r hen gwt hers ers talwm a gweld trwy'r gwyll yr hen hers geffyl. Erbyn y 50au, a hithau heb gael ei defnyddio ers degawdau, roedd hi'n hel llwch, a phry hefyd mae'n siŵr. Ond dwi'n cofio digon o ogoniant yn perthyn iddi o hyd i danio dychymyg plentyn.



Mae atgofion fy nghyfoedion yn cynnwys eistedd ar ei bwrdd yn chwarae ji-yp i'r meirch duon dychmygol fyddai unwaith yn ei thynnu. Soniai ambell un hyd yn oed am ei throi yn goets fawr ddychmygol y Wells Fargo, rhaglen gowbois oedd mewn bri mawr yn nyddiau cynnar y teledu ar y pryd. Ond dim ond sbecian - a dychmygu - wnes i erioed, i mi gofio o leiaf.

Cofiaf hefyd i'r nant a redai heibio'r cwt fod y lle gorau yn y fro am jeli-llyffant. Oedden ni'n ei alw yn 'grifft' tybed, fel y dylem? Dwi ddim yn cofio, ond mae'n siŵr y byddai Mr Elis o annwyl goffadwriaeth pawb a brofodd ei fwynder hynaws, wedi dysgu i ni'r enw cywir hwn wrth i ni gydio'n dynn mewn llond pot jam ohono i'w roi ar fwrdd natur Standard Ffôr.

Yn ôl y sôn, yn oes y ceffyl, bu'n arferol i gadw'r corff, cyn angladd, yn nhyddyn Cae Mawr gyferbyn â chwt yr hers. 'Cnebrwn' oedd pob angladd i ni blant a bu'n arfer gennym sefyll yn barchus ar y pafin, cap yn y llaw, wrth i'r cynhebrwng (o geir wrth gwrs erbyn y 50au), ymlwybro heibio.

Bûm yn trafod efo perchen presennol y Cwt Hers o bryd i'w gilydd, perchen sy'n cymryd diddordeb yn ei hanes. Cefais wybod trwy hynny bod yr hen hers geffyl mae'n debyg yn bod o hyd ac mewn storfa'r Amgueddfa Genedlaethol, ym Margam o bob man. Os dyna'i lleoliad o hyd, ac ai'r hers hon yn y llun yn wir yw hers Waunfawr, oni ddylem ddod o hyd i gartref parchus iddi yn ôl yn y gogledd? Mae'n siwr y bu'r hers yn gyfrifol am gludo hynafiaid anffodus llawer o fro'r Eco i'w gorweddfan olaf ar ôl damweiniau. Cafodd amryw mae'n siwr ofal yn Ysbyty'r Chwarel, Llanberis. Hei - dyna le i anfarwoli'r hen hers!

Beth am ychwanegu hers geffyl Waunfawr (ac ambell lun o'r hen gwt) at gyfoeth campws Amgueddfa Lechi Llanberis? Yn bersonol mi hoffwn hefyd weld llond pot-jam o jeli-llyffant yn cadw cwmni iddi, ond mi fyddai hynny'n mynd braidd yn rhy bell mae'n siwr!

**Duncan Brown**



Cwt yr Hers, Waunfawr, fel mae o heddiw



Hen hers geffyl, Waunfawr (mae'n debyg), yn ei orweddfan olaf (namyn un gobeithio!) mewn stôr ym Margam, ger Port Talbot.

# Ysgol Waunfawr

**Sustrans Big Pedal**
Yn ystod pythefnos Sustrans 'Big Pedal' cefnogwyd yr ymgyrch drwy geisio teithio i'r ysgol ar droed, sgwter neu feic. Yn ogystal bu i bob disgybl CA2 gyflawni taith o amgylch y buarth yn ystod y dydd fel rhan o weithgaredd beicio noddedig. Llwyddwyd i gwblhau 1664 '*lap*' o'r buarth, a chodi dros £1,300 o arian noddi a fydd yn cael ei wario ar offer addysg gorfforol a chwaraeon. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.





Diolch hefyd i fechgyn Blwyddyn 5 a 6 am ddefnyddio eu sgiliau gwych i adeiladu beiciau newydd i blant y Cyfnod Sylfaen yn ddiweddar.



**Gwasanaeth Cerdd Ysgolion**
Diolch i Mrs Gwenant Pyrs Roberts am gynnig sesiynau cerdd i ddisgyblion yr ysgol yn ddiweddar. Cafwyd cyfle i arbrofi gyda rhythmau ac offerynnau taro, yn ogystal â datblygu sgiliau gwerthuso cerddoriaeth.

**Morrisons**
Bu i ddosbarth Moel Eilio elwa o wneud cyswllt gyda siop Morrisons yn ystod gwaith thema'r tymor. Mae Morrisons wedi rhoi rhoddion megis teganau a bag compost i'r disgyblion. Bydd y disgyblion hefyd yn rhan o ymgyrch i yrru negeseuon arbennig ar gyfer yr henoed yn yr ardal leol. Bu i'r disgyblion gasglu llond troli Morrisons o fwyd ar gyfer y banc bwyd lleol – gwych!




**Chwaraeon**
Mae'r disgyblion yn parhau i fwynhau sesiynau pêl-droed gyda Gethin o glwb y Bala yn wythnosol. Mae'n braf gweld yr holl ddisgyblion yn CA2 yn mwynhau gweithgareddau ffitrwydd a llesiant yn yr awyr agored.

Diolch i Mrs Herbert hefyd am gychwyn sesiynau pêl-rwyd gyda'r disgyblion hynaf yn wythnosol.

**Garddio**
Mae Anti Mari a'r disgyblion hynaf wedi bod yn brysur yn twtio a thacluso ardaloedd yn yr ardd. Diolch i'r rhai a gyfrannodd hadau a phlanhigion ar eu cyfer – bydd yn braf cael gweld y tyfiant yn nes ymlaen yn y tymor.



**Dawnsio creadigol**
Dyma lun o blant y Dosbarth Meithrin yn mwynhau dawnsio gyda sgarffiau.



w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k

**ECO'r Wyddfa**

# WAUNFAWR

**Cyfarchion Penblwydd Arbennig**
Penblwydd hapus iawn i chi Beryl Jones, Dôl y Coed, fu'n dathlu cyrraedd 80ain oed yn gynharach mis yma. Gobeithio eich bod wedi mwynhau dathlu efo'r teulu Beryl.

**Diolchiadau**
Hoffai Beryl, Dôl y Coed, ddiolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed.

Dymuna Menna ac Elfyn, Blaen y Nant a'r teulu i gyd, ddiolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd yn dilyn marwolaeth tad Menna yn ddiweddar. Diolch am yr holl gardiau a'r cyfraniadau hael a dderbyniwyd tuag at SNAP Cymru a COPD Foundation.

**Adref o'r Ysbyty**
Croeso cynnes adref i chi Menna McDaid, Lloches, wedi cyfnod hir yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth. Gobeithio y byddwch yn gwella yn fuan.

Hefyd, croeso adra i Lesley Jones, Stad Tŷ Hen sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty – gobeithio y byddi'n gwella'n fuan Lesley, mae'r mynyddoedd yn dy golli!

**Ail agor Tafarn Snowdonia Parc**
Roedd dydd Llun, 26ain Mai yn ddiwrnod hapus iawn i Carmen, perchennog Tafarn Snowdonia Parc, a'r staff i gyd. Dyma'r tro cyntaf iddi gael agor ers misoedd lawer, oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

Mae Carmen wedi buddsoddi yn helaeth mewn adnewyddu tu allan i'r dafarn a chreu llefydd eistedd ychwanegol. Braf oedd gweld cefnogaeth dda iddi gan y pentrefwyr ac ymwelwyr er gwaetha'r tywydd siomedig! Pob lwc i ti a'r staff Carmen i'r dyfodol.



**Tîm pêl-droed o dan 8 oed Waunfawr**
Er bod y gynghrair wedi dod i ben i dîm dan 8 Waunfawr mae sawl gêm gyfeillgar wedi eu trefnu. Dyma lun o'r tîm yn dilyn gêm yn erbyn Llanberis – enwau'r tîm o'r chwith i'r dde ydi Elis, Cadi, Libbi, Liam, Amelia, Cian, Alffi Harries, Alfie Wyn, Cynan, Caio, Mabon ag Alfie Bo.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau gwresog i Shirley Parry, Pant Waun ar ddod yn nain am y tro cyntaf. Ganwyd Guto Dafydd Parry ar y 9fed o Ebrill, mab i Dafydd a Teleri. Dymuniadau gorau ar y magu Shirley.

Ganed mab bach hefyd i Wiliam, Afallon a'i bartner. Ŵyr bach newydd i Diane a gor-ŵyr i Dafydd a Llywela Tref Eilian. Dymuniadau gorau i chi i gyd.

**Gweinidog Newydd i Gapel Croesywaun.**
Mae'n croeso yn fawr i'r Parchg Anna Jane Evans sydd ers 1af Ebrill wedi ei phenodi yn swyddogol yn weinidog ar Gapel y Waun. Bydd rhai ohonoch eisoes wedi ei gweld yn y pentref gan ei bod yn ymweld yn aml yn ystod yr wythnos.

Bu Anna Jane sy'n byw yng Nghaernarfon yn gweithio am 18 mlynedd gyda Chymorth Cristnogol. Yn ystod y cyfnod hwnnw teithiodd i bum gwlad wahanol i weld drosti ei hun y gwahaniaeth mae caredigrwydd y cymunedau yng Nghymru yn ei wneud.

Er ei bod bellach yn weinidog arnom yn Waun nid yw'n rhoi heibio'r cyswllt â Chymorth Cristnogol. Fel rhan o weithgareddau Wythnos Cymorth Cristnogol, Mai 10fed - 16eg, bydd dros gant o bobl ar draws Cymru yn ymgymryd â sialens



300,000 cam. Er mai dros gyfnod o fis bydd y rhelyw yn gobeithio cwblhäu'r her mae Anna Jane ynghyd ag un o blant y Waun sef Nan Wyn Powell-Davies, yn bwriadu cwblhau'r her o fewn wythnos gan gychwyn yma yn Waunfawr a Moel Eilio ar 8fed Mai. Bydd yr arian a godir ganddynt yn mynd tuag at waith Cymorth Cristnogol yn rhai o gymunedau tlota'r byd.

Pob lwc iddi hi a Nan ar eu taith.

Os oes rhywun yn dymuno gwneud cyfraniad i gefnogi eu hymdrech mae modd gwneud hynny ar 'Just Giving' neu ofyn i unrhyw un o flaenoriaid /aelodau Capel y Waun am amlen bwrpasol.

Trefn yr oedfaon ar gyfer mis Mehefin yw:
6ed Mehefin – Mr Robert Morris, Penygroes
13eg Mehefin - Mr John Roberts
20fed Mehefin – Dafydd Iwan
27ain Mehefin - Parchg Anna Jane

Mae'n bosibl ymuno gyda'r oedfaon ar Zoom – a gwelir y manylion ar flaen y capel

**Cydymdeimlo**
Rydym yn cydymdeimlo gyda Kevin Hughes, Glyn y Garth, Tomos Siôn a Beca, a gweddill y teulu ar golli tad a thaid annwyl. Roedd tad Kevin yn byw yng Nghaernarfon.

Rydym yn cydymdeimlo hefyd efo teulu Mrs Mair Williams, Fferm Bodhyfryd, Waunfawr. Ganwyd Mair ar fferm Planwydd, Rhyd Ddu ar 18fed Rhagfyr 1933 yn un o dripledi, a hi oedd yr unig un o'r tri a oroesodd. Yn ddiweddarach ganed dwy ferch arall i'r teulu.

Fe'i haddysgwyd yn y 'Caernarfon Grammar' cyn symud i Ysgol Porthmadog wedi i'r teulu symud i fyw i Graflwyn, Beddgelert. Yn ddiweddarach symudodd y teulu yn ôl i Ryd Ddu lle bu mam Mair yn cadw siop. Felly er mwyn parhau gyda'i haddysg ym Mhorthmadog, bu'n rhaid i Mair aros gyda modryb ym Meddgelert yn ystod yr wythnos, lle cyfarfu â'i gwr, Gwilym Williams, fu'n Gynghorydd dros Waunfawr am nifer o flynyddoedd.

Wedi cwblhau ei haddysg, mynd yr holl ffordd i Birmingham fel nyrs dan hyfforddiant, cyn symud yn nes adra i Ysbyty Walton, Lerpwl. Ymgartrefodd wedyn gyda'i gwr, Gwilym, yng Nghyffordd Llandudno lle ganed eu merched Delyth a Bethan.

Mae'n rhaid bod tynfa gref tuag at fro ei mebyd oherwydd symudodd y teulu wedyn i'r Waun yn 1970 lle bu Gwilym a Mair fyw am weddill eu hoes. Bu Mair yn nyrs gymuned yn Waunfawr am nifer fawr o flynyddoedd hyd at ei hymddeoliad. Rydym yn cydymdeimlo gyda Delyth, Bethan a'u teuluoedd a hefyd gyda dwy chwaer Mair, sef Alice yn Ystradgynlais a Margaret yn Toronto, Canada.

**Antur Waunfawr**
Cafodd diffribliwr newydd ei osod yn Antur Waunfawr, sydd ar gael i'w ddefnyddio gan y gymuned. Golyga hyn bod un naill ben i'r pentref a'r llall erbyn hyn (mae'r llall wrth y siop), ac yn adnodd gwerthfawr iawn i'r pentref.

# CAEATHRO

**Capel**
Ar 6ed Mehefin bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Marcus Wyn Robinson am 2:00PM. Bydd y Cymun hefyd yn cael ei weinyddu yn ystod y Gwasanaeth hwn. Yna ar yr 20fed Mehefin, bydd Gwasanaeth dan arweiniad Mr. Robert Morris am 2:00PM.

**Penblwydd Arbennig**
Carem ddymuno'n dda i Hefin Hughes (Cefn Gof) wedi iddo ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio daw digon o gyfle i ddathlu fel mae'r tywydd yn gwella a'r cyfyngiadau clo'n cael eu llacio!

**Pob Lwc**
Pob lwc i bobl ifanc y pentref sydd yng nghanol eu cyfnod arholiadau/asesiadau. Wedi blwyddyn anodd, gobeithio'n wir bydd digon o gyfle i chi gael dathlu dros yr haf!

**Etholiad**
Braf yw cael cyhoeddi fod cynrychiolaeth deilwng o drigolion y pentref a'r ardal gyfagos wedi lleisio eu barn unwaith eto yn yr Etholiad diweddar ar gyfer Aelodau Seddi Etholaethol, Seddi Rhanbarthol a Chomisiynydd Heddlu'r Gogledd.

**Apêl**
Nodyn i'ch atgoffa y gallwch anfon unrhyw newyddion yr hoffech ei rannu yn y papur gyda mi – fy e-bost ydi lowriceiriog@hotmail.co.uk.

# Garddio

**Mehefin**

Ar ôl Ebrill oer a sych, a Mai a ddechreuodd yn wlyb a gwyntog, dyma obeithio, pan fyddwch chi'n darllen hwn, bydd yr haf wedi cyrraedd gan gofio bydd y dydd hiraf a throad y rhod yma'n fuan!

Mae'r holl oleuni ychwanegol a'r gwres yn golygu bod planhigion yn eu tymor tyfu ac mae hynny'n amlwg ym mhob cornel o'r ardd. Ond mae'r goleuni a'r gwres hefyd wrth fodd y chwyn – felly cadwch yr hof yn brysur.

Gyda llaw, ni ddylid defnyddio'r hof ar y gwely nionod gan eu bod yn gwreiddio'n agos i'r wyneb. Chwynnu gyda'r dwylo amdani felly ac os ydych chi am arbed eich cefn, rhowch glustog gardd dan y pengliniau neu gallwch gael stôl sy'n troi'n glustog.

**Tasgau**

1. Hofio'n rheolaidd i gadw'r chwyn dan reolaeth.
2. Defnyddiwch ddŵr yn ddarbodus. Os nad ydach chi eisoes wedi gosod casgen ddŵr yn yr ardd, ystyriwch gysylltu un neu ddau i'r peipiau sy'n dod i lawr o'r landerydd. Dydyn nhw ddim yn arbennig o ddrud ac mi fyddwch yn cyfrannu at wella'r amgylchedd. Cofiwch fod un drochfa dda yn well na sawl un ysgafn (sy'n lleihau'r gwaith i'r garddwr) ac mae'n well gwneud hynny pan fo'r haul wedi gwanio, un ai'r peth cynta'n y bore neu fin nos, cyn iddi dywyllu.



3. Ewch i chwilio am y 'lladron' ar y tomatos yn gyson. Dydyn nhw'n gwneud dim ond dwyn nerth y planhigyn. Mae rhai garddwyr yn argymell plannu basil efo neu wrth ymyl y tomatos – gan honni bod y perlysieuyn neu drwyth wedi ei wneud o'r dail yn cadw pryfetach megis pryfed gwyn, pryfed tŷ a llyslau (aphids) draw. Coel gwrach efallai, gan nad oes fawr o dystiolaeth wyddonol am hyn… Does wybod – ond un peth sy'n sicr, mae basil a thomatos yn blasu'n dda gyda'i gilydd, felly dwi am blannu rhai yn y tŷ gwydr eleni wrth ymyl y tomatos a gosod dau neu dri ym mhotiau rhai hefyd. Amser a ddengys beth fydd y canlyniad, ond os yw'n llwyddiannus byddaf wedi cyfrannu at wella'r amgylchedd trwy ddefnyddio llai o bla laddwyr.



4. Bydd letys, rhuddygl (radish), nionod mân a thatws cynnar yn barod i'w bwyta. Beth gewch chi'n well na thatws a salad ffres o'r ardd – dyna'ch gwobr am eich holl waith caled!



5. Gosodwch y basgedi crog yn eu lle a llenwch eich potiau a bocsus ffenest gyda blodau. Ar ddiwrnod poeth, mae rhai yn eu dyfrio gyda chiwbiau rhew. Weithiau mae'n haws tynnu'r basgedi i lawr, eu gosod mewn pwced llawn o ddŵr a'u dyfrio, fel nad yw'r dŵr yn gorlifo dros yr ochrau.
6. Torrwch y lawnt bob wythnos. Ond os ydych am hyrwyddo gwenyn (peillwyr pwysig) i'r ardd, dengys ymchwil diweddar bod peidio torri'r lawnt am bythefnos yn cynyddu'r gwenyn sy'n ymweld â'r ardd 30%!
7. Plannwch weddill y blodau blwyddol.
8. Defnyddiwch gansen os oes gennych blanhigyn gwan a hirgoes.
9. Gallwch docio llwyni sydd wedi blodeuo yn y gwanwyn.
10. Mae rhai garddwyr yn gosod cysgod ar y tŷ gwydr rhag iddo orboethi.
11. Cysgodwch eich tŷ gwydr rhag haul crasboeth. Mae awyru yn bwysig – hynny yw, agor neu gau'r ffenestri a'r drws fel bod angen. Mae taenu dŵr ar y llawr hefyd yn cadw'r aer yn llaith ac yn gostwng y tymheredd.
12. Yn hytrach na gosod darnau o botiau pridd ar waelod eich potiau, mae modd defnyddio polystyrene i gael draeniad effeithiol ac mae'r potiau hefyd yn ysgafnach i'w trafod.
13. Taenwch ddyrnaid o wrtaith neu chwistrellwch gwrtaith hylifol dros fylbiau'r gwanwyn a'u cadw yn y pridd nes i'r dail wywo – peidiwch â thorri'r dail i greu gofod plannu i blanhigion eraill – neu fydd y blodau o'r bylbiau ddim yn blodeuo cystal y flwyddyn ganlynol.
14. Chwynwch yn ofalus rhwng ac o amgylch eich pys a ffa a'r ffa dringo a gwnewch hyn yng ngwres yr haul. Gallwch eu dyfrio ar ddiwedd y dydd.
15. Erbyn hyn fe all eich planhigion tyner ifainc fynd allan i wres yr haul, ond bydd angen eu gwylio a'u dyfrhau'n gyson nes iddynt sefydlu.
16. Mae'n bwysig iawn i binsio blaen dyfiant llwyni fel fuchsia rhag iddynt fynd yn hirgoes; fe fydd mwy o flodau wedyn.

**Helpu'r amgylchedd a gwarchod bywyd gwyllt**

- Wyddech chi mai'r gwenyn yw un o'n prif beillwyr? Maent yn gyfrifol am beillio tri chwarter ein cnydau. Gallwch eu denu i'ch gardd drwy dyfu'r planhigion maent yn eu mwynhau e.e. borage, buddleia, marigold cyffredin, lafant neu rosod. Ffordd arall o helpu'r pryfetach yw drwy fod yn flerach yn yr ardd a gadael rhai chwyn i dyfu yn y lawnt neu ar gyrion y lawnt er enghraifft crafanc y frân, dant y llew neu ddanadl poethion. Gallwch wneud gwrtaith hylifol llawn nitrogen efo'r danadl poethion neu comfrey a dŵr. O roi help llaw i'r bywyd gwyllt mi fydd y bywyd gwyllt yn rhoi help llaw i chi, er enghraifft mi ddylai'r titw tomos a'r fuwch goch gota eich helpu trwy ddifa'r llyslau – ond os nad ydynt yn eu chwalu gallwch gael gwared ohonynt efo chwistrelliad o sebon golchi llestri mewn dŵr – heb niweidio dim byd arall.
- Trïwch beidio defnyddio'r peledi bach glas i ddifa'r malwod a gwlithod. Ni fydd y rhai sy'n cynnwys metaldehyde ar gael erbyn gwanwyn 2022. Os oes ganddoch waliau cerrig, fel sydd acw, o gwmpas yr ardd gall gwlithod a malwod fod yn broblem. Mae'r peledi bach glas yn handi i'r garddwr ond maent yn gallu niweidio anifeiliaid anwes, adar a draenogod. Gallwch ddefnyddio rhai sy'n dderbyniol yn organig sy'n cynnwys ferric phosphate sydd, yn ôl pob sôn, yn llai peryglus i blant a chŵn a chathod (er bod angen gofal efo'r rhain hefyd). Os oes rhaid eu defnyddio, byddwch yn ofalus a'u taenu'n denau ar y pridd oddeutu 10 – 15 cm o gwmpas y planhigion rydych am eu gwarchod. Cofiwch dydy pob planhigyn ddim yn ddeniadol i falwen. Cadwch y cynhwysydd peledi yn ddiogel allan o gyrraedd plant ac anifeiliaid anwes. Opsiwn arall yw lladdwyr gwlithod sy'n cynnwys aluminium sulphate (dim yn hollol organig) sydd yn amgylcheddol gyfeillgar, neu gallwch gael rhai sydd wedi eu gwneud o wlân. Prin yw'r perygl o ddefnyddio'r rhain i fywyd gwyllt nac anifeiliaid anwes.
- Fel arall gallwch daenu cylch o falurion coffi (coffee grounds) o gylch eich planhigion i'w cadw'n ddiogel (mae'r nitrogen yn y coffi hefyd yn gwrteithio'r pridd ar yr un pryd). Os oes cath neu gi yn eich teulu trïwch ddull arall fel bandiau copr gan fod y caffeine yn wenwynig iddynt (yn anffodus wneith decaf ddim gweithio). Gallwch hefyd osod trapiau cwrw (mewn cynhwysydd o dan lefel y pridd) neu fynd i'w hela efo fflach lamp pan yw'n dechrau nosi – gan eu difa mewn dŵr a halen. Datrysiad mwy eithafol yw cadw ieir neu hwyaid…



Llun: Alwyn Owen

**Rhosyn Mynydd**

# Ar ben arall i'r lein

Mae'n amlwg fod pobl leol sy'n ymddiddori mewn pysgota'n hyderus dros ben yn y grefft. Pam wyf fi'n dweud hynny? Wel, eglurais y mis diwethaf y byddai cyfle, os byddai galw, i drefnu sesiynau hyfforddi. Does neb wedi cysylltu, ac felly dyna ddiwedd ar y syniad yna.

Mae un peth yn o sicr, cawn lonydd gan y gwleidyddion am bum mlynedd arall. Gydag Etholiad y Senedd y tu cefn i ni, does dim llawer o angen addo dim mwy. Cyn belled ag y mae pysgota yn y cwestiwn, ni chlywais yr un ohonynt yn dweud dim am y llewyrch y gallai byd y pysgod ei roi i economi cefn gwlad, yn enwedig o ran medru cynnig hyfforddiant i rai o'n pobol ifanc. Clywaf rai'n dweud, 'O dyma fo'n dechrau arni eto!' Ia, dyma'r rhai na fedrant weld a dychmygu nid yn unig y gallai pysgota genweiriol rhagorol fod yn dynfa i'r fro, ond hefyd y deuai budd mawr o fagu stoc o bysgod ar gyfer y farchnad, fel bwytai a gwestai. Dwi wedi bod yn pregethu ers blynyddoedd – dros 40 mlynedd a bod yn gywir – am y galw a fyddai am un o'n hadnoddau pwysicaf os byddai caniatâd i'w ffermio ar gyfer y farchnad fasnachol. Wrth gwrs, cyfeirio at y torgoch ydw i. Mae gan y Clwb ddeorfa'n barod yn Crawia, ac un dda ydi hefyd. Yn ogystal, mae ganddo hefyd ddigon o dir, fel ym Mhont Rug, y gellid sefydlu uned fasnachol arno. Mae un cam bach wedi ei gymryd at wireddu hyn, gan ein bod wedi cael ychydig o rawn i'w ddeori a'i fagu fel rhan o gynllun cyd-weithio gydag ysgolion cynradd ardal Dyffryn Peris. Mae criw'r ddeorfa wedi llwyddo i'w fagu, ond yn anffodus daeth Covid-19 ac roedd yn amhosib rhyddhau'r pysgod yn ystod 2020. Dwi'n mawr obeithio y caiff y rhain eu gollwng i'r Llyn cyn diwedd Mai, gyda chymorth un o ysgolion y fro gobeithio. Y cam nesaf, os cawn rawn at y gaeaf eleni, fydd ceisio cael caniatâd i fagu rhai i faint a fydd yn addas i'r badell.

Ychydig ddyddiau'n ôl cefais ohebiaeth oddi wrth gwmni 'Snowdonia Pumped Hydro'. Dyma'r criw a gafodd hawl i adeiladu gorsaf gynhyrchu trydan yng Nglyn Rhonwy. Dyw'r cynllun hwn ddim wedi ei wireddu hyd yma, ond y wybodaeth a gefais oedd bod y cwmni'n gwneud cais i'r Senedd 'i wneud newid di-arwyddocaol i'r terfyn amser ar gyfer dechrau'r gwaith adeiladu'. Yn gynwysedig yn y cynllun y mae'r hawl i ollwng dŵr o'r gwaith i waelod Llyn Padarn – a dyna lanast fyddai hynny: corddi gwaelod y Llyn ac ailgylchu'r holl fudreddi sydd wedi setlo yno. Dwi'n rhyw amau fy mod wedi bod yn y gêm yma'n rhy hir gan fy mod yn methu'n glir â gweld ond bygythion o'n blaen.



Coed o'u gwreiddiau ar y Llyfni

Dyma un neu ddau o bethau bach eraill i godi'ch calon! Rwyf wedi clywed fod dau gynllun go fawr ar y gweill yn yr hen ardal yma. Y cyntaf yw Llwyn Brain neu'r Seiont Manor, Llanrug. Mae'r gwesty wedi cau ers peth amser ac ar werth. Mae cynnig yn ôl pob golwg i adeiladu unedau/tai gwyliau moethus ar ran o dir y gwesty sy'n rhedeg i lawr at Afon Seiont, gyda chyfleoedd ar gyfer chwaraeon dŵr ac ati. Yr ail yw hen safle ffatri Ferodo, lle mae bwriad i adeiladu unedau/tai moethus i lawr ar lannau'r Fenai, gyda chanolfan chwaraeon awyr agored yno hefyd. Mae'n sicr y bydd y cynlluniau awyr agored hyn yn ceisio cael defnydd o'n hafonydd yn rhad ac am ddim. Mae'n debyg y bydd yr unedau hyn i gyd ar gael i ieuenctid y fro!! Ydi, mae'n ymddangos ein bod yn prysur droi yn Abersoch 2.

O'r diwedd, felly, dyma droi at y pysgota, er nad oes fawr i'w adrodd o ran daliadau. Dyw'r tywydd ddim wedi bod rhyw lawer o gymorth: ofnadwy o sych, yna eira a llifogydd mawr yn dilyn, a gwyntoedd cryfion hefyd a fu'n gyfrifol am godi coed o'u gwreiddiau ar lannau Afon Llyfni. Dim yn ddelfrydol o bell ffordd ar gyfer pysgota. 'Dwi 'di bod lawr wrth y Clwb Hwylio yng Nghaernarfon i weld os oes eog neu wyniedyn neu ddau yn dangos ar y llanw; ond dim byd yn anffodus, er fy mod ar ddechrau'r flwyddyn wedi gweld rhai dros y ffordd i Barc Coed Helen. Ond fel dywed yr hen air, 'Un wennol ni wna wanwyn'.

Ond mewn difri, diwedd Mai yw'r amser y disgwylir i wyniadau mawr gael eu bachu o gwmpas Glan Gwna a'r Finiog. Eleni, fe ddylai fod yna dipyn o bysgod o gwmpas gan fod digon o ddŵr i'w denu i gymryd yr afon. Gyda thipyn o lwc i mi, bydd rhywbeth gwerth chweil i'w adrodd am hyn yn y rhifyn nesaf. Rwyf reit hyderus o hyn gan y byddaf wedi dechrau 'sgota'n ôl! 'Dwi 'di bod yn absennol o'r afon ers Hydref 2019 yn dilyn anaf i'm coes, ond mi fûm am ryw dro bach i lawr y Finiog i weld sut oedd pethau'n mynd. Gan fod popeth yn iawn, codi trwydded wladol yw'r cam nesaf.

Araf iawn fu hi ar y llynnoedd hefyd. Mae brithyll da wedi dod o'r Dywarchen, ond fel 'dwi'n deall, does dim llawer wedi bod yno. Un rheswm am hynny wrth gwrs yw'r tywydd, ond y rheswm pennaf oedd bod y stocio cyntaf eleni wedi ei ddileu hyd at 10fed Mai: pysgod arbennig o Fagwrfa Trawsfynydd. A hithau heddiw'n 12fed Mai, y tebygrwydd yw y bydd rhaid disgwyl i gael cyfle i 'sgota'r llecynnau poblogaidd, fel y glannau sy'n rhedeg o'r argae i'r hen ferddyn. Chefais i ddim cyfle i flasu'r wledd bysgodfaol, oherwydd rhaid oedd cael trefn ar yr erthygl yma!

Y mis nesaf, gobeithio daw cyfle i adrodd am y gwelliannau cynefinol sydd ar y gweill gan Ymddiriedolaeth Afonydd y Gogledd.

**Huw Price Hughes**


Ogwen
Adferiad Corfforol
Eli Lichtenstein
Manual Therapy (diploma)
07743373895
Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol

LLEDDFU POEN cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau a thensiwn cur pen

# Canolfannau Hamdden Gwynedd yn Croesawu'r Gymuned yn ôl

Ers 4ydd Mai 2021, mae nifer o Ganolfannau Byw'n Iach wedi ail-agor i gwsmeriaid. Daw hyn wedi croesawu clybiau a mudiadau nôl i'r caeau synthetig a chyrtiau tu allan ers rhai wythnosau.

Bellach, mae Canolfan Hamdden Arfon wedi ail-agor ei drysau i gwsmeriaid ymarfer yn ddiogel. Mae modd i gwsmeriaid ymweld â'r gampfa neu nofio lôn yn y pwll. Mae gweithgareddau grŵp, sy'n cynnwys rhaglenni poblogaidd o ddosbarthiadau ffitrwydd yn ogystal â gwersi nofio a gymnasteg i blant, wedi ail-gychwyn. Mae modd i glybiau ddychwelyd dan do a thu allan - trwy gadw at uchafswm o 15 o bobl mewn grŵp tu mewn a 30 tu allan am y tro.

Mae Byw'n Iach hefyd yn cynnig y sesiynau poblogaidd Nofio Teulu. Mae pob teulu yn cael defnydd eu hunain o ran o'r pwll ar gyfer sesiwn awr. Mi fydd sesiynau Nofio Am Ddim ar gyfer rhai 60+ hefyd yn ailgychwyn.

Mi fydd angen i bawb gyrraedd y pwll yn barod i nofio (siwt nofio o dan eich dillad arferol). Ond mi fydd hi'n bosib defnyddio Ystafell Newid ar y ffordd allan i sychu a newid. Mi all cwsmeiriad anabl bwcio gofod newid pwrpasol ar gyfer cyn ac ar ôl eu sesiwn nofio trwy ffonio'r ganolfan leol o flaen llaw.

Os ydych am gael lle i'ch plentyn yn y gwersi nofio neu gymnasteg, plîs cysylltwch â'r ganolfan leol i ofyn a oes lle ar gael neu os ydy'n bosib ymuno â'r rhestr aros.

Mae'n rhaid bod yn aelod o Byw'n Iach ar hyn o bryd a bwcio eich sesiynau o flaen llaw. Mae aelodaeth flynyddol safonol yn costio £11.50 i bobl ifanc 16-24, pobl dros 60oed a phobl anabl. Mae






aelodaeth am ddim i blant hyd at 16 oed ac yn £21.30 i bob oedolyn arall. Mae aelodaeth yn sicrhau pris is ar gyfer pob ymweliad yn ystod y flwyddyn. Mae modd wrth gwrs hefyd i dalu am becyn Debyd Uniongyrchol sydd yn rhoi defnydd di derfyn o'r cyfleusterau. Mi all staff eich canolfan lleol eich cynghori o ran yr opsiwn orau.

Mi fydd Tîm NERS (Rhaglen Cyfeirio i Ymarfer) hefyd yn raddol ehangu eu gwaith a chefnogi cleientiaid newydd dros yr wythnosau nesaf. Mae'r tîm yn medru cefnogi ystod eang o drigolion sydd â chyflyrau iechyd penodol, yn gwella wedi triniaeth neu'n ceisio lleihau pwysau gwaed neu golli pwysau. Os ydych chi'n teimlo y gall y tîm eich cefnogi chi, siaradwch efo'ch meddyg teulu neu nyrs cymunedol i weld os ydy'n opsiwn addas i chi.

Meddai Amanda Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach: "Mae hi wedi bod yn gyfnod hir ers i'r cyfleusterau fod ar gael oherwydd y rheoliadau i reoli Covid-19 ond rydym yn falch iawn o fod yn gallu ail-agor Canolfannau Byw'n Iach ac i groesawu pobl yn ôl.

"Rydym yn ymwybod y bydd sawl un yn teimlo ychydig yn bryderus am ddychwelyd. Mae hynny wrth gwrs yn ddealladwy ond mae ymchwil yn ystod yr hydref a'r gaeaf wedi profi fod canolfannau yn llefydd diogel gyda'r trefniadau Covid Diogel ychwanegol sydd yn cael eu gweithredu."

**Actif am Oes**

Er mwyn cefnogi rhai sydd efallai'n teimlo eu bod angen ychydig gefnogaeth ychwanegol mae Byw'n Iach am gynnal sesiynau newydd sbon wythnosol "Actif am Oes" ar bob safle o'r wythnos sydd yn cychwyn 7fed Mehefin 2021, a fydd ymlaen tan gwyliau'r haf. Bydd cyfle i fynychu'r ganolfan ar fore neu brynhawn yn rhad am ddim.

Yn ystod y sesiynau mi fydd yr ystafell ffitrwydd ar gael gyda goruchwyliaeth a niferoedd isel - tebyg i drefniant "amser tawel". Os ydych chi wedi anghofio sut i ddefnyddio'r offer, mi fydd staff cyfeillgar ar gael i roi anwythiad byr i'ch ail atgoffa. Bydd cyfle hefyd i gael taith tywys o gwmpas yr adeilad i weld y trefniadau newydd a siarad gydag aelod o staff. Bydd sesiynau blasu o amrywiaeth eang o weithgareddau fel rhan o'r rhaglen, megis Yoga, 'Circuits' Ysgafn tu allan, teithiau cerdded er lles, sesiynau garddio a phethau newydd fel pêl-droed cerdded yn cael eu cynnal hefyd.

Bydd y staff Actif Am Oes newydd, Fiona a Paul yn holi barn am y math o weithgareddau hoffai bobl weld yn y ganolfan yn ystod y dydd yn y dyfodol. Mae'r sesiynau yma'n ddelfrydol ar gyfer trigolion hŷn - ond ar gael i rywun sy'n awyddus i gymryd y cam cyntaf gyda thipyn o gefnogaeth ychwanegol. Does dim rhaid bod yn aelod i fynychu'r sesiynau anffurfiol yma - croeso i bawb alw heibio! Mi fydd yr union ddyddiau ac amseroedd ar gyfer pob canolfan, ar gael ar wefan Byw'n Iach yn nes at yr amser.

Mi fydd gwybodaeth am yr holl wasanaethau yma ar gael ar wefan www.bywniach.cymru. Neu mae croeso i chi e-bostio cyswllt@bywniach.cymru neu ffonio Canolfan Hamdden Arfon ar 01286 676451.

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

Gwaith Coffaol
LLANRUG
Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA
☎ 01286 672898



***Dyma ddechrau cyfres o erthyglau diddorol i chi'r darllenwyr - gobeithio! Un o gyfranwyr aml-haenog yr Eco sy'n cael y fraint o lansio'r gyfres, sef ein cyn-olygydd Dafydd Whiteside Thomas. I fyd y rhedeg arbenigol, sef y Rhedeg Mynydd y mae am ein hudo. A lwyddodd i gyrraedd y copa yn ei gamp? Darllenwch ymlaen.***

# Cofio Cadwgan
## – a thair medal arian

Mae'n debyg fod unigolyn fu'n cymryd rhan mewn chwaraeon o unrhyw fath yn tueddu i gofio am y llwyddiannau ddaeth i'w ran yn ystod ei yrfa, boed hynny'n rhan o dîm neu'n athletwr unigol. Nid felly yn fy achos i. Methiant sy'n sefyll yn y cof, a hynny nôl yn 2000.

Roeddwn yn 53 mlwydd oed ac yn cystadlu yn yr adran dros hanner cant yng ngwahanol gyfresi pencampwriaeth rasys mynydd. Roedd Pencampwriaeth Cymru'n galw: 6 ras, gyda dwy ras ym mhob categori – byr, canolig a hir – a rhaid oedd cwblhau pedair, yn cynnwys un o bob categori.

Roedd Ras Moel Siabod (canolig) yn digwydd bod yn rhan o Bencampwriaeth Prydain hefyd, a bûm yn ddigon ffodus i ddod y Cymro cyntaf yn yr adran dros 40 oed a'r adran dros 50 oed, a mwynhau twmpath dawns ym Mhlas y Brenin ar noson y ras. Yn ystod yr haf, daeth llwyddiannau yn Ras Pen y Fan (byr) a Ras Mynydd Troed (byr), y ddwy yn Ne Cymru. Yr hyn sy'n od yw nad oes gen i fawr o gof am yr un o'r rasys hyn. Ond dyna dair ras wedi eu cwblhau, ac roedd angen cystadlu mewn ras hir. Un ras hir oedd ar ôl, a bu raid teithio i'r De unwaith eto, y tro hwn i ardal y Mynyddoedd Du yn y de-ddwyrain.

Ar y pryd, roedd hon yn ardal ddieithr i mi, a doeddwn i erioed wedi bod yn or-hoff o rasys hir, sef rasys hwy na thair milltir ar ddeg. Roedd Ras y Mynyddoedd Du yn ddeunaw milltir o hyd, ac yn cynnwys dringo tair crib o fynyddoedd a chroesi dyffrynoedd afonydd Grwyne Fechan a Grwyne Fawr. A doedd y tywydd ddim yn ffafriol chwaith. Yn wir, roedd y niwl mor drwchus fel bo bron angen map a chwmpawd i gyrraedd cychwyn y ras o'r maes parcio ym mhentref bychan Llanbedr Ystrad Yw, ger Crughywel.

Gwyddwn fod angen i mi orffen o fewn y pedwar rhedwr cyntaf dros 50 oed i ennill Pencampwriaeth Cymru – a dim ond chwech oedd yn cystadlu yn y grŵp oedran hwnnw ar y diwrnod. Roedd yn hanfodol cario map a chwmpawd ym mhob ras hir, ac yr oeddwn eisoes wedi astudio'r cwrs ac wedi ysgrifennu'r cyfeirnodau grid a'r cyfeiriadau cwmpawd o'r mannau mwyaf allweddol yn y ras.

Wrth ddringo llethrau serth Pen Cerrig Calch, cliriodd y niwl rhyw gymaint ac yr oedd yn weddol glir ar hyd y grib tua'r gogledd i gyfeiriad y Waen Fach. Yna disgyn dros lethrau'n llawn rhedyn i flaen cwm y Grwyne Fechan cyn dringo eto heibio ymylon coedwig i gopa Pen y Gadair Fawr. Disgynfa arall i'r Grwyne Fawr, a'r niwl yn chwarae mig ar gopaon y grib olaf. Dringo eto i gopa Chwarel y Fan a throi tua'r de.

Erbyn hyn roedd gen i gydymaith; rhedwr o ardal Delamere, Swydd Caer, yn cyd-redeg â mi. Gwyddwn ei fod mewn categori oedran ieuengach na mi! Ond gwaethygu oedd y tywydd, ac erbyn cyrraedd copa'r Bâl Mawr roedd yn glawio a'r gwynt yn cryfhau. Aros i wisgo cotiau glaw rhag oeri gormod, a thri neu bedwar o redwyr ieuengach yn mynd heibio wrth ddisgyn tua'r goedwig oedd yn ymddangos ac yn diflannu yn ôl mympwy'r niwl a'r gwynt.

Ar hynny, dyna'r rhedwyr ieuanc yn dod yn ôl tuag atom yn mwmial rhywbeth am 'ddim yn siwr o'r llwybr'. Doedd dim amdani ond estyn y map a chymharu ein nodiadau a'r cyfeiriadau cwmpawd. Roedd yn ymddangos ein bod yn dilyn y cyfeiriad cywir. Roedd giat lydan i fod o'n blaen yn arwain i mewn i'r goedwig, ac wedi rhyw ychydig funudau o redeg gofalus, dacw hi! O'r giat byddai llwybr gweddol lydan yn arwain i lawr cyn troi i'r dde a chyrraedd y Grwyne Fawr am yr eilwaith y diwrnod hwnnw.

Ymlaen a ni nes cyrraedd y tro yn y llwybr – i'r chwith yn hytrach na'r dde! Roeddem ar y llwybr anghywir, ac ar goll yng nghanol coedwig. Roedd dau ddewis: troi'n ôl a dringo'r holl ffordd i gopa'r






Bâl Mawr er mwyn ail-ddarllen cyfeiriad y cwmpawd neu droi i'r dde ac ymladd ein ffordd drwy'r goedwig gan obeithio cyrraedd yr afon. Doedd arnom fawr o awydd ail ddringo'r Bâl Mawr, yn enwedig o wybod fod dringfa arall dros y Crug Mawr cyn cyrraedd diwedd y ras. Felly, brwydro trwy'r goedwig fu ein hanes nes cyrraedd llannerch agored ac adfeilion hen ffermdy'n sefyll yn ei ganol. Ac yn hongian uwchben y gwagle lle dylai drws fod roedd arwydd gyda'r enw 'Cadwgan' arno. Y rhyfeddod oedd bod yr hen ffermdy wedi ei enwi ar y map. Roedd rwan yn bosib ail-gyfeirio'n camau tuag at y llwybr a arweiniai i fyny'r Crug Mawr.

Rhywle ar lethrau'r Crug Mawr roedd coed ysgaw. Fu eu ffrwythau erioed mor flasus! Cyrraedd diwedd y ras a llowcio sawl cwpaned o de melys. Sylweddoli fy mod wedi ychwanegu tua dwy filltir at bellter y ras. Gorffennais yn chweched – ac olaf o'r rhedwyr dros hanner cant – a diflannodd Pencampwriaeth Cymru. Doedd rhedwyr eraill fawr gwell na mi. Bu raid anfon tîm achub allan i chwilio am rai rhedwyr oedd ar goll y tu draw i gronfa ddŵr Grwyne Fawr, a daeth neges am ddau redwr di-brofiad a gyrhaeddodd gyrion Y Gelli Gandryll. Y niwl oedd yr enillydd ar y diwrnod.

Yn ddiweddarach yn y mis, cefais wybod fy mod wedi ennill y fedal arian yng ngrŵp oedran dros 40 oed a'r grŵp dros 50 oed. Ar ddiwedd mis Hydref, roeddwn yn aelod o dîm dros 40 oed Rhedwyr Eryri a enillodd fedal arian ym Mhencampwriaeth Prydain mewn rasys cyfnewid yn Edale. Roedd y tymor rhedeg wedi gorffen yn eithaf llwyddiannus wedi'r cyfan. Ond mae'r darlun o adfail hen ffermdy Cadwgan yn dal yn fyw yn y cof.

**Dafydd Whiteside Thomas**


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell, Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru

# ChwaraeonECO

## 'The Red Wall of Cymru'



Fel rhan o baratoadau Cymru ar gyfer yr *Euros* mae'r gân 'The Red Wall of Cymru' yn cael ei rhyddhau fel cân swyddogol tîm pêl-droed Cymru ar gyfer y gystadleuaeth. Cafodd y gân ei hysgrifennu gan Mike Peters, o'r band adnabyddus *The Alarm,* a Bryn Law sy'n enw poblogaidd iawn i gefnogwyr Cymru. Yr hyn sy'n gwneud y gân hyd yn oed yn fwy arbennig yw'r ffaith fod rhai o gefnogwyr ac aelodau'r Wal Goch wedi cael bod yn rhan ohoni.

Rwy'n teimlo'n ofnadwy o lwcus i allu dweud fy mod i wedi cael y fraint o fod yn rhan o'r peth gyda Dad, Elgan fy mrawd a chefnogwyr eraill ar draws Cymru! Cafodd y gân ei recordio yn stiwdios Rockfield cyn i Mike Peters fynd ar daith trwy Gymru i recordio gyda'r cefnogwyr.

Roedd 12 lleoliad i gyd, a chafwyd traws-doriad eang o bobl Cymru. O'r De i'r Gogledd, o'r Gorllewin i'r Dwyrain. Dewiswyd y cefnogwyr gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru yn dilyn rhyddhau neges ar wefannau cymdeithasol yn galw ar aelodau'r Wal Goch i fod yn rhan o rywbeth arbennig ar gyfer yr *Euros*. Heb oedi, roedd rhaid i ni gysylltu ar unwaith a bachu'r cyfle arbennig hwn. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, cawsom alwad ffôn yn ein hysbysu ein bod ymhlith y rhai lwcus oedd wedi cael eu dewis.

Yng Nghaernarfon oedd ein lleoliad ni wrth wal Yr Anglesey, gyda'r Fenai yn y cefndir. Cyn cyrraedd, doedd gan yr un ohonom syniad beth i'w ddisgwyl, ar wahân i'r ffaith ein bod yn cael 'photoshoot'. Cyrhaeddodd criw'r Gymdeithas Bêl-droed, a daeth dyn cyfarwydd allan o'r fan. Y dyn ei hun, Mike Peters. Roedd hynny'n dipyn o sioc a dweud y lleiaf! Cawsom sgwrs gydag ef, ac fe eglurodd ychydig am y gân a dweud mor falch oedd o'n teimlo o fod wedi cael y cyfle i'w hysgrifennu. Gan y bydd llawer o gefnogwyr yn colli'r cyfle i fynd draw i wylio Cymru yn ystod yr haf, dywedodd mai'r gobaith yw y bydd y gân yn codi ysbryd y Wal Goch. Dyna sydd mor arbennig amdani, mae'n pwysleisio pwysigrwydd y cefnogwyr gan sôn am fethiannau a llwyddiannau'r gorffennol yn ogystal â sôn am y dyfodol cyffrous sydd o'n blaen. Mae'n cyfuno'r hen gyda'r newydd, a'r dynion â'r merched.

Yn bendant, yr hyn sylwais wrth glywed y gân am y tro cyntaf oedd ei bod yn 'catchy' ac yn hawdd iawn i'w chofio. Roedd Mike Peters yn amlwg yn cael hwyl ac yn mwynhau canu gyda ni'r cefnogwyr. Cawsom ein ffilmio a'n recordio'n canu'n fyw gydag ef, ac yr oedd yna bobl yn ymgasglu i weld beth oedd yn mynd ymlaen. 'Pinch me moment' go iawn. Mi fydd hyn yn sicr yn brofiad a fydd yn aros gyda mi am byth, ac yn rhywbeth y byddaf yn ei werthfawrogi. Does dim llawer o bobl yn gallu dweud fod eu henwau ar record!

Mae'r EP yn cynnwys tair cân, a bydd ar gael o ddiwedd mis Mai. Bydd yr elw'n mynd tuag at elusen Love Hope Strength Foundation sydd wedi ei sefydlu gan Mike Peters. Mae'r elusen yn gweithio gydag arbenigwyr cancr i helpu i roi mynediad gwell i driniaethau arbed bywyd a lleihau marwolaethau cancr yng Nghymru a thu hwnt.

Dywedodd Mike Peters ei fod wedi medru cyfuno pedwar peth y mae'n angerddol yn eu cylch wrth ysgrifennu'r gân sef, Cymru, pêl-droed, cerddoriaeth a chefnogi pobl yng Nghymru sy'n brwydro yn erbyn cancr.

Dwi'n siwr y bydd cefnogwyr Cymru'n canu 'The Red Wall of Cymru' ar dop eu lleisiau mewn gemau am flynyddoedd i ddod. Cofiwch chi fynd ati i gael copi!

**Mared Rhys**


## Hoci nôl ar y cae





Mae'r crysau piws i'w gweld eto bob nos Fercher ar gae pob tywydd Llanrug! Diolch i waith caled gwirfoddolwyr, mae ymarferion y plant a phobl ifanc Clwb Hoci Merched Caernarfon wedi ailgydio gyda'r tîm dan 16 yn chwarae ambell gêm gyfeillgar.

## COLOFN CHWARAEON




**Ail gychwyn**

Mae rhai o dimau ieuenctid y fro wedi dechrau chwarae gemau pêl-droed cystadleuol. Erbyn hyn, mae rhai o'r timau pentrefol wedi dechrau ymarfer gyda'r bwriad o chwarae gemau 'cyfeillgar' yn y dyfodol agos. Gobeithio y gallwn fynd fel 'torf' i wylio rhai o'r gemau hyn.

Wrth glirio rhyw gwpwrdd y diwrnod o'r blaen, deuthum o hyd i boster yn hysbysebu cystadleuaeth Tlws yr Eco yr oeddwn wedi ei drefnu ar gyfer timau hŷn yr ardal. Nid oedd Waunfawr wedi ail-sefydlu erbyn y tymor hwnnw, a chredaf mai Llanberis, Llanrug, Deiniolen a Bethel oedd y pedwar tîm. Nid wyf yn cofio pwy aeth drwodd i'r rownd derfynol ond cofiaf i ni gael ffeinal ar noson braf ar Eithin Duon a thorf ddigon derbyniol yno. Efallai y buasai syniad felly wedi gweddu'r haf hwn. Hefyd, byddai'n braf cael asbri Tlws yr Eco ar gyfer yr ieuenctid unwaith eto – ond bydd rhaid i'r galw ddod o'r clybiau unigol.

ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >